# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 14EG MEDI, 2023**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.15YB**

Lleoliad

**Cyfarfod Aml-leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 7/9/23)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jina Gwyrfai | Iwan Huws |
| Dawn Lynne Jones | Dewi Jones |
| Gareth Tudor Jones | Olaf Cai Larsen |
| Gwynfor Owen | Llio Elenid Owen |
| Huw Rowlands | Paul John Rowlinson |
| Rhys Tudur | Sasha Williams |

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Gwilym Jones |
| Beth Lawton | Dewi Owen |
| John Pughe Roberts | Richard Glyn Roberts |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

| | |
|---|---|
| [sedd wag] | Eglwys yng Nghymru |
| Colette Owen | Yr Eglwys Gatholig |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor |
| Manon Williams | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Elise Poulter | NEU |
| [sedd wag] | |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 6 - 16

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2023 fel rhai cywir.

**5. CYNLLUN DIGIDOL - 2023-28** 17 - 37

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Ioan Thomas**

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

**6. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU YSGOLION UWCHRADD CATEGORI 3 GWYNEDD** 38 - 123

Cyflwyno adroddiad yr Ymchwiliad Craffu.

**7. STRATEGAETH ADDYSG GWYNEDD TUAG AT 2032** 124 - 173

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Beca Brown**

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

**8. PRESENOLDEB AC YMDDYGIAD DISGYBLION YSGOLION GWYNEDD** 174 - 184

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Beca Brown**

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

**9. BLAEN-RAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2023/24** 185 - 186

Mabwysiadu rhaglen waith ddiwygiedig ar gyfer 2023/24.

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 8 MEHEFIN 2023

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Jones (Cadeirydd)
Paul Rowlinson (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr**:- Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands a Rhys Tudur

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:** Y Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol), Ian Jones (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) a Helen Kilgannon (Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi), Llyr B. Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned) ac Esyllt Rhys Jones (Rheolwr Rhaglenni Adfywio).

**1. PENODI CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD penodi y Cynghorydd Elwyn Jones yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2023/24.**

**2. PENODI IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd dau enw ar gyfer yr Is-gadeiryddiaeth, sef y Cynghorwyr Paul Rowlinson a Richard Glyn Roberts, ond gofynnodd y Cynghorydd Richard Glyn Roberts i'w enw gael ei dynnu nôl gan na fyddai ganddo amser digonol i ymgymryd â'r rôl.

Tynnodd y cynigydd ei chynnig yn ôl.

**PENDERFYNWYD penodi y Cynghorydd Paul Rowlinson yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2023/24.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.

**7. GWASANAETH CYNLLUNIO ARGYFWNG RHANBARTHOL**

Croesawyd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a chynrychiolydd Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol yn gwahodd y pwyllgor i graffu'r trefniadau ar waith mewn perthynas â Chynllunio Argyfwng o fewn y Cyngor, ac yn benodol:-

- Sut mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn cyfrannu at wydnwch a diogelwch cymunedau yng Ngwynedd?
- Beth yw rhaglen waith y gwasanaeth ar hyn o bryd?
- Beth yw'r strwythur o fewn Cyngor Gwynedd i ymateb i sefyllfa frys neu argyfwng?

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Holwyd a oedd yna gynllun argyfwng llygredd yr arfordir penodol i Wynedd, gan ei bod yn hollbwysig bod y sir ei hun yn rhan allweddol o unrhyw gynllun adfer yn dilyn achos o lygredd.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna gynllun drafft a arferai gael ei ddefnyddio ar gyfer Gwynedd flynyddoedd yn ôl, a bod adolygu'r Cynllun Gweithredu'r Arfordir yn un o flaenoriaethau'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng eleni.
- Bod y Gwasanaeth yn edrych ar yr ymarfer gorau ar draws Lloegr a Chymru gyda'r nod o greu templed sy'n addas ar gyfer Gwynedd.

Mynegwyd pryder bod patrwm yng Ngwynedd o beidio glanhau cyrsiau dŵr nac o garthu o gwmpas pontydd, a nodwyd y dymunid gweld pwysau yn cael ei roi ar Gyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw rheolaidd. Nodwyd mai problem adnoddau oddi fewn i Gyfoeth Naturiol Cymru oedd hyn yn ei hanfod, ond roedd yn hanfodol bod y gwaith yn cael ei gyflawni gan fod problemau bychain yn mynd yn broblemau mawr, os nad oes lle i'r dŵr fynd.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna gyfrifoldebau penodol yn perthyn i'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd yn y cyd-destun hwn.
- Y credid bod y Strategaeth Llifogydd, fydd yn cael ei gyflwyno yn yr Hydref, yn rhoi llawer o bwyslais ar gydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod Sir y Fflint yn cyfrannu llai na'u siâr yn ôl poblogaeth at y Gwasanaeth Rhanbarthol oherwydd eu bod yn lletya'r cynllun.

Nodwyd yr angen i gywiro'r cyfeiriadau at '*Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru'* a '*Fforwm Cydnerth Gogledd Cymru'* yn yr adroddiad i ddarllen '*Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd*'.

Nodwyd mai un o'r risgiau sy'n cael ei adnabod yn yr adroddiad yw'r Pandemig Cofid-19, a holwyd pa mor gydnerth oedd ein paratoadau ar gyfer argyfwng o'r fath; pa mor effeithiol oedd ein hymateb yng Ngwynedd ac ar draws y Gogledd, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i ddysgu o'r profiad ac i wella ein hymateb yn y dyfodol o ran cydnerthedd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mae'n debyg ei bod yn wir i ddweud bod Gwynedd mor barod ar gyfer y pandemig ag unrhyw sir arall, ac na fyddai neb wedi rhagweld y math o argyfwng a gododd yn ystod y cyfnod hynny.
- Bod yna gynllun rhanbarthol i ymateb i bandemig, a chynhaliwyd ymarfer rhanbarthol ychydig fisoedd cyn y digwyddiad yn edrych ar sut i ymateb i bandemig ffliw yn benodol.
- Bod gwersi wedi'u dysgu o'r pandemig. Rhan o hynny oedd ail-edrych ar ein strwythurau ymateb fel bod modd ymateb yn llawer mwy effeithiol a gwydn, a bod yna drefniadau argyfwng pwrpasol i ymateb i'r math yma o argyfwng, ac argyfyngau eraill yn y dyfodol.
- Ei bod yn waith parhaus i sicrhau bod ein trefniadau ymateb yn effeithiol, a dyna bwrpas cael y Gwasanaeth Rhanbarthol a'r gwaith cyson sy'n digwydd i ddatblygu'r cynlluniau i ymateb, nid yn unig o fewn Gwynedd, ond drwy gydweithio'n gyda'n partneriaid yn rhanbarthol hefyd.
- Bod newid y trefniadau ar alwad yn enghraifft ymarferol o'r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod Cofid. Cyn y pandemig, roedd y trefniadau'n dibynnu'n helaeth ar ddau neu dri o unigolion yn unig, ond cyflwynwyd trefn bellach lle mae'r 7 uwch swyddog a enwyd ar dudalen 28 o'r adroddiad, ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol arall, yn gweithio ar sail rota fel pwynt cyswllt i'r Gwasanaeth Rhanbarthol gysylltu â'r Cyngor petai yna unrhyw argyfwng sy'n effeithio ar Wynedd. Roedd yn ymddangos bod y trefniadau'n gweithio'n llawer mwy effeithiol na'r hen drefn, ac roedd y llinellau cyfathrebu yn fwy eglur rhyngom ni a'r Gwasanaeth Rhanbarthol oherwydd hynny.
- Bod llawer o adnodd y Cyngor yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer casglu gwybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad Cofid cenedlaethol.
- Bod elfennau o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol ar y cyd â'r cynghorau yn ystod y cyfnod Cofid yn cynnwys trefnu cyfleusterau mortiwari a chefnogi'r Gwasanaeth Iechyd i ail-drefnu gwasanaethau mamolaeth, adnabod safleoedd ar gyfer canolfannau brechu a chyflwyno'r rhaglen frechu.

Holwyd faint, a phwy, o staff Gwynedd sydd wedi derbyn hyfforddiant gwrthderfysgaeth. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y wybodaeth honno wrth law, ond yr amheuid bod y ffigwr yn isel a bod hyn yn rhywbeth i edrych arno.

Mynegwyd pryder nad oes cyfeiriad yn y llyfryn Paratoi ar gyfer Argyfyngau at effeithiau hirdymor y pandemig, megis yr effaith meddyliol ar bobl a phlant, yr effaith ar lefaredd plant, busnesau yn mynd i'r wal ayb. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod angen cydnabod ôl-effaith Cofid a rhoi mwy o sylw i hynny.
- Bod yr Is-grŵp Adfer, dan arweiniad y Pennaeth Economi a Chymuned, yn addas iawn ar gyfer rhan, o leiaf, o'r sylw.
- Bod yna waith yn digwydd y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio fel Cynllun Argyfwng Mawr, ond efallai y dylid adlewyrchu fwy ar yr hyn sy'n digwydd y tu allan i hynny yn y llyfryn.

Mynegwyd pryder y gallai clefydau anifeiliaid ddod i Brydain o'r cyfandir mewn bwyd anaddas. Holwyd pa gynlluniau oedd gan y Cyngor ar gyfer ymdrin â hynny, faint o bobl sy'n gweithio yn yr Adran Clefydau Anifeiliaid yng Ngwynedd a faint o adnoddau sydd wrth law petai clefyd o'r fath yn torri allan. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd y wybodaeth fanwl wrth law ynglŷn â'r elfen ragweithiol yna o ddydd i ddydd, ond yn sicr roedd yna gynlluniau ar gyfer ymateb i'r gwahanol fathau o argyfwng allai ddeillio o unrhyw glwyf, ac roedd y Cyngor wedi ymateb i sefyllfaoedd tebyg yn y gorffennol, megis Clwy Traed a'r Genau.
- Bod y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol yn edrych ar gynlluniau i sicrhau diogelwch anifeiliaid ar y cyd â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, sydd hefyd yn aelodau o Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd.

Nodwyd y dylai'r pwyllgor hwn ofyn i'r Cabinet edrych i mewn i'r mater hwn a sicrhau bod trefniadau yn eu lle rhag ofn i glefyd anifeiliaid dorri allan y gaeaf nesaf. Mewn ymateb, nodwyd y gellid gofyn i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ddarparu gwybodaeth i'r aelodau ynglŷn â'r adnodd sydd ar gael i ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath, gan hefyd hysbysu'r Aelod Cabinet o'r sylw ynglŷn â'r angen i baratoi'n ddigonol.

Holwyd beth oedd barn cynrychiolydd y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol ynglŷn â'r newidiadau i'r trefniadau ar alwad. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y trefniant newydd yn gweithio'n dda iawn o safbwynt y rhanbarth a bod y strwythur yng Ngwynedd yn cael ei adlewyrchu mewn rhai siroedd eraill.
- Bod y system ar-alwad yng Ngwynedd yn ddatblygedig iawn a bod y Gwasanaeth yn gwybod â phwy i gysylltu ar unrhyw adeg, gyda'r rhifau perthnasol wedi'u storio yn ffonau'r Gwasanaeth.

Mynegwyd pryder nad oedd swyddogion bellach yn derbyn tâl y tu allan i oriau am ymdrin ag argyfwng dros y penwythnos. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mewn rhai meysydd o fewn y Cyngor, lle penderfynwyd ei bod yn angenrheidiol cael pobl ar alwad neu ar ddyletswydd, bod y tâl yn parhau.
- Bod unigolion sy'n cael eu galw allan ar benwythnos, nad ydynt yn gweithio'n arferol ar benwythnos, yn derbyn lleiafswm o ddwy awr o dâl ychwanegol am wneud hynny, a phetai'r oriau hynny uwchlaw 37 awr, byddai amser a hanner am weithio goramser yn daladwy.
- Nad oedd y Gwasanaeth yn ymwybodol o unrhyw drafferthion o ran y trefniadau hyn, ond y byddai'r swyddogion yn falch iawn o drafod unrhyw enghreifftiau gyda'r aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Gan gyfeirio at y llyfryn Paratoi ar gyfer Argyfwng, holwyd sut y bwriedid rhoi gwybod i'r cyhoedd am y camau i'w dilyn, megis paratoi pecyn argyfwng. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd yn edrych ar rannu gwybodaeth a bod ymgyrch flynyddol ym mis Medi yn edrych ar gynllunio argyfwng, y risgiau a sut i gael pobl i baratoi.
- Bod digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn a bod y llyfryn Paratoi ar gyfer Argyfwng yn ddogfen gyhoeddus sy'n cael ei rhannu.
- Y dymunid mynd â gwybodaeth i sioeau sir, ac ati, yn y dyfodol, ac roedd y Gwasanaeth yn disgwyl canlyniadau peilot yn ymwneud â chydnerth cymunedol ac yn cyflwyno rhaglen o gydnerth cymunedol i gynghorau tref a chymuned fel bod pobl yn fwy ymwybodol o'r risgiau, ac yn gwybod sut i baratoi.

Holwyd pa drefniadau oedd mewn lle yng Ngwynedd petai taflegryn yn taro Prydain. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Pe byddai gweithred ryfel, mai mater i'r Llywodraeth Ganolog fyddai ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o ran darparu cyngor a gwybodaeth ac ymateb i'r sefyllfa.
- Bod y cyfnod Cofid wedi amlygu'r gefnogaeth mae Gwynedd yn dderbyn gan y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng, a hefyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac mewn sefyllfa o argyfwng, bod yna drefniadau, nid yn unig o fewn strwythur Gwynedd, ond o fewn y strwythur rhanbarthol hefyd, gyda chynrychiolydd o Wynedd yn mynychu cyfarfodydd lefel strategol a thactegol.
- Bod y Prif Weithredwr wedi derbyn hyfforddiant aur, ac y byddai mwy o swyddogion y Cyngor yn derbyn yr hyfforddiant.
- Bod Gwynedd yn cydweithio â'r Gwasanaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd i gadw ein dull o ymateb i argyfyngau yn fyw ym meddyliau'r swyddogion drwy gynnal hyfforddiant pen desg blynyddol ar gyfer yr uwch reolaeth o hyn allan.

Croesawyd y sylw bod yr uwch reolaeth yn derbyn hyfforddiant, ond nodwyd ei bod yn bwysig bod y gweithwyr sydd ar y talcen glo yn derbyn yr hyfforddiant hefyd. Mewn ymateb, nodwyd bod gan bob un o'r 4 is-grŵp aelodau sy'n cynrychioli'r talcen glo, a bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl aelodau hynny.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 8. CANOL TREFI GWYNEDD

Croesawyd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi, y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned a'r Rheolwr Rhaglenni Adfywio i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi yn gwahodd y pwyllgor i ystyried y canlynol yng nghyd-destun y ffaith mai elfen o'r prosiect "Adfywio cymunedau a chanol tref" yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 yw paratoi cynlluniau gweithredu Canol Tref/Dinas ar gyfer trefi unigol:-

- Y trefniadau ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredu
- Pwy sydd yn cael ei gynnwys wrth eu datblygu?
- Sut y bwriedir mesur effaith y cynlluniau gweithredu?

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, ac ymhelaethodd y Rheolwr Rhaglenni Adfywio ar gynnwys yr adroddiad. Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gofynnwyd beth oedd y trefniadau ar gyfer monitro bod yr holl gynlluniau aml-haenog a thrawsadrannol hyn yn gweithio'n effeithiol ac yn amserol, a holwyd a oedd gan y Cyngor gapasiti digonol ar gyfer ymgymryd â'r gwaith? Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y bu'r Cyngor yn gweithio drwy fforwm trawsadrannol dros y 2-3 blynedd ddiwethaf yn dod â materion canol tref at ei gilydd, a dyna'r bwriad o ran y cynllun hwn, fel bod yna fewnbwn a chynrychiolaeth gan wahanol adrannau.
- Bod yr hyn fyddai'n cael ei fonitro yn ddibynnol iawn ar gynlluniau gweithredu unigol o fewn canol trefi, a chredid bod lle ymhob canol tref yng Ngwynedd i naill ai ddatblygu neu ddiweddaru cynllun canol tref er mwyn adnabod y blaenoriaethau, a monitro'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

- Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, y gwelwyd yr angen i gryfhau'r data a gedwir ar gyfer ardaloedd canol trefi. Roedd peth data hanesyddol ar gael, ond credid bod lle i osod data ychydig cryfach ar gyfer trefi unigol, yn hytrach nag yn sirol, fel bod hynny'n fodd o fonitro'r tueddiadau.

Holwyd beth fyddai'n digwydd petai cynlluniau'n llithro. Mewn ymateb, nodwyd bod y ffrwd gwaith yma wedi'i adnabod fel un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor ac y byddai'n rhan bwysig o drefniadau rheoli perfformiad yr Adran dros y 5 mlynedd nesaf.

Holwyd pa mor hyderus oeddem fod yna gyllid digonol ar gael o'r rhaglen Trawsnewid Trefi i wireddu'r hyn y ceisir ei gyflawni, sy'n eithaf uchelgeisiol? Mewn ymateb, nodwyd:-

- Ein bod ym mlwyddyn 2 o'r rhaglen 3 blynedd Trawsnewid Trefi ar hyn o bryd, a byddai'n rhaid cynllunio ymlaen ar y sail y bydd yna raglen adfywio ddilynol.
- Bod arian Llywodraeth Prydain, sef yr arian Ffyniant Bro a Ffyniant Cyffredin, wedi profi i fod yn arian sylweddol uwch na'r hyn sydd gan y rhaglen Trawsnewid Trefi i'w gynnig, ond y gwelwyd dros y 2 flynedd ddiwethaf o raglenni Llywodraeth Prydain fod angen i gynlluniau fod bron yn barod i gychwyn er mwyn bod yn gymwys am yr arian.
- Bod angen rhagbaratoi'r cynlluniau a cheisio rhagdybio beth sy'n mynd i ddigwydd o ran rhaglenni presennol Llywodraeth Prydain, gan gymryd bod y ffocws yn mynd i barhau ar ganol trefi.
- Bod Gwynedd, ar y cyd â sefydliadau eraill, megis Hwb Caernarfon, wedi cychwyn gweithredu rhaglen Trefi Smart Llywodraeth Cymru sy'n gosod wifi am ddim yn nhrefi'r sir er mwyn galluogi dal gwybodaeth ynglŷn ag, ee, nifer y bobl sydd wedi ymweld â gwahanol rannau o dref a hyd yr arhosiad, ayb. Nid oedd yn gosod y gwaelodlin yn llawn, ac roedd yna ragor o waith i'w wneud o ran asesiad data, ond roedd yn fodd o weld effaith digwyddiadau neu ddatblygiadau penodol ar y niferoedd pobl ar y stryd fawr, ayb.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r tablau ym mharagraff 2.5 a 2.6 o'r adroddiad, cadarnhawyd nad oedd y trefi wedi'u rhestru mewn trefn flaenoriaeth, ac y dymunid rhoi sylw i bob un ohonynt fel rhan o'r cynllun. Er hynny, nodwyd y byddai'n rhaid blaenoriaethu weithiau, gan na fyddai'n bosib' cyfarch pob angen ymhob tref.

Pwysleisiwyd bod busnesau yn y pentrefi'r un mor bwysig i'r pentrefi hynny ag ydi unrhyw fusnes yng nghanol tref, a holwyd a oedd peryg' i'r pentrefi golli allan gan fod y cynllun hwn yn canolbwyntio ar y canol trefi? Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y diffiniad o 'dref' yn anodd, ac yn amrywio hyd yn oed o sir i sir o fewn Gogledd Cymru.
- Bod gennym nifer sylweddol o drefi yng Ngwynedd a bod ceisio rhoi sylw i bob un ohonynt yn her sylweddol.
- Y gobeithid bod unrhyw gefnogaeth i fusnes yn agored i bentrefi beth bynnag, a phrin iawn yw'r gwahaniaethu rhwng cefnogaeth fusnes mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- Er hynny, efallai bod rhai o'r ymyraethau a'r mesurau o fewn canol trefi ychydig bach yn wahanol eu natur i bentrefi, ond nid bwriad y gwaith hwn oedd eithrio busnesau mewn pentrefi rhag bod yn gymwys am gefnogaeth i fusnes.

Holwyd a oedd perygl bod yr Adran yn canolbwyntio adnoddau ar gynlluniau rhanbarthol ar draul cynlluniau penodol i Wynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi cymryd cyfrifoldeb am weinyddu a rheoli rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) ar ran

Gogledd Cymru, sydd wedi golygu lleihad yn y capasiti weithio ar brosiectau Gwynedd, yn sicr yn y tymor byr.

Nodwyd bod y cynllun Arfor 2 wedi creu ychydig o rwystredigaeth yn allanol. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet nad oedd yr Adran yn ymdrin yn uniongyrchol ag Arfor 2, ond y byddai'n edrych ar hyn ac yn dod yn ôl at yr aelod.

Gan gyfeirio at baragraff 4.2 o'r adroddiad, holwyd faint o arian sy'n dod i Wynedd o gronfa refeniw Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb, nodwyd, er na chredid bod yna ffigwr penodol mewn pot ar gyfer hyn, mai bychan oedd y swm, gan nad oes yna lawer o arian refeniw ar gael yn anffodus.

Mynegwyd pryder y gallai Aberdyfi fod heb siop nwyddau na swyddfa bost yn fuan iawn, a holwyd pa gymorth oedd ar gael i'r cyngor cymuned a'r aelod lleol i weld oes modd cael o leiaf un siop nwyddau yn y pentref. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai yna gyfleoedd yn codi yn eithaf buan o ran cefnogaeth busnes ar gyfer adnoddau mewn trefi ac y gellid cael sgwrs bellach gyda'r aelod lleol ynglŷn â hynny y tu allan i'r cyfarfod.
- Bod rhaid i Gyngor Gwynedd weithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill i ymateb i heriau a chyfleoedd canol trefi, a chredid bod y cynghorau cymuned a thref yn sefydliadau eithriadol o bwysig yn y broses honno.

Holwyd pa rym oedd gan y Cyngor i fynd ati i dacluso rhywfaint ar eiddo gwag mewn trefi, megis gosod graffeg ffenestri ayb. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod grŵp traws-adrannol wedi'i sefydlu i roi sylw i eiddo gwag a chredid bod hynny'n rhan o flaenoriaethau'r Cyngor hefyd.
- Er bod gan y Cyngor bwerau gorfodi mewn gwahanol feysydd, ei fod yn anodd adnabod y trothwy lle mae adeilad gwag yn mynd yn adeilad blêr sy'n effeithio ar fwynderau lleol.
- Ei bod yn anodd gorfodi ar y sail bod adeilad yn wag yn unig, ac wrth ystyried unrhyw achos gorfodaeth, bod rhaid i'r Cyngor gyflwyno tystiolaeth o'r niwed sy'n cael ei greu o ganlyniad i gyflwr yr eiddo.
- Er bod y gwaith cychwynnol wedi amlygu cymhlethdodau a rhai rhwystrau, credid bod yna fwy y gellid ei wneud, a diau y byddai'r grŵp eiddo gwag yn edrych ar hynny.
- Bod y dull o brofi effaith eiddo gwag ar fwynderau cyfagos yn amrywio o adeilad i adeilad, ac yn dibynnu'n llwyr ar ba ddeddfwriaeth fyddai'r Cyngor yn ystyried sy'n berthnasol i'w achos penodol, e.e. deddfwriaeth gynllunio, rheolaeth adeiladu ayb.

Nodwyd bod bwriad i osod graffeg ffenestri ar eiddo gwag yn ardal yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, ac awgrymwyd bod hyn yn rhywbeth i'r Cyngor adeiladu arno i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn, nodwyd y credid bod modd i'r Cyngor, mewn rhai achosion, fynnu bod cwmnïau cyfleustod yn adfer lonydd a phalmentydd i'w safon wreiddiol yn dilyn gwaith stryd, ond y byddai'n rhaid gwirio hynny gyda'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, a dod yn ôl at yr aelod.

Nodwyd bod yna brinder doctoriaid, nyrsys, deintyddion, optegwyr, ayb, yn Ne Meirionnydd, ac yn arbennig yn ardal Tywyn, a holwyd sut y gallai'r Cyngor wneud Tywyn yn dref fwy deniadol i bobl fod yn dymuno byw yno. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Ei bod yn amlwg bod yna bryderon ynglŷn â Thywyn yn benodol, a bod cyfres o gyfarfodydd wedi'u cynnal yn ddiweddar i drafod y sefyllfa.
- Mai'r her i'r dyfodol fydd ceisio adnabod sut i adeiladu ar asedau a nodweddion arbennig Tywyn i'w gwneud yn dref fwy atyniadol i bobl fyw ynddi.
- O bosib' bod yr elfen o geisio denu proffesiwn neu sector benodol yn rhywbeth i'w ystyried fel rhan o waith canol tref Tywyn, a hynny mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid perthnasol, megis y Bwrdd Iechyd.

Croesawyd y ffaith bod yr Adran yn cydnabod bod pob tref yn unigryw, ac yn ceisio cynllunio yn unigol, yn hytrach nag yn arddel ymagwedd o'r top i lawr, gan gychwyn gyda'r aelodau lleol a'r cynghorau cymuned a rhanddeiliaid eraill sydd yn y dref. Mynegwyd gobaith hefyd bod y swyddogion yn gwthio hyn yn y trafodaethau rhanbarthol, ac yn gwrthwynebu unrhyw duedd i gael atebion o'r top i lawr ar gyfer ein trefi.

Awgrymwyd bod Bethesda yn dref ôl-ddiwydiannol, yn hytrach nag yn ganolfan wledig, fel y'i disgrifir ym mharagraff 2.6 o'r adroddiad, a gofynnwyd am eglurhad o'r categorïau o drefi ym mharagraffau 2.5 a 2.6. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Mai'r bwriad o ran y categorïau yw adnabod y prif drefi y dymunir eu hymgorffori o fewn y cynllun.
- Bod yr astudiaeth a baratowyd gan Hatch (y cyfeirir ati ym mharagraff 2.6 o'r adroddiad) yn ddarn o waith ar draws Gogledd Cymru i geisio adnabod gwahanol fathau o drefi.
- Bod awgrym yn yr adroddiad bod gwahanol fathau o drefi yn wynebu gwahanol fathau o heriau, ac efallai bod angen ystyried mesurau penodol i ymateb i'r math o heriau mae'r trefi yma'n eu hwynebu.
- Y cytunid nad yw Bethesda yn gorwedd yn daclus yn y categori 'Canolfannau Gwledig', ond bod rhai o'r trefi ôl-ddiwydiannol ar draws Gogledd Cymru yn drefi sylweddol mwy na Bethesda, a ddim yn union yn yr un categori chwaith.
- Y gobeithid bod astudiaeth Hatch yn rhoi ychydig o ragflas o ran adnabod gwahanol fathau o drefi, a sut mae mynd o'i chwmpas i geisio ymateb i heriau'r trefi hynny, ond y byddai'r manylion i ddilyn yn y cynlluniau trefi unigol.

Holwyd sut roedd y Cynlluniau Canol Trefi yn cyd-blethu â fframwaith adfywio Ardal Ni 2035, sy'n cyfro Gwynedd gyfan, ac nid y trefi'n unig. Mewn ymateb, nodwyd:-

- O ran y fframwaith adfywio, y byddai'r cynlluniau gweithredu lleol yn cynnig y fframwaith ar gyfer prosiectau, boed y rheini'n drefol neu wledig, yn bentrefi neu'n ardaloedd mwy trefol.
- Mai'r hyn sydd yn yr adroddiad gerbron y pwyllgor yw ymyraethau sy'n targedu canol trefi yn benodol, ond sydd ddim yn mynd ar draws rhaglenni eraill.
- Diau y bydd yna ffrwd gwaith o ran datblygu gwledig, a gobeithio y bydd cyfleoedd yno i wireddu rhai o'r blaenoriaethau eraill sydd wedi'u hadnabod o fewn y fframwaith adfywio.
- Y ceisid adnabod beth yw'r blaenoriaethau lleol, yr ymyraethau a'r prosiectau fel ein bod wedyn mewn sefyllfa i fanteisio ar gyfleoedd ariannol i weithredu sy'n cwrdd ag amcanion lleol.

Holwyd i ba raddau y gwelid symudiad oddi mewn i ganol trefi wrth i'r siopau angenrheidiol symud i safleoedd manwerthu ar y cyrion / mynd ar-lein, a siopau hamdden a bwytai, ayb, ddod yn eu lle, ee ym Mhwllheli, lle mae'r Maes i weld yn fwy ffyniannus na'r Stryd Fawr, a Chaernarfon lle mae o gwmpas y Castell i weld yn fwy ffyniannus a graenus na Stryd Llyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod hynny'n wir ymhob tref, ac o bosib' nad oedd y cynlluniau blaenorol yn ystyried y newidiadau sydd wedi digwydd i ganol trefi dros y 10-15 mlynedd ddiwethaf.
- Bod newidiadau yn aml iawn yn cynnig cyfleoedd newydd, a chredid bod hynny'n ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynlluniau canol tref cyfredol.

Holwyd a ragwelir sefyllfa yn yr hir-dymor lle bydd angen dymchwel rhai adeiladau ar y stryd fawr gan nad oes defnydd iddynt. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na fyddai'r cynllun cyfredol yn gallu ymateb i bob her ynghanol pob tref yng Ngwynedd, ond ceisid gosod y seiliau a gwneud y mwyaf y gellir yn ystod y 5 mlynedd i ddod.
- Bod yna waith yn digwydd ar gynllun canol tref Caernarfon ar hyn o bryd oedd yn ystyried rhai cynigion mwy radical ar gyfer ambell safle yn yr hir-dymor.
- Y bydd angen taro balans rhwng adnabod gweledigaeth glir a cheisio gosod targed cyraeddadwy o fewn 5 mlynedd, gan na ddymunir cael cynlluniau nad oes modd eu gwireddu.
- Bod angen anelu at gael rhaglenni tymor byr a chanolig sy'n gyraeddadwy, gan adnabod cynlluniau ychydig mwy radical ar gyfer yr hir-dymor.
- Bod treigl amser yn dangos sut mae'r symudiad mewn llefydd fel Pwllheli a Chaernarfon wedi digwydd, a bod lle i weithio'n fwy traws-adrannol yn yr hir-dymor.
- Bod y drefn a'r broses gynllunio yn amlwg yn dod i mewn i hynny, a bod yna enghreifftiau mewn llefydd fel Bethesda, e.e., lle mae siop wedi'i hail-bwrpasu i fod yn dŷ.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod yna gyfleusterau, megis caffis, yn y canol trefi fel bod modd i bobl hŷn, yn arbennig, allu mynd i gymdeithasu. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gan gyrff lleol y rôl o edrych ar ffyrdd mwy creadigol, o bosib', o gynnig y math yma o ddarpariaeth.
- Bod yna gyrff trydydd sector, ayb, sy'n camu i mewn i gynnig darpariaeth cymdeithasu, ayb.
- Y dymunid canfod datrysiadau sy'n gweithio i dref unigol, a bod hynny yn amlwg yn mynd i amrywio o dref i dref, yn unol â'r brwdfrydedd a'r weledigaeth sydd yn y dref honno i ymateb i heriau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau, a chael diweddariad ar y mater ymhen tua blwyddyn.**

**9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2023/24**

Cyflwynwyd - blaenraglen y pwyllgor ar gyfer 2023/24.

Cytunwyd i:-

- Adnabod eitemau dros gyfnod o 18 mis, er mwyn hwyluso paratoi ar gyfer cyfarfodydd cyntaf 2024/25;
- Rhaglennu diweddariad ar yr eitem Canol Trefi Gwynedd o gwmpas yr adeg hon y flwyddyn nesaf;
- Ychwanegu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac ysgolion arbennig fel eitem bosib' ar y flaenraglen.

Gofynnwyd i'r Ymgynghorydd Craffu drafod y flaenraglen gyda'r Cadeirydd a chyflwyno'r flaenraglen ddiwygiedig i'r cyfarfod nesaf, neu cyn hynny drwy e-bost i'r aelodau.

Yna cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau mewn perthynas â threfniadau'r cyfarfodydd:-

Awgrymwyd bod y pwyllgor hwn yn cael ei ddominyddu gan eitemau addysg, a holwyd a fyddai'n bosib' sefydlu trefn o gael un cyfarfod i graffu materion addysg, a chyfarfod dilynol i graffu materion mwy economaidd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y ceisid lledaenu'r materion ar draws y flwyddyn gyfan fel nad yw'r holl bwysau yn disgyn ar un adran ar gyfnod penodol.
- Y gellid rhoi'r eitemau economi yn gyntaf ar y rhaglen, ond bod yr aelodau cyfetholedig yn mynychu ar gyfer yr eitemau addysg yn benodol, er bod croeso iddynt aros drwy gydol y cyfarfod.

Awgrymwyd nad oedd presenoldeb yr aelodau cyfetholedig ar gyfer yr eitemau addysg yn unig yn ddigon o reswm i roi'r eitemau economi / corfforaethol yn olaf ar y rhaglen bob tro, a bod angen sefydlu trefn am-yn-ail, gan roi gwybod i'r aelodau cyfetholedig pan mae'r drafodaeth ar y materion addysg ar fin cychwyn.

Nododd aelod ei bod yn cofio cais yn cael ei wneud i wahanu materion addysg ac economi, a bod hynny wedi ei wneud yn dwt yn y blaenraglen, ond bod angen rhoi ystyriaeth i gael cydbwysedd o ran trefn yr eitemau ar raglenni cyfarfodydd Pwyllgor. Ymhelaethodd y byddai'n well ganddi weld dau bwyllgor craffu cwbl ar wahân, y naill ar gyfer craffu materion addysg, a'r llall ar gyfer craffu materion economi / corfforaethol, oherwydd y llwyth gwaith. Awgrymodd aelod arall y dylai materion economi gael eu craffu gan y Pwyllgor Cymunedau gan fod yna lawer o orgyffwrdd rhwng y ddau faes, a bod llwyth gwaith y pwyllgor hwnnw yn ysgafnach.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd:-

- Yn sgil yr adolygiad o effeithiolrwydd craffu yng Ngwynedd, a chyfweliadau gyda rhai aelodau, y disgwylid adroddiad drafft gan Archwilio Cymru yn fuan.
- Y rhoddwyd addewid adeg yr etholiad llynedd, pan sefydlwyd y drefn bresennol o rannu cyfrifoldebau rhwng y 3 phwyllgor craffu, y byddai'r drefn honno'n cael ei hadolygu ymhen 18 mis.
- Bod bwriad, felly, yn yr Hydref, i adolygu'r drefn bresennol, ynghyd â'r hyn fydd yn cael ei argymell yn adroddiad Archwilio Cymru, a byddai gan yr aelodau fewnbwn i unrhyw newidiadau fyddai'n deillio o hynny.

Nododd aelod nad oedd yn ymwybodol bod cyfle wedi bod i'r aelodau roi sylwadau i Archwilio Cymru, gan ddatgan y byddai'n falch petai cyfle eto i'r cynghorwyr roi sylwadau yn unigol. Mewn ymateb, nodwyd y bwriedid ymgynghori â'r craffwyr o ran yr adolygiad mewnol o'r drefn graffu, a byddai'r aelodau yn cael eu hysbysu o'r trefniadau ar ôl yr haf.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu rhaglen waith y pwyllgor ar gyfer 2023/24.**

## 10. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL

Cyflwynwyd – adroddiad yr Ymgynghorydd Craffu yn gwahodd y pwyllgor i enwebu cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol, yn lle'r Cynghorydd Paul Rowlinson, oedd bellach wedi'i enwebu i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Gyllid.

**PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd Cai Larsen i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.45 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 14 Medi 2023 |
| **TEITL** | Cynllun Digidol 2023-28 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Cynllun Digidol (Atodiad 1) yn ei ffurf drafft i bwrpas blaen-graffu ac i dderbyn sylwadau ac adborth ar gynnwys arfaethedig y rhaglen waith |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Ioan Thomas |
| **SWYDDOGION CYSWLLT** | Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Huw Ynyr, Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth a Chyllid |

## 1. CEFNDIR

**1.1.** Nid oes gan y Cyngor gynllun ffurfiol cyfredol ar gyfer datblygu ei wasanaethau digidol. Daeth cyfnod y "Strategaeth Ddigidol" blaenorol i ben yn 2018 ac er bod Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion wedi'i fabwysiadu yn y cyfamser, nid oes cynllun corfforaethol wedi'i lunio yn ystod yr un cyfnod.

**1.2.** Adnabuwyd yr angen i sicrhau Cynllun Digidol a fyddai'n cofnodi gweledigaeth a rhaglen waith cysylltiedig wrth baratoi'r Cynllun Cyngor cyfredol. Mae'r angen i fabwysiadu a gweithredu Cynllun Digidol wedi ei nodi fel blaenoriaeth gwella o fewn maes "Gwynedd Effeithlon" yn y Cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar y 7 o Fawrth eleni.

**1.3.** Mae Bwrdd Trawsnewid Digidol wedi'i ffurfio ac er mai'r Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth sy'n gyfrifol am wireddu'r prosiect yng Nghynllun y Cyngor, mae'r Bwrdd yn cadw trosolwg ac yn cynnig her yn ogystal â chefnogaeth tu hwnt i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad arferol - hynny mewn cydnabyddiaeth o ba mor allweddol yw datblygiadau yn y maes yma o ran ein gallu fel Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

**1.4.** Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, gyda Phennaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyllid yn gweithredu fel Rheolwr Prosiect. Mae pedwar is-grŵp wedi'u ffurfio yn bresennol o dan arweiniad y swyddogion a nodir isod, tra bo pumed is-grŵp eto i'w ffurfio ar gyfer gweithredu ar ddatblygiadau digidol ym maes y gweithlu. Mae cynrychiolaeth ar yr is-grwpiau hyn o 'fysg holl adrannau'r Cyngor.

Gwydnwch – Gwyn Jones, Rheolwr Systemau Isadeiledd
Cyswllt Cwsmer – Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC
Gwybodaeth a Data – Ian Jones, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
Gweinyddiaeth a Systemau Busnes – Huw Ynyr, Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth a Chyllid

Ymhellach, mae'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro yn aelodau o'r Bwrdd, yn ogystal â'r Pennaeth Addysg (sydd â swyddogaeth benodol i sicrhau cydlyniad rhwng y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion a'r hyn sydd ar y gweill ar lefel corfforaethol).

**1.5.** O dderbyn adborth aelodau'r Pwyllgor Craffu, bydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol yn mynd ati i ddarparu drafft terfynol o'r Cynllun Digidol am y pum mlynedd nesaf gyda'r bwriad o'i gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet ar y 7 o Dachwedd eleni er mwyn ei fabwysiadu.

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

## RHAGAIR

Wrth i dechnolegau newydd barhau i ddatblygu a newid y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd a chyda'r byd o'n cwmpas, mae cyhoeddi'r Cynllun Digidol hwn yn eiliad ddiffiniol i Gyngor Gwynedd wrth i ni lunio llwybr beiddgar ar ein taith i ddod yn Sir ddigidol.

Byddwn fel Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd i arloesi ac i wreiddio technoleg ddigidol i wella safon byw ein trigolion, cydweithio yn well a phartneriaid a chryfhau a gwella ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid.

Mae'r Cynllun Digidol yn gosod gweledigaeth o welliant parhaus i'r modd o gysylltu â'r Cyngor i ymholi neu wneud cais am wasanaeth, i'n gallu i ddefnyddio data yn ystyrlon fel sail penderfyniadau dysg, ac i rymuso ein swyddogion gyda'r sgiliau a'r datrysiadau digidol pwrpasol er mwyn datblygu a chynnal gwasanaethau o'r radd flaenaf, a hynny'n ddiogel a gwydn.

Pum mlynedd yw hyd y Cynllun, ond mae'r weledigaeth o greu Sir ddigidol yn un hirdymor a'r blaenoriaethau gwella sydd wedi eu cynllunio yma yn sylfaen gadarn i gychwyn y daith.

**Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth).**

Mae gweledigaeth y Cyngor am y cyfnod 2023-28 yn adnabod yr angen i sefydlu a gweithredu Cynllun Digidol fel un o'i brif amcanion gwella ym maes blaenoriaeth "Gwynedd Effeithlon". Mae'r maes blaenoriaeth hwnnw yn un o'n saith amcan llesiant am y cyfnod dan sylw, ac mae rôl greiddiol gan y Cynllun Digidol er mwyn gosod y seiliau ar gyfer gwireddu pob un o'r chwe amcan arall hefyd.

Mewn cyfnod heriol yn ariannol, mae ein defnydd o dechnoleg ddigidol a'n gallu i gyflawni'r prosiectau o fewn y Cynllun hwn yn mynd i chwarae rhan allweddol yn y modd y gellir darparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl Gwynedd yn y dyfodol.

Bydd adolygiad blynyddol cynhwysfawr ynghyd ag adroddiadau cynnydd rheolaidd yn ein galluogi i fonitro cyfraniad y prosiectau unigol i'r weledigaeth ehangach gan dderbyn, o ystyried datblygiadau newydd cyson o fewn y maes digidol, y bydd angen peth addasu ar y blaenoriaethau hyd yn oed o fewn oes y Cynllun.

Edrychaf ymlaen at weld y Cynllun hwn yn gwireddu ei amcanion a chyflawni'r pwrpas adnabuwyd ar ei gyfer.

**Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol).**

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

## CYFLWYNIAD

Ers troad y ddegawd, mae'r defnydd ac amrywiaeth o dechnoleg ddigidol wedi cynyddu'n sylweddol. Daeth technoleg ddigidol yn bwysicach fyth o achos y pandemig Covid-19, ac yn fwy diweddar, mae dyfodiad technolegau fwyfwy soffistigedig - megis deallusrwydd artiffisial - wedi amlygu'r "chwyldro digidol" a'i effaith. Mae'n golygu fod technoleg ddigidol bellach yn rhan cwbl hanfodol o'n bywyd pob dydd ac wedi trawsnewid y modd mae dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus yn ymdrin â'i gilydd. Rhaid ymateb i'r newidiadau hyn, nid yn unig er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan dechnoleg ddigidol, ond i liniaru rhai o'r heriau posibl hefyd. Gyda thechnoleg, gallwn drawsnewid y Cyngor a'i wasanaethau a sicrhau arbedion ariannol yr un pryd, i gyd tra'n ehangu cyfleoedd i bobl Gwynedd ymgymryd yn llawnach yng ngwaith a phenderfyniadau'r Cyngor.

Dyma *Gynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-2028*. Mae hon yn strategaeth uchelgeisiol a phellgyrhaeddol sy'n fyw i ddatblygiadau digidol y dydd ac yn amlinellu'r llwybr mae'r Cyngor am ei dilyn er mwyn addasu i'r "dyfodol digidol". Mae'n cynrychioli rhaglen o drawsnewid digidol sydd am ddatblygu er gwell y gwasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr y gwasanaethau hynny.

Mae'r Cynllun Digidol yn cydredeg gyda Chynllun Cyngor Gwynedd (2023/2028), gan ehangu ar y prosiect digidol a gyfeiriwyd ato yn y pennawd "Prosiectau Gwynedd Effeithlon", ond nid yw'n cyfyngu ei hun i'r pennawd yma yn unig. Mae'n cyfrannu at drwch y prosiectau yng Nghynllun y Cyngor. Ein gweledigaeth yw gwneud y Cyngor yn **GYNGOR DIGIDOL,** ble defnyddir technoleg yn ddoeth er mwyn darparu gwasanaethau'n fwy economaidd ac effeithiol, a rhoi'r cwsmer yn fwyfwy canolog ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Mae'r weledigaeth hon yn edrych y tu hwnt i gyfnod pum mlynedd y Cynllun. Uchelgais y Cynllun yw datblygu, gwella a gwreiddio meddylfryd a datrysiadau digidol yn naturiol ac effeithiol ym mhob ystod o weithgaredd y Cyngor, cryfhau a gwella ein gwasanaethau, gweinyddu'n fwy effeithlon, a meddu ar wybodaeth i wneud penderfyniadau dysg ac ystyrlon, a hynny mewn amgylchedd diogel a gwydn. Mae egwyddorion cydraddoldeb a llesiant yn wythiennau cyson oddi fewn y Cynllun, gan gynnwys y Gymraeg ac elfen cynaliadwyedd y pum ffordd o weithio:

**Y Gymraeg.** Mae rhan flaenllaw i'r Gymraeg ym mhob datblygiad digidol, gyda phob datblygiad mewnol yn cael ei wneud yn ddwyieithog, heb eithriad, a'r gosodiad diofyn yn y Gymraeg. Mae priod-le i'r Gymraeg ym mhob datblygiad, ac fe adlewyrchir hyn yn yr Asesiad Addasrwydd Digidol fydd yn gam gorfodol cyn bod unrhyw un o adrannau'r Cyngor yn caffael system neu wasanaeth digidol.

**Hirdymor.** Mae'r Cynllun yn gosod gweledigaeth hirdymor sy'n wir heibio cyfnod pum blynedd y rhaglen waith, gyda chylch gorchwyl y grwpiau digidol yn gyfrifol am adolygu a diweddaru'r weledigaeth a'r Cynllun yn ôl yr angen .

**Atal.** Mae sawl blaenoriaeth gwella wedi'u llunio i osgoi methiant, ac er bod pennawd penodol ar gyfer gwydnwch, mae nifer o'r blaenoriaethau eraill yn cyfrannu at hyn hefyd ac yn gwella gwasanaethau'r Cyngor.

**Integreiddio.** Mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn holl bwysig i gynnal gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, ac fe gydnabyddir hyn yn y Cynllun. Rydym am hwyluso'r broses o weithio â phartneriaid allanol, yn ogystal ag integreiddio systemau mewnol y Cyngor.

**Cydweithio.** Mae cynnwys y Cynllun wedi'i rannu â grŵp Data, Digidol a Thechnoleg (DDaT) Gogledd Cymru, sy'n grŵp digidol cydweithredol o ochr Awdurdod Lleol ac Iechyd, ac yn ehangach hefyd ar gyfer sylw a chyfleoedd cydweithio drwy law braich ddigidol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

**Cynnwys.** Datblygwyd cynnwys, traw a blaenoriaeth y Cynllun ar sail gydweithredol rhwng 4 is-grŵp Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor, ac fe gynhaliwyd sawl cyfarfod i flaenoriaethu'r meysydd craidd, gan bwysleisio ar roi cyfle i bob cynrychiolydd leisio barn.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae cyfres o brosiectau yma sydd wedi'u rhannu i bum blaenoriaeth ddigidol, sef: Cyswllt Cwsmer; Gwybodaeth a Data; Gweinyddiaeth a Systemau Busnes; Gweithlu; Gwydnwch.

Mae tri pheth yn cael eu hadnabod ym mhum maes blaenoriaeth y Cynllun:

- Y sefyllfa bresennol;
- Y prosiectau datblygu perthnasol, ac;
- Yr effaith y gobeithir ei gael.

Mae technoleg ddigidol yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau. O ganlyniad, nid yw'r strategaeth hon yn sefyll ar ei phen ei hun. Bydd ei gynnwys a'i effaith yn dylanwadu ar bob agwedd o waith y Cyngor; felly mae'n bwysig sicrhau bod y prosiectau'n gydnaws â, ac yn cyfrannu at, y Pum Ffordd o Weithio yn ogystal â Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru (2022). Mae matrics yn crynhoi hyn i'w weld ar y diwedd.

Wrth gwrs, mae technolegau'n newid yn barhaus a bydd galluoedd digidol y dyfodol yn llawer ehangach na'r rhai heddiw. O ganlyniad, nid strategaeth statig mo hon. Bydd unrhyw newid yn cael ei ychwanegu at y strategaeth yn ôl yr angen, a bydd adolygiadau'n cael eu gwneud yn flynyddol.

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

## CYSWLLT CWSMER

*'Sicrhau gwasanaeth sy'n gynhwysol a dwyieithog, sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf ac yn rhedeg mewn lleoliad ac ar amser sy'n gyfleus i'r cwsmer.'*

---

Wrth i drigolion Gwynedd a'r Cyngor droi'n gynyddol at dechnoleg ddigidol, mae'r berthynas rhwng gwasanaethau a'r cwsmer wedi agosáu. Mae'n golygu fod ymatebolrwydd y Cyngor i ymholiadau ac anghenion y cwsmer wedi cynyddu, ond mae lle o hyd i ddatblygu hyn ymhellach. Yr eitemau fydd yn derbyn sylw o dan y flaenoriaeth hon yw:

1. **Ymestyn dulliau cyfathrebu, ymholi a chyflwyno ceisiadau am wasanaeth.** Mae gan gwsmeriaid sawl cyfrwng ar gyfer cysylltu â'r Cyngor, boed ar y ffon, gydag e-bost, neu ar y wefan trwy ffurflenni digidol neu Fy Nghyfrif, ond mae'r rhain yn gweithredu'n bennaf ar wahân. Mae'n golygu nad yw'n bosib parhau gyda'r un drafodaeth ar draws mwy nag un cyfrwng neu os yw'r cyfrwng yn newid.

   Byddwn yn uno'r systemau'r cyfryngau uchod ac yn cyflwyno rhai ychwanegol hefyd, megis *WhatsApp*, *Facebook Messenger* ac *X*. Bydd hyn yn hwyluso'r broses cyswllt cwsmer ac yn caniatáu i gwsmeriaid gyflwyno cais a derbyn ymateb gan y Cyngor trwy un neu fwy o'r cyfryngau uchod. Bydd y gwasanaethau yn atebol am gadw gwybodaeth am y cais, yn ogystal ag adrodd yn ôl i'r cwsmer.

2. **Gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor.** Mae cysylltu â'r Cyngor â ffon yn parhau'n ddewis poblogaidd ymhlith cwsmeriaid, ac mae'n bwysig felly ein bod yn datblygu'r cyfrwng cyswllt cwsmer hwn ymhellach. Mae yma ddwy brif ystyriaeth:

   - Ymateb i'r defnydd cynyddol o'r llwyfan MS Teams ymhlith staff.
   - Cael system sy'n galluogi staff i ymateb i alwadau yn y swyddfa neu wrth weithio o bell.

   Byddwn yn cyflwyno darpariaeth teleffon newydd ar gyfer staff a fydd wedi'i hintegreiddio'n llawn ag MS Teams, ac yn weithredol trwy "ap" ffon symudol a chyfrifiadur gwaith yn hytrach na ffôn ar ddesg. Bydd y ddarpariaeth yn caniatáu staff i yrru galwadau cwsmer ymlaen at swyddogion eraill yn hwylus, gan gyflymu'r llif wybodaeth gyda chwsmeriaid.

   Cyflwynir adroddiadau cynhwysfawr o'r system ffôn i alluogi i Adrannau adnabod unrhyw wendidau neu gryfderau fel bod modd bod yn rhagweithiol i wella eu darpariaeth i'r cyhoedd.

3. **Ail ddylunio gwefan gorfforaethol y Cyngor.** Wrth i ddisgwyliadau cwsmeriaid o ddefnyddio gwefannau aeddfedu, mae'n bwysig fod gwefan y Cyngor hefyd yn hygyrch, modern a chyfoes. Mewn ymgynghoriad am wefan y Cyngor ac apGwynedd a gynhaliwyd gyda'r cyhoedd yn 2021, amlygwyd bod y tudalennau'n aml yn ddryslyd a'i bod yn anodd chwilio a dod o hyd i wybodaeth berthnasol. Byddwn yn ail-edrych ar ddyluniad y wefan er mwyn ymateb i'r problemau hyn, gan ymgorffori newidiadau ychwanegol hefyd i fanteisio ar dechnegol newydd nad oedd ar gael pan sefydlwyd y wefan yn 2013, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial a thechnoleg Web Chat a Chat Bot.

   Gyda 60% o ymwelwyr y wefan yn defnyddio ffôn neu gyfrifiadur llechen, byddwn yn sicrhau ei bod wedi'i dylunio ar gyfer pori'n effeithiol drwy ddyfeisiadau symudol.

4. **Datblygu a hyrwyddo apGwynedd.** Rhyddhawyd apGwynedd yn 2018 ac mae'n cynnwys darpariaeth Fy Nghyfrif, gwybodaeth "Lle dwi'n byw", a mynediad at amserlenni bysiau Gwynedd ymhlith adnoddau eraill. Gyda mwyfwy'n defnyddio dyfeisiadau symudol, byddwn yn datblygu ApGwynedd ymhellach.

   Byddwn yn ymrwymo i ddatblygu apGwynedd ym mhellach a hynny ar lwyfan Google ac Apple, gydag un o'r datblygiadau yn cynnwys map llwybr byw o bob bws a redir fel gwasanaeth cyhoeddus ar rwydwaith bysus y Sir. Bydd modd adnabod lleoliad cyfredol y bws, mannau'r safleoedd bysus, unrhyw newid i wasanaeth, a chaniatáu ymholiadau gan gwsmeriaid.

5. **Ciosg fideo Siop Gwynedd.** Darperir tri safle Siop Gwynedd ar draws y Sir: Pencadlys, Caernarfon; Ffordd y Cob, Pwllheli; Penarlâg, Dolgellau. Pwrpas y safleoedd hyn yw darparu mynediad uniongyrchol at wasanaethau'r Cyngor i gwsmeriaid. Byddwn yn datblygu'r gwasanaeth cyswllt cwsmer hon trwy godi ym mhob safle hyd at dri chiosg fideo, fel bod modd i'r cyhoedd siarad yn rhithiol â'r swyddog perthnasol, ble bynnag maen nhw wedi'u lleoli.

6. **Talu drwy beiriant am wasanaethu.** Prin yw'r gwasanaethau ble mae'r Cyngor yn codi incwm ar gyfer eu defnydd, e.e., parcio car, lansio cwch neu brynu tanwydd cwch mewn marina. Er bod peiriannau talu yn y safleoedd hyn, nid ydynt wedi'u safoni ac mae sawl ffordd wahanol ar gyfer talu: weithiau, mae'n rhaid cael newid mân; dro arall, rhaid defnyddio ap neu yrru neges destun er mwyn talu. Er mwyn hwyluso defnydd y cwsmer, byddwn yn cysoni'r dulliau talu ar draws y safleoedd.

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

## GWYBODAETH A DATA

*‘Hwyluso mynediad at ddata a gwybodaeth ymysg cwsmeriaid a staff, a gwella safon data.’*

---

Mae’r oes ddigidol hefyd yn oes gwybodaeth. Wrth i bobl a sefydliadau ledled y byd gael eu cysylltu gan dechnolegau newydd, mae lledaeniad gwybodaeth wedi cyflymu’n sylweddol. Mae gwybodaeth ddigidol bellach yn cyffwrdd ar bawb mewn rhyw ffordd, ac mae'n bwysig bod Cyngor Gwynedd yn gwella mynediad at wybodaeth ac yn gwreiddio tryloywder, i gwsmeriaid a staff. Mae'n rhaid i ni arfogi staff â thystiolaeth ac adnoddau fel y gallent wneud y penderfyniadau gorau posibl i bobl Gwynedd. Mae’r rhaglen i wella safonau ac adrodd yn hyderus ar ein data yn ymrwymiad hirdymor a pharhaus, gyda’r eitemau isod yn dwyn blaenoriaeth yng nghyfnod y Cynllun:

1. **Adnabod ein data.** Mae’r Cyngor yn darparu dros 300 o systemau, gyda phob un yn casglu a chyflwyno data. Mae rhan fwyaf y systemau hyn yn ynysig a heb eu hintegreiddio gyda’r systemau eraill, ac, oherwydd hyn, yn tueddu i ddioddef o anghysondebau yn ffurf a chywirdeb y data.

   Mae’n hanfodol ein bod yn adnabod union gynnwys a phwrpas y data a gesglir cyn cychwyn ar unrhyw ymarferiad o wella. Byddwn yn creu cofrestr a mapiau data ar gyfer pob system, ac yn nodi sut mae’r rhain yn cymharu gyda’i gilydd. Bydd y gofrestr hon yn cefnogi ymarferiadau eraill yn y Cynllun, sef *“Siarter Data”* a *“Rhesymoli’r systemau a ddefnyddir”*.

2. **Siarter data.** Fel rhan o *Strategaeth Wybodaeth y Cyngor*, mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu Cofrestr Asedau Gwybodaeth, sef cofrestr o wybodaeth bersonol. Ynghyd â mapiau data, bydd y gwaith yma’n llywio ein gwaith o sefydlu *“Siarter Data”* i sicrhau bod y trefniadau sydd gennym ar gyfer cadw data’n briodol. Bydd y Siarter hefyd yn gosod cyfeiriad a phrosesau ar gyfer:

   - **Data agored.** Bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd (drwy leihau nifer ceisiadau rhyddid gwybodaeth, a gallu ateb y ceisiadau hynny sydd yn cyrraedd yn gyflymach), tryloywder a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd am y Cyngor yn unol â strategaeth cyfranogiad y Cyngor
   - **Rhaglen gwella safonau data.** Byddwn yn creu safonau ar gyfer gwahanol gategorïau data er mwyn sicrhau gwell cysondeb a chywirdeb yn yr hyn a gesglir a’i hadroddir arno.
   - **Hyfforddi perchnogion systemau data o bwysigrwydd cywirdeb data.** Er bod y Siarter Data yn berthnasol ar gyfer pob swyddog Cyngor, mae rhai swyddogion mewn rôl “Perchennog System” gyda chyfrifoldeb am ddata'r system maen nhw’n ei reoli. Byddwn yn datblygu hyfforddiant ar eu cyfer fel bod ymwybyddiaeth o’r canllawiau sydd eu hangen i gydymffurfio â’r Siarter.

   Bydd y Siarter yn ein helpu i gynnal a chadw ymarferiadau da o gasglu, cadw, rhannu ac adrodd ar ddata, gan wella cywirdeb data a’n grymuso i’w rannu’n ehangach er bydd pawb.

3. **Creu warws data (*wGwynedd*).** Mae ein systemau wedi eu sefydlu ar wasanaethau neu unedau oddi fewn adrannau penodol, ac mae’r systemau hynny sy’n cael eu defnyddio ar draws y Cyngor yn brin. Mae’n golygu nad ydym yn gallu adrodd ar ddata ar draws mwy nag un system yn hawdd, gan arwain at anghysondebau a diffyg cywirdeb yn ein data.

   Rydym am bensaernïo a chreu warws data (wGwynedd) fydd yn dod â data ynghyd o sawl system wahanol. Bydd yr integreiddio hyn yn hwyluso meddwl ar y cyd rhwng y gwasanaethau, ac yn ein cefnogi i ddarogan a mesur y defnydd o wasanaethau sawl cam i’r dyfodol. Bydd y warws wedi’i seilio ar y “Gofrestr Data” a’r “Siarter Data”, a

bydd prosesau ar gyfer rhesymoli a glanhau ein data i wella cywirdeb a'n galluogi i adrodd yn hyderus ar sail gwirionedd.

Bydd unrhyw adroddiad sydd yn galw ar ddata y tu allan i system benodol y gwasanaeth dan sylw yn dod o'r warws, a bydd data a gyhoeddir yn allanol yn deillio oddi yma hefyd. Mae'n annatod bod diogelwch seibr a diogelwch gwybodaeth yn greiddiol i bensaernïaeth *wGwynedd* a bydd ystod o reolau mynediad a threfn cofnodi gweithgaredd yn rhan amlwg ohono.

Mae pensaernïaeth data yn faes tu hwnt o arbenigol a bydd angen cymorth allanol i wireddu'r weledigaeth yma ac yn debygol o fod yn brosiect o weithgareddau dros sawl blwyddyn, ond bydd y canlyniad yn bellgyrhaeddol. Bydd y Cyngor yn adrodd ar a defnyddio data yn fwy hyderus, a bydd penderfyniadau dysg ar sail tystiolaeth yn cael eu hwyluso.

4. **Llwyfan adrodd ar ddata.** Defnyddir sawl system i adrodd ar ddata, boed drwy *Excel*, *PowerBI*, *Grafana* neu *Crystal Reports*. Mae'r rhain yn cynnig gwahanol ffyrdd o ddadansoddi data a'i gyflwyno, ond maent yn lled gymhleth ac angen cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant er mwyn eu defnyddio'n gywir ac effeithlon.

   Byddwn yn cynnal ymarferiad i adnabod y llwyfan gorau ar gyfer anghenion y Cyngor. Rhaid ystyried eu galluoedd i adrodd yn gywir, effeithlon ac i'r lle cywir, ac i ddefnyddio'r ffynhonnell data priodol. Byddwn yn ystyried cost, defnyddioldeb y pecynnau, a'r gefnogaeth a gynigir.

   Gyda phecyn adrodd o safon, byddwn yn gallu dadansoddi data'n gyson a chywir, a chyflwyno hyn yn glir.

5. **Hyfforddiant llythrennedd data.** Mae'r rhan fwyaf o swyddogion yn y Cyngor yn ymdrin â data mewn rhyw ffordd, boed wrth gasglu, cofnodi ac/neu ddehongli data. Mae gwneud hyn yn ailnatur i lawer ac yn cael ei wneud yn ddi-gwestiwn fel rhan o broses ehangach. Ond wrth i ddefnydd a phwysigrwydd data gynyddu, rhaid sicrhau fod staff y Cyngor yn fyw i botensial data, wedi'u grymuso i'w ddefnyddio'n effeithiol, ac yn deall y risgiau.

   Byddwn yn cyflwyno hyfforddiant llythrennedd data i bawb yn y Cyngor a . Gall gweithlu sy'n defnyddio data'n ddoeth gyfrannu'n sylweddol at wella ansawdd ein data a chryfhau safon ein gwasanaethau.

6. **Cyflwyno data perfformiad.** Mae'r dulliau o gasglu a chyflwyno gwybodaeth perfformiad (e.e., ar gyfer y drefn herio a chefnogi perfformiad) yn amrywio fesul adran, gan achosi diffyg cysondeb yn y wybodaeth a gyflwynir. Gellir olrhain rhai o'r diffygion hyn i ddiffygion naill yn y ffordd yr adroddir y data neu yng nghywirdeb y data oddi fewn y systemau a ddefnyddir yn yr adrannau.

   Bydd ein newidiadau i'n trefniadau o gasglu ac adrodd ar ddata'n hwyluso'r ddau beth hyn, yn ogystal â gwella ein hadroddiadau perfformiad adrannol a mynediad atynt. Er enghraifft, gallwn ddefnyddio dashfyrddau perfformiad digidol i gysoni sut mae'r adrannau'n cyflwyno data a gwneud y broses hon yn awtomatig, yn ogystal â rhannu elfennau o'r rhain ar ein sianeli digidol ar gyfer defnydd y cyhoedd.

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

## GWEINYDDIAETH A SYSTEMAU BUSNES

*'Hwyluso ac awtomeiddio gwaith sy'n rheolaidd ac yn drafodaethol, a defnyddio technoleg er mwyn ychwanegu gwerth at wasanaethau.'*

---

Mae gan dechnoleg ddigidol ran bwysig i'w chwarae wrth foderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd. Gallwn droi at atebion arloesol technoleg er mwyn hwyluso rhediad gwasanaethau, cyfoethogi profiad y cwsmer a chodi cynhyrched staff, yn bennaf trwy awtomeiddio gweithgareddau sy'n drafodaethol ac ailadroddus, a chanolbwyntio ar yr hyn sydd *wir* yn ychwanegu gwerth. Gallwn hybu gweithio doeth ac ystwyth, a chynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau.

Yr eitemau penodol fydd yn derbyn sylw yn y flaenoriaeth hon yw:

1. **Cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gweithgareddau trafodaethol a rheolaidd.** Er bod sawl gwasanaeth yn defnyddio technoleg ddigidol, mae gweithgaredd a llaw yn parhau. Gallwn gyflwyno technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) a Gweinydd Prosesau Robotiaid i leihau ar yr elfen ymdrech â llaw mewn gweinyddiaeth, yn enwedig mewn gweithgareddau sy'n drafodaethol a rheolaidd. Byddwn yn creu tîm penodol yn yr Uned Ddatblygu i arbenigo mewn Deallusrwydd Artiffisial ac adnabod cyfleoedd i drawsnewid gwasanaethau.

   Bydd y dechnoleg nid yn unig yn fodd o wneud arbedion, ond hefyd yn gyfle i ychwanegu gwerth i wasanaethau a gwella profiad cwsmeriaid. Er y manteision hyn, ni allwn osgoi'r pryderon am Ddeallusrwydd Artiffisial a byddwn yn dilyn camau ymarfer da a ddaw o law'r Llywodraeth.

2. **Digideiddio ac awtomeiddio trefniadau anfonebu.** Mae'r drefn anfonebu yn rhan annatod o reolaeth ariannol yn y Cyngor. Mae'n parhau i ddilyn trefniadau papur, ac mae'r papurau hyn yn cyfnewid dwylo sawl tro cyn cael eu mewnbynnu i system ariannol y Cyngor. Yn ogystal â bod yn llafurus, mae anfonebu hefyd yn dwyn gorfodaeth i fod yn y swyddfa. Mae'r drefn yma'n cael ei ddefnyddio gan bob adran yn y Cyngor ynghyd â darparwyr allanol, a gellir cyflwyno gwelliannau sylweddol i gyflymu'r broses a'i gwneud yn fwy diogel, cywir ac effeithlon.

   Byddwn yn mapio'r broses gwaith presennol, ei ail-ddylunio a chyflwyno proses ddigidol newydd a chyflymach, yn tynnu'r ddibyniaeth ar leoliad, yn creu safonau rhag twyll ac yn ysgafnhau ar unrhyw ymdrech gweinyddol.

3. **Lleihau a gwella ein defnydd o bapur.** Er bod gohebiaeth ddigidol y Cyngor yn tyfu, mae argraffu dogfennaeth yn parhau. Rhaid cydnabod bod argraffu'n bwysig ar gyfer y cwsmeriaid hynny nad ydynt yn gohebu'n ddigidol ac mae'n anorfod, felly, y bydd gohebiaeth papur yn parhau i ryw raddau, ond byddwn yn rhoi sylw i gynyddu presenoldeb ein gwasanaethau ar-lein i resymoli'r defnydd.

   Byddwn yn adnabod trefn ble bo gohebiaeth sy'n cael ei yrru drwy'r post yn cael ei ganoli, gan ryddhau'r ymdrech bresennol o argraffu dogfennaeth, ei blygu, rhoi'r ohebiaeth mewn amlen a'i baratoi ar gyfer ei bostio. Ble daw gohebiaeth yn ôl i'r Cyngor ar bapur, byddem yn integreiddio hyn i'r system ddigidol yn hytrach na mewnbynnu'r wybodaeth â llaw.

   Bydd y Cynllun hwn yn lleihau'r amser ar gyfer gyrru gohebiaeth drwy'r post, yn ogystal â'r adnodd ar gyfer gwneud hyn.

4. **Rhesymoli'r systemau a ddefnyddir.** Defnyddir oddeutu 300 system ddigidol yn y Cyngor, gyda phob un yn dwyn ymdrech neu gost ariannol i'w cynnal, ac yn gymysg o systemau sydd wedi'u datblygu'n fewnol neu wedi'u prynu drwy gwmnïau trydydd parti. Yn aml, dim ond rhan o'r system sy'n cael ei ddefnyddio, gan fod hynny'n ddigonol ar gyfer dibenion y gwasanaeth, ond fe allai'r modiwlau na ddefnyddir fod o werth i wasanaethau eraill a byddwn yn cysidro'r elfen hwn yn yr ymarferiad.

   Bydd cymal cyntaf y cynllun yn arwain at gynnal adolygiad llawn a trylwyr o'n holl systemau, gan weithio â phob adran i greu cofrestr ased cyflawn o'n systemau. Bydd ail ran yr ymarferiad hwn yn rhesymoli'r systemau, drwy naill ai gyfuno defnydd i lai o systemau neu adnabod systemau newydd gall wasanaethu ar draws sawl gwasanaeth.

   Canlyniad yr ymarferion hyn fydd ein hamddiffyn rhag gwastraff ble mae darpariaeth eisoes yn bodoli neu ble na fyddai darpariaeth newydd yn briodol. Trwy leihau'r nifer o systemau rydym eu cefnogi, bydd y Cyngor yn gwella cysondeb data, cyflwyno arbedion a lleihau y gofyn ar ein hisadeiledd.

5. **Adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad.** "Systemau rheoli'r sefydliad" yw'r term a roddir i'r systemau hynny sy'n cael eu defnyddio i gynllunio a rheoli adnoddau sefydliad, gan gynnwys cynllunio ariannol a'r gweithlu. Mae yna 3 elfen yng Nghyngor Gwynedd:

   - System trydydd parti ar gyfer rheolaeth ariannol.
   - System trydydd parti i baratoi cyflogau.
   - System fewnol ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

   Gwneir ymdrech i gadw'r wybodaeth a rennir rhwng y systemau uchod yn gyfredol a chywir, ac mae hyn yn gymysg o gamau wedi'u hawtomeiddio yn ogystal â rhai a wneir â llaw. Byddwn yn adolygu ein hanghenion i reoli'r sefydliad, gan gymharu ein darpariaeth gyfredol yn erbyn systemau integredig sy'n rhoi darpariaeth gyflawn yn y meysydd hyn, gan gyflwyno achos busnes i barhau neu newid.

   Bydd yr achos busnes yn cyflwyno'r ymdrech a'r costau ynghlwm â pharhau neu newid, yn ogystal ag effaith hynny ar ein gweithlu a'n gwasanaethau.

6. **Rhyngrwyd y Pethau.** Rhyngrwyd y Pethau (IoT) yw gwrthrychau neu "bethau" sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd sy'n synhwyro ar bethau, casglu data gan y synhwyrwyr, a gwneud penderfyniadau ar sail y data. Mae'r Cyngor yn arloesi yn y maes hwn yn barod ac wedi cyflwyno datrysiadau yn y maes amgylcheddol, ond gallwn wneud mwy gyda'r dechnoleg gan gynnwys arbed ynni, monitro'r hinsawdd, rhagweld llifogydd, hwyluso byw'n annibynnol yn y maes gofal, gorfodaeth stryd, gwastraff, a llawer mwy.

   Byddwn yn creu Hwb Rhyngrwyd y Pethau, fydd yn cynnwys arbenigedd mewn technolegau Rhyngrwyd y Pethau, fydd yn cynnwys  arbenigedd mewn technolegau Rhyngrwyd y Pethau, y gefnogaeth isadeiledd i'w alluogi, a mynediad at fuddsoddiad i gyflwyno synhwyrwyr i gyflawni amryw brosiectau. Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau yn y maes amgylcheddol a gofal, gyda'r maes amgylcheddol yn cynnig cyfleodd i wneud arbedion ariannol drwy resymoli ein defnydd ynni a chael effaith bositif ar ein hôl-troed carbon, yn ogystal â modelu digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd. Yn y maes gofal, gallwn wella ansawdd byw trigolion trwy eu cefnogi i fyw'n annibynnol, megis drwy teleofal.

   Mae technoleg Rhyngrwyd y Pethau'n amrywio. Defnyddir y band eang gan rai mathau o'r dechnoleg, signal ffôn symudol gan eraill, ac yn gynyddol,  ac yn gost effeithiol, technoleg rwydwaith ardal eang pŵer isel (LP-WAN). Gan fod demograffeg a thirwedd Gwynedd yn amrywio, a chysylltedd yn wan mewn rhai llefydd, rhaid gofyn pa un o'r

mathau uchod sydd fwyaf addas i'w ddefnyddio. Mewn rhai amgylchiadau, darpariaeth LP-WAN fydd yr unig opsiwn, ac yn aml iawn, yr opsiwn gorau pam fo cysylltedd eraill ar gael.

Byddwn yn cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru i wella cysylltedd band eang (1Gb), rhwydwaith ffôn symudol 4/5G a sefydlu rhwydwaith LP-WAN drwy Ogledd Cymru. Bydd defnydd eang o ryngrwyd y pethau yn cyfrannu i leihau ein haralliadau carbon, arbed costau ynni, galluogi i'n trigolion fyw yn annibynnol yn hirach, monitro a modelu digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a chyfrannu at nifer o ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau mwy effeithiol.

7. **Gwneud y defnydd gorau o'r llwyfan Microsoft365.** Fel sefydliadau eraill, mae'r Cyngor yn gwneud defnydd mawr o becynnau Microsoft. Mae'r rhain wedi'u hintegreiddio'n ddwfn yn ein gwasanaethau a'n gweithgareddau, ond gallwn wneud llawer mwy gyda'r hyn rydym yn tanysgrifio amdano.

   Er mwyn gwneud llawn ddefnydd o'r pecynnau Microsoft, mae rhai sialensiau'n ein hwynebu. Mae'r llwyfan wedi tyfu'n sylweddol ac yn parhau i dyfu, gyda nifer o'r opsiynau diweddar oddi fewn y cynnyrch wedi eu hanalluogi oherwydd cyfyngder adnoddau, ac mae'r llwyfan yn parhau i dyfu, gyda ffwythiannau newydd parhaus yn cael eu cyflwyno. Mae nifer wahanol flas i ddulliau trwyddedu cynnyrch Microsoft, gydag un prif ddull yn cael ei wireddu i oll o'n defnyddwyr, ond drwy broffilio a rheolaeth dynn ar bwy sydd angen beth, gallwn resymoli rhywfaint ar gostau'r trwyddedau.

   Byddwn yn dwyn mwy o gefnogaeth i'r llwyfan Microsoft365, a hynny ar draws pedwar maes:

   - **Technegol.** Ymchwilio i'r ffwythiannau diweddaraf a gynigir, gan alluogi mynediad at oll o ffwythiannau'r cynnyrch yn ôl anghenion staff.
   - **Digidol.** Datblygu pecynnau meddalwedd drwy ddefnyddio llwyfannau datblygu PowerApps a phecynnau Deallusrwydd Artiffisial Copilot**.**
   - **Diogelwch Gwybodaeth.** Ymchwilio i effaith defnydd y cynnyrch o bersbectif diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys newidiadau sylweddol i rannu gwybodaeth a chyfnodau cadw**.**
   - **Gweinyddol.** Rheolaeth dynnach a phroffilio defnyddwyr i resymoli gwariant ar drwyddedau**.**

   Byddwn yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r arlwy sydd ar gael oddi fewn y pecynnau cynhyrchiant, yn gwella gweinyddiaeth fewnol, cyflwyno mwy o ddatrysiadau digidol yn gynt, eu defnyddio mewn modd diogel ac yn rhesymoli defnydd y trwyddedau.

8. **Hwyluso cydweithio â phartneriaid.** Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â sawl partner allanol, ond mae trefniadau digidol weithiau'n broblem wrth weithio'n draws-sefydliadol. Yn hanesyddol, mae'r Cyngor wedi bod yn flaenllaw yn hwyluso'r math hyn o gydweithio, boed wrth bensaernïo'r rhwydwaith cydweithio cenedlaethol, Govroam, neu drwy fabwysiadu technoleg SharePoint yn gynt na'r mwyafrif o sefydliadau. Mae'r rhain wedi cyfrannu'n fawr at gyd-weithio rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, ond gallwn hwyluso gweithio traws-sefydliadol ymhellach.

   Ni all Gyngor Gwynedd alluogi'r cydweithio ar ei draed ei hun; mae'n rhaid symud gam wrth gam â phartneriaid, boed drwy gyflwyno newidiadau mewnol ar y cyd, neu drwy fuddsoddi mewn llwyfannau amgen. Mae'n annatod bod diogelwch yn flaenllaw mewn unrhyw drefn, a bydd ein gallu i gefnogi hefyd yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael.

Bydd Cyngor Gwynedd yn bartner bodlon a pharod i gefnogi mesurau a mentrau i ddiddymu rhwystrau digidol i alluogi cydweithio a phartneriaid strategol.

9. **Cysylltedd a chynhwysiad digidol.** Mae cyd-destun cysylltedd digidol Gwynedd yn awgrymu bod 94.6% o anheddau'r Sir mewn ardal gall dderbyn cyflenwad band-eang cyflym o 30mbps neu uwch, gyda 2.36% yn derbyn cyflenwad o lai na 10mbps a 0.66% yn derbyn cyflenwad yn is na 2mbps. Prin yw'r data lleol ar gyfer lefel cynhwysiad, sef y gallu a'r parodrwydd i ddefnyddio cyfryngau digidol, ac mae ymchwiliad diweddar (Mawrth 2023) gan Archwilio Cymru yn awgrymu bod cyfartaledd o 7% o oedolion Cymru wedi eu heithrio'n ddigidol.

   Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gyfrifol am isadeiledd cysylltedd digidol yn y DG, ond drwy nawdd, mae prosiectau digidol y rhaglen Twf drwy Uchelgais Gogledd Cymru wedi eu sefydlu i wella cysylltedd; yn benodol y prosiectau "Campysau Cysylltiedig", "Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig" a "Yr Ychydig % Olaf". Bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu'r prosiectau hyn, gan gynnwys mewnbwn technegol ac ymarferol o ran ysgafnhau ar unrhyw rwystrau, megis polisïau cynllunio neu alluogi i adeiladau cyhoeddus y Cyngor gael eu defnyddio fel rhan o unrhyw ddatrysiad.

   Byddwn yn parhau i gefnogi Partneriaeth Sgiliau Rhanbarth Gogledd Cymru i wella sgiliau digidol yn y Sir, yn ogystal â'r rhaglenni gwella sy'n rhan o ymgyrch y rhaglen Gwynedd Ddigidol i gynyddu cynhwysiad digidol.

10. **Ysgolion ac Addysg.** Bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd ar ddiwedd 2021. Mae hon yn strategaeth gynhwysfawr ac yn arwain ar y cymhelliant o "gefnogi addysgu digidol er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i ddisgyblion Gwynedd". Mae egwyddorion a chynlluniau'r strategaeth ddigidol ar gyfer yr ysgolion yn rhan annatod o drefniadau a chynlluniau digidol y Cyngor, a byddwn yn cadw traw a phwrpas y strategaeth yn gyfredol i adlewyrchu cynlluniau digidol ehangach y Cyngor.

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

## GWEITHLU

*'Creu gweithlu mwy effeithiol a chynhyrchiol, ble mae galluoedd staff yn cael eu cryfhau a'u gwella.'*

---

Bydd rhediad llyfn a lwyddiannus ein gwasanaethau'n parhau i ddibynnu ar sgil ein staff, ond gallwn fuddsoddi mewn technoleg ddigidol er mwyn eu grymuso a'u cefnogi. Trwy arfogi gweithwyr â sgiliau digidol, eu grymuso i ddefnyddio technoleg yn ddoeth a chreu gofodau gwaith priodol, gall y Cyngor ysgogi arloesedd a chynyddu cynhyrchedd. Rhaid creu diwylliant sy'n annog y defnydd o dechnoleg a sicrhau fod gan *bob* aelod o staff fynediad ato, yn ogystal â denu a hyfforddi'r sgiliau digidol sydd eu hangen arnom. Mae yma gyfle i wreiddio ystwythder a gweithio doeth yn y sefydliad, a thrwy hyn, moderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir er budd pobl Gwynedd.

Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn, byddwn yn:

1. **Cyflwyno cyfrif digidol i bob swyddog.** Mae'r Cyngor yn cyflogi oddeutu 7,000 o swyddogion, gydag ychydig o dan hanner ein gweithlu (40%) yn meddu ar gyfrif corfforaethol, a hynny'n bennaf i staff ysgolion a swyddfa. Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu defnyddio i lwyfannu llu o systemau, gan gynnwys mynediad at e-bost, mewnrwyd y Cyngor a Hunan Wasanaeth staff a hynny drwy liniaduron sy'n cael eu darparu a'u cefnogi gan unedau cefnogol y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.

   Nid yw'r un ddarpariaeth yn cael ei gynnig i weddill y gweithlu, ond caniateir mynediad at fodiwlau mewnol megis Hunanwasanaeth staff trwy gyfrifon ac offer personol. Staff o'r gwasanaethau gofal, gweithwyr llaw a staff ategol yn yr ysgolion yw trwch y garfan hon ac rydym am greu cyfrifon corfforaethol ar eu cyfer fel bod gan bawb fynediad teg. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriadau e-bost, ac rydym am baratoi mannau penodol yn y gweithle ble bydd modd i'r staff hyn gael mynediad at lwyfannau digidol. Bydd rhaglen hyfforddiant yn cael ei baratoi er mwyn grymuso staff i ddefnyddio'r ddarpariaeth yn effeithiol.

   Drwy symud o Gyngor lled-ddigidol i fod yn Gyngor sy'n galluogi'r gweithlu i gyd i ohebu a gweinyddu'n ddigidol, byddwn yn lleihau ein defnydd o bapur a chostau postio, cyflwyno hyfforddiant yn amserol, newid meddylfryd pob aelod o staff i feddwl yn ddigidol, ac adnabod cyfleoedd gyda'r sgiliau hyn i wella gwasanaethau.

2. **Cefnogi gweledigaeth y rhaglen "Gweithio i'r Dyfodol".** Fe newidiodd llawer yn ystod y cyfnod clo, yn enwedig ein ffyrdd o weithio. Bellach, mae staff yn gweithio'n heibrid – yn swyddfeydd y Cyngor ac o bell.

   Mae nifer o fanteision ynghlwm â'r ffordd hyn o weithio, gan gynnwys cydbwysedd bywyd a gwaith, morâl staff, a recriwtio a chadw staff. Fodd bynnag, rhaid sicrhau fod darpariaeth yn ei le er mwyn hwyluso'r modd newydd hwn o weithio a chefnogi staff i fod yn effeithiol, ble bynnag eu lleoliad gwaith.

   Bydd elfen ddigidol y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar gyflwyno offer ar ddesgiau'r swyddfeydd, cysylltiadau i'r rhwydwaith, darpariaeth cyfarfodydd heibrid yn yr ystafelloedd cyfarfod, a system i neilltuo gofod yn y swyddfa i weithio. Byddwn hefyd yn hwyluso symud llyfn o weithio yn y swyddfa i fan arall. Mae'r trefniadau "Gweithio i'r Dyfodol" cyfle i resymoli ein stad swyddfeydd, a bydd rhestr gynhwysfawr o ystadegau'n cael eu darparu i fesur y defnydd o swyddfeydd a modelu tueddiadau i'r dyfodol.

3. **Hyfforddiant, sgiliau a meddwl yn ddigidol.** Mae canran sylweddol o weithlu'r Cyngor yn defnyddio technoleg ddigidol yn eu gwaith mewn rhyw fodd, ond rhagdybir bod sgiliau TG ac ymwybyddiaeth ddigidol yn amrywio. Mae

sgiliau TG yn cynnwys y gallu i wneud defnydd effeithiol o systemau ac offer digidol, ac ymwybyddiaeth ddigidol ydi'r gallu i adnabod y cyfrwng gorau ar gyfer dibenion y gwaith. Byddwn yn cynnal ymarferiad er mwyn:

- Proffilio swyddi ac adnabod y lefel o sgiliau digidol sydd eu hangen i ddiwallu dyletswyddau'r swydd.
- Cynnal asesiad o sgiliau digidol y gweithlu a chymharu'r rhain gyda disgwyliadau'r swydd.
- Creu rhaglen o hyfforddiant sgiliau digidol, yn ogystal â gweithdai newid meddylfryd er mwyn:
    - Sicrhau bod staff a swyddogion gyda'r sgiliau a gwybodaeth briodol.
    - Datblygu a meithrin diwylliant i weithio'n ddigidol.
    - Dilyn egwyddorion *Rheoli Newid* i gefnogi unigolion i ymdopi ac addasu eu ffordd o feddwl.

Mae'n hanfodol ein bod yn cyfathrebu'r rheswm am y newidiadau hyn yn glir, gan arddangos sut mae sgiliau technegol digidol yn cyfrannu at wella gwasanaethau a hwyluso tasgau gwaith. Bydd yr ymgyrch hon yn wir ar draws y Cyngor ac yn gofyn am arweinyddiaeth glir a chadarn.

4. **Hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol.** Mae'r maes cyflogaeth ddigidol yn gystadleuol dros ben, ac mae'r gallu bellach i weithio o bell i gwmnïau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol wedi cynyddu'r gystadleuaeth. Mae'n golygu fod y Cyngor yn cystadlu gyda sefydliadau ledled y byd am dalent ddigidol, ac mae recriwtio a chadw staff yn parhau'n sialens. Un sialens yw'r diffyg ymwybyddiaeth fod y Cyngor ymysg y cyflogwyr digidol mwyaf yn yr ardal, gan olygu nad yw llawer yn cysidro'r Cyngor wrth chwilio am swyddi.

Mae meysydd eraill hefyd yn wynebu heriau recriwtio, megis y maes gofal. Rydym felly wedi cyflwyno gwelliannau sylweddol i'r drefn recriwtio, gan gynnwys rhyddhau tudalen swyddi newydd ar wefan y Cyngor sy'n llawer cliriach a haws ei defnyddio.

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn mynychu digwyddiadau ac yn cyfrannu i'r agenda o uwch-sgilio a denu gwaed newydd i'r maes digidol, ac yn rhan allweddol o'r grŵp sgiliau digidol sydd wedi ei sefydlu drwy'r Bartneriaeth. Mae'n amlwg na fydd y sefyllfa'n gwella oni bai ein cymryd mesurau i wneud rhywbeth gwahanol i'r hyn 'da ni'n ei wneud heddiw, a gan fod cystadleuaeth chwyrn am adnoddau sy'n brin, mae'n ofynnol i ni wneud yn glir bod Cyngor Gwynedd yn le atyniadol i feithrin gyrfa yn y maes digidol. Byddwn yn cynnal sawl ymarferiad i geisio codi ymwybyddiaeth o Gyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol a gwneud ein swyddi digidol yn fwy atyniadol drwy:

- Cydweithio ag ysgolion trwy gynnal gweithgareddau a gweithdai digidol i ysgogi darpar ymgeiswyr i ddeall bod y Cyngor yn cynnig gyrfaoedd cyffrous yn y maes digidol.
- Diwygio teitlau swyddi a swydd ddisgrifiadau, gan eu hasio'n agosach â'r fframwaith DDaT (Digidol, Data a Thechnoleg).
- Creu mwy o brentisiaethau.
- Parhau i gefnogi a chyfrannau at waith Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Byddwn yn codi proffil Cyngor Gwynedd fel cyflogwr yn y maes digidol, creu cyfleoedd i ddenu mwy o brentisiaid, diwygio swydd ddisgrifiadau i fod yn fwy atyniadol, a chreu amgylchedd lle bo modd dilyn gyrfa hir yn y Cyngor.

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

## GWYDNWCH

*‘Datblygu isadeiledd digidol cadarn er mwyn amddiffyn gwasanaethau’r Cyngor.’*

---

Mae technoleg ddigidol yn cynnig atebion arloesol a chyfleoedd lu, ond mae’n peri heriau i gynnal llwyfan sy’n wydn. Wrth inni ddod yn fwyfwy ddibynnol ar dechnoleg, mae’r risgiau sy’n deillio o fethiant yn ein hisadeiledd yn cynyddu, boed hynny drwy ddigwyddiad megis llifogydd a thân, neu drwy ymosodiadau seibir a thor diogelwch data. Rhaid sicrhau fod isadeiledd digidol y Cyngor yn parhau’n wydn gyda’r gallu i ymateb ac adfer yn llawn, unrhyw golled yn deillio o ddigwyddiad.

Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn, byddwn yn:

1. **Uwchraddio llinellau analog i ddigidol.** O 2025, bydd llinellau ffôn ISDN (rhwydwaith digidol gwasanaethau integredig) a PSTN (rhwydwaith cyfnewidfeydd ffôn cyhoeddus) yn cael eu diffodd yn barhaol. Mae’r cysylltiadau hyn yn cynnwys llinellau ffôn a chysylltiadau data, a hynny ar draws nifer o wasanaethau - larymau byrgleriaeth, larymau mewn lifft, croesfannau, aros fannau tywydd, a llinellau ffôn traddodiadol. Mae’n hanfodol felly ein bod yn adnabod pwrpas ein defnydd cyfredol o linellau analog, gan ddarganfod datrysiad amgen i’r gwasanaethau sydd angen parhau.

   Byddwn yn rhannu’r prosiect i ddau gymal, gyda’r cymal cyntaf yn adnabod ein defnydd presennol o linellau analog. Disgwylir i’r cymal hwn amlygu os oes angen darpariaeth amgen, gan nodi ei bod yn debygol y bydd rhai gwasanaethau wedi dyddio a bellach ddim eu hangen. Gellir gwneud arbedion ar y cysylltiadau fydd yn cael eu diffodd, ond fe all y ddarpariaeth amgen sydd angen ei gyflwyno olygu costau uwchlaw'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r ail gymal yn cyflwyno’r dechnoleg amgen. Byddwn yn penodi adnodd yn fewnol i arwain ar y cymalau hyn, ond fe ddisgwylir comisiynu arbenigedd allanol i ymchwilio i rai cysylltiadau ble na ellir eu holrhain.

   Canlyniad yr ymarferiad fydd rhesymoli’r nifer o gysylltiadau, a rhoi darpariaeth gadarn a gwydn i’r gwasanaethau hynny sydd angen parhau.

2. **Parhad gwasanaeth.** Mae parhad gwasanaeth yn cynnwys sawl elfen o’n darpariaeth ddigidol, a sut y gall ddarparu a chynnal llwyfan gwydn i gefnogi ein gwasanaethau, beth bynnag fo’r amgylchiadau. Byddai colli ein systemau digidol yn peri problemau i’r gwasanaethau a ddarperir, yn ogystal ag i bobl Gwynedd.

   Er bod ein darpariaeth isadeiledd yn gadarn, gellir cyflwyno gwelliannau o ran ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau, boed hynny yn ddigwyddiad sy’n gwreiddio o ymosodiad seibr neu drwy drychineb arall megis tân neu lifogydd. Mae’r risgiau’n bodoli o hyd, a rhaid bod yn fyw iddyn nhw - mae’n faes sy’n datblygu ar garlam ac angen buddsoddiad parhaus i gadw ar flaen y gad.

   Gyda chyfleoedd digidol newydd yn ein cyrraedd yn barhaus a swyddogion yn awyddus i wneud defnydd llawn o’r dechnoleg sydd ar gael, bydd seibr ddiogelwch yn dod yn gynyddol bwysig. Gweler yr angen i gael trefn, strwythur a pholisïau o'r newydd i gyfarch y risg, ynghyd â systemau i ddiogelu staff a phobl Gwynedd rhag ymosodiadau seibr a’r gallu i adfer o ddigwyddiad yn effeithiol.

Byddwn yn buddsoddi mewn adnoddau, meddalwedd a gweithdrefnau i gryfhau ein hamddiffynfeydd yn erbyn ymosodiadau seibr, rhoi mwy o ryddid i rannu gwybodaeth a chael mynediad at systemau, a chreu darpariaeth i allu ymateb i ddigwyddiadau oddi allan i oriau craidd y Cyngor.

3. **Uwchraddio darpariaeth darlledu yn Siambrau'r Cyngor.** Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd y Cyngor Llawn a'r pwyllgorau democrataidd yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda. Dim ond cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb a gynhaliwyd yma'n draddodiadol, ond yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol ar y Cyngor i ganiatáu cynghorwyr i allu ymuno â chyfarfodydd yn rhithiol. Rydym wedi adnabod pedwar math o gyfarfodydd ble bydd modd i gynghorwyr ymuno o bell. Bydd gwe-ddarllediadau'n parhau, a bydd y ddarpariaeth yn gweithio'n hwylus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

   Mae'r ddarpariaeth yn ei le bellach, ond yn cynnwys amryw o dechnolegau gwahanol. Mae'n golygu fod y drefn o weinyddu a chefnogi'r ddarpariaeth yn gymhleth, gyda gwahanol elfennau yn gofyn am gefnogaeth arbenigol. Nid yw ychwaith yn adlewyrchu'r ddarpariaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn y farchnad.

   Byddwn yn adolygu'r trefniadau cyfredol gyda'r bwriad o gyflwyno darpariaeth newydd sydd wedi'i bensaernïol ar gyfer cynnal cyfarfodydd aml-leoliad a dwyieithog, a ble gellir eu darlledu'n fyw. Bydd angen sicrhau fod y ddarpariaeth yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio, gwydn, ac yn trawsnewid y siambrau fel y gellir eu defnyddio ar gyfer pob math o gyfarfodydd.

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

**Cyfraniad at y 5 Ffordd o Weithio a 6 cenhadaeth Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru (2022).**

Tud. 34

| Blaenoriaeth Ddigidol | Prosiect datblygu | 5 Ffordd o Weithio | | | | | Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru (2022) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Hirdymor** | **Atal** | **Integreiddio** | **Cydweithio** | **Cynnwys** | **Gwasanaethau Digidol** | **Cynhwysiant Digidol** | **Sgiliau Digidol** | **Yr Economi Ddigidol** | **Cysylltedd Digidol** | **Data a Chydweithredu** |
| **Cyswllt Cwsmer** | Ymestyn dulliau cyfathrebu, ymholi a chyflwyno ceisiadau am wasanaeth | X | X | X | | X | X | | | X | | |
| | Gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor | X | X | X | X | X | X | | | | | |
| | Ail ddylunio gwefan gorfforaethol y Cyngor | X | X | | | X | X | | | X | | |
| | Datblygu a hyrwyddo apGwynedd | X | X | | | X | X | | | | | |
| | Ciosg fideo Siop Gwynedd | X | X | X | X | | X | X | | | X | |
| | Peiriannau talu am wasanaeth | X | X | X | X | X | X | | | | | |
| **Gwybodaeth a Data** | Adnabod ein data | X | X | X | X | | | | | | | X |
| | Siarter data | X | X | X | | | | | | | | X |
| | Creu warws data (*wGwynedd*) | X | X | X | X | | | | | | | X |
| | Llwyfan adrodd ar ddata | X | | X | X | X | | | | | | X |
| | Hyfforddiant llythrennedd data | X | X | | | | | | X | | | X |
| | Adrodd ar berfformiad | X | | X | | X | | | | | | X |

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28



| Blaenoriaeth Ddigidol | Prosiect datblygu | 5 Ffordd o Weithio | | | | | Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru (2022) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys | Gwasanaethau Digidol | Cynhwysiant Digidol | Sgiliau Digidol | Yr Economi Ddigidol | Cysylltedd Digidol | Data a Chydweithredu |
| **Gweinyddiaeth a Systemau Busnes** | Cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gweithgareddau trafodaethol a rheolaidd | X | X | X | | | X | | | | | |
| | Digideiddio ac awtomeiddio trefniadau anfonebu | X | X | X | | | X | | | | | |
| | Lleihau a gwella ein defnydd o bapur | X | X | X | | X | X | | | | | |
| | Rhesymoli'r systemau a ddefnyddir | X | X | X | | | X | | | | | X |
| | Adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad | X | X | X | X | | X | | | | | X |
| | Rhyngrwyd y Pethau | X | X | X | X | X | X | | | X | | X |
| | Gwneud y defnydd gorau o'r llwyfan Microsoft365 | X | X | X | | | X | | | | | |
| | Hwyluso cydweithio â phartneriaid | X | X | X | X | X | X | | | X | | X |
| | Cysylltedd digidol | X | X | X | X | X | X | X | | X | X | |
| | Ysgolion ac addysg | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X |
| **Gweithlu** | Cyflwyno cyfrif digidol i bob swyddog | X | X | X | | | X | X | X | | | |
| | Cefnogi gweledigaeth y rhaglen "Gweithio i'r Dyfodol" | X | | | | | | | | | | |
| | Hyfforddiant, sgiliau a meddwl yn ddigidol | X | X | X | X | | | | X | | | |
| | Hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol | X | X | | X | X | | | X | X | | |
| **Gwydnwch** | Uwchraddio llinellau analog i ddigidol | X | X | | | | X | | | | | |

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

| Blaenoriaeth Ddigidol | Prosiect datblygu | 5 Ffordd o Weithio | | | | | Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru (2022) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys | Gwasanaethau Digidol | Cynhwysiant Digidol | Sgiliau Digidol | Yr Economi Ddigidol | Cysylltedd Digidol | Data a Chydweithredu |
| | Parhad gwasanaeth | X | X | | | | X | | | | | |
| | Uwchraddio darpariaeth darlledu yn Siambrau'r Cyngor | X | | | | X | X | X | | | | |

# Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28

## TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT

Bydd datblygiadau'r Cynllun hwn yn cael eu gyrru a'u cefnogi gan Fwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol, a chyda cefnogaeth yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Thechnoleg Gwybodaeth, y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyllid, a Phenaethiaid Adran. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu rhwydwaith o is-grwpiau digidol i gyfarch rhanddeiliaid ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Bydd y Bwrdd yn perchnogi'r uchelgais a gyflwynir yn y Cynllun Digidol ac yn gyfrifol am:

- Flaenoriaethu a chydgordio'r prosiectau blaenoriaeth gwella.
- Dynodi adnoddau digonol i ymgymryd yn effeithiol â thasgau i wireddu'r prosiectau.
- Sicrhau bod aelodaeth y Bwrdd a'r is-grwpiau yn gynrychiadol ac yn meddu'r sgiliau a'r awdurdod i weithredu
- Cadw'r Cynllun yn gyfredol drwy gyflwyno newidiadau yn ôl gofynion y Cyngor a'i gwasanaethau, ac/neu newid mewn technoleg.

Yr Adran Gyllid a Thechnoleg Gwybodaeth fydd yn adrodd ar gynnydd y Cynllun, a hynny'n dilyn trefniadau'r cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad corfforaethol tra bydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar yr hyn a gyflawnir.

# Eitem 6

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 14 Medi 2023 |
| **TEITL** | Adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd |
| **AELODAU'R YMCHWILIAD** | Cynghorwyr:<br><br>Paul Rowlinson (Cadeirydd)<br>Cai Larsen<br>Beth Lawton<br>Huw Rowlands<br>Rhys Tudur |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Beca Brown, Aelod Cabinet Addysg |

1. Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu ar 2 Chwefror 2023 a chyflwynir yr Adroddiad Terfynol drafft i sylw'r Aelodau.

2. Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu i ystyried cynnwys yr Adroddiad ac i wneud sylwadau, a gofyn unrhyw gwestiynau perthnasol gan gynnig unrhyw welliannau a chymeradwyo'r Adroddiad.

3. Gofynnir i'r Aelod Cabinet am ei hymateb i'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion gan gadarnhau os yw'n derbyn yr argymhellion.

4. Pe cymeradwyir adroddiad yr ymchwiliad, bydd angen dod i benderfyniad ar pryd i dderbyn diweddariad gan yr Aelod Cabinet Addysg ar weithrediad fesul argymhelliad.

5. Yn ystod cyfnod yr ymchwiliad, mabwysiadodd y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 4 Mai 2023, rybudd o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rhys Tudur, sef:

   "Er mwyn i'r Cyngor arloesi yn y ffordd y bydd yn monitro gweithrediad y ddarpariaeth addysg Gymraeg a'r cynnydd yn fanwl ac yn effeithiol o fewn ein hysgolion, gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi roi ystyriaeth i'r modd priodol o gasglu data a monitro'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ymhob ysgol uwchradd yn erbyn gwaelodlinau'r categorïau y mae'r ysgolion ynddynt."

   Gan ystyried gwaith yr ymchwiliad ac yn benodol Argymhellion 1 a 2, mae angen i'r Pwyllgor ddod i gasgliad os oes gwaith pellach i'w wneud neu os yw'r hyn a gyflawnwyd gan yr ymchwiliad yn ateb y gofyn.

# Adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd

**Aelodau'r Ymchwiliad**

Y Cynghorwyr:
Paul Rowlinson (Cadeirydd)
Cai Larsen
Beth Lawton
Huw Rowlands
Rhys Tudur

**Swyddogion**

Bethan Adams (Swyddog Arweiniol)
Rhodri Jones (Swyddog Cefnogol)

Dyddiad: Medi 2023

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd | | 3 |
| 1. | Argymhellion | 4 |
| 2. | Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu | 6 |
| 3. | Cefndir | 7 |
| 4. | Methodoleg | 8 |
| 5. | Y Dystiolaeth a ystyriwyd | 11 |
| 6. | Prif ganfyddiadau | 12 |
| 7. | Argymhellion | 15 |
| | Data a Thargedau | 15 |
| | Polisi Iaith | 17 |
| | Hyrwyddo Buddion Addysg Gymraeg | 20 |
| | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol | 21 |
| | Hwyrddyfodiaid | 22 |
| | Ethos yr Ysgolion a Gweithgareddau Cymdeithasol | 25 |
| | Adeiladu Gweithlu Dwyieithog | 28 |
| | Gweithredu gan Ysgolion | 29 |
| | Adnoddau Cymraeg | 31 |
| | GwE | 33 |
| 8. | Casgliad | 34 |
| Cydnabyddiaeth | | 35 |
| Atodiadau: | | 36 |
| **Atodiad 1** | Brîff yr Ymchwiliad | |
| **Atodiad 2** | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-32 | |
| **Atodiad 3** | Polisi Iaith Enghreifftiol | |
| **Atodiad 4** | Data Cefndir Ysgolion yr Ymchwiliad 2023 | |
| **Atodiad 5** | Data darpariaeth cyfrwng Gymraeg yr ysgolion | |
| **Atodiad 6** | Cwestiynau i'r Ysgolion | |

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Yr iaith Gymraeg yw un o drysorau Gwynedd ac addysg yw un o'r ffyrdd pwysicaf i sicrhau ei bod yn cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'n allweddol bwysig, felly, bod ein hysgolion yn gweithredu i drwytho ein pobl ifanc yn yr iaith, i roi sgiliau ieithyddol cadarn iddynt a chreu ethos sy'n hybu defnydd o'r iaith yn yr ysgol a thu hwnt.

Mae diddordeb mawr mewn addysg Gymraeg ymhlith aelodau Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd, a chynghorwyr eraill. Rydym yn falch o'r gwaith arloesol a wneir yn ysgolion Gwynedd a'r ymroddiad amlwg i addysg cyfrwng Cymraeg sydd gan yr Awdurdod Addysg a'r staff yn ein hysgolion. Rydym yn nodi hefyd Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), sy'n cynnwys targedau ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr. Serch hynny, mae rhai pryderon yn codi: y cwymp a amlygwyd gan y cyfrifiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir, yn enwedig ymhlith y rhai oed ysgol; effeithiau'r pandemig ar bobl ifanc a'r tarfu ar eu haddysg a phryder efallai na fydd y targedau a'r dyheadau yn y CSGA yn cael eu cyflawni.

Mae'r ymchwiliad craffu hwn yn edrych ar y sector uwchradd, a'r 12 ysgol (allan o 14) sydd wedi'u dynodi yn Gategori 3, yn ôl system categoreiddio ieithyddol newydd Llywodraeth Cymru. Dewiswyd tair o'r rhain, Ysgolion Dyffryn Nantlle, Eifionydd a Godre'r Berwyn. Anfonwyd holiaduron i'r ysgolion hyn, craffwyd ar eu dogfennaeth a chynhaliwyd cyfarfodydd â swyddogion o'r Adran Addysg, cyn ymweld â'r ysgolion a siarad â'r penaethiaid a staff, disgyblion a llywodraethwyr.

Yn ystod yr ymchwiliad adnabuwyd llawer o bethau calonogol yn ogystal â materion sy'n codi pryder ac yn rhwystro'r nod o gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg. Rydym wedi cynnwys argymhellion ac awgrymiadau yn yr adroddiad, gan ganolbwyntio ar faterion y mae'r Adran Addysg yn gallu eu cyflawni ond hefyd yn rhoi sylw i faterion lle gall cyrff eraill weithredu ac lle dylai Cyngor Gwynedd geisio dwyn perswâd arnynt.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb yn yr ysgolion sydd wedi rhoi o'u hamser i'n croesawu a siarad â ni yn agored a huawdl am eu profiadau addysgol; i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion yn yr Adran Addysg, i'r swyddogion Cefnogaeth Gorfforaethol am eu cymorth gyda'r gwaith ac i'm cyd-aelodau.

**Y Cynghorydd Paul Rowlinson**
**Cadeirydd yr Ymchwiliad**

# 1. Argymhellion

1. Bod yr Awdurdod Addysg yn gwneud ceisiadau blynyddol i'r ysgolion am ddata cyfrwng iaith eu darpariaeth ac yn gwirio'r sefyllfa.
2. Bod yr Awdurdod Addysg yn rhoi targedau penodol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob ysgol uwchradd, sydd yn gydnaws â'r targedau sirol, gan fonitro cyflawniad.
3. Bod yr Awdurdod Addysg yn gofyn eto i CBAC gyhoeddi bob blwyddyn faint o ymgeiswyr sydd yn cwblhau papurau arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer pob pwnc. Dylid cyhoeddi'r ffigyrau ar lefelau cenedlaethol a sirol a rhoi ffigyrau ysgolion unigol i'r ysgolion hynny.
4. Bod yr Awdurdod Addysg yn addasu'r Polisi Iaith enghreifftiol ar gyfer ysgolion gan roi mwy o bwyslais ar y Gymraeg a'i wneud yn gliriach o ran beth a olygir wrth "ddwyieithrwydd".
5. Bod yr Awdurdod Addysg yn amlinellu'n ddiamwys ei safbwynt o ran delio ag apeliadau i geisiadau a wrthodwyd gan ysgolion i newid cyfrwng y dysgu i'r Saesneg ar gyfer dysgwyr penodol.
6. Bod yr Awdurdod Addysg yn datblygu ac yn cynyddu'r cydweithio â'r ddwy ysgol Categori 3T mewn modd fydd yn cyflymu eu taith i fod yn ysgolion Categori 3.
7. Bod yr Awdurdod Addysg mewn partneriaeth ag ysgolion yn dod o hyd i ffyrdd newydd o hyrwyddo'r budd o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
8. Bod yr Awdurdod Addysg yn cryfhau'r bartneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan roi pwyslais ar ddangos i bobl ifanc a rhieni bod amrediad eang o gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch ac addysg bellach.
9. Dylai'r Awdurdod roi mwy o ganllawiau/hyfforddiant ar sut i addysgu hwyrddyfodiaid nad oes ganddynt Gymraeg na Saesneg. Dylai'r Awdurdod Addysg hefyd ystyried defnyddio enghreifftiau o lwyddiannau dysgwyr gan hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Yn yr un modd, dylid cyfathrebu'r manteision i hwyrddyfodiaid o fynychu Canolfan Iaith gan adrodd ar brofiad dysgwyr penodol a chyfleu persbectif eu rhieni er mwyn arddangos i rieni eraill y budd i'w plant o fynychu Canolfan Iaith.
10. Bod yr Awdurdod Addysg yn cryfhau'r ddarpariaeth / cefnogaeth ieithyddol i hwyrddyfodiaid sydd yn ymuno ym mlwyddyn 10 neu 11.
11. Bod yr Awdurdod Addysg yn cydweithio â sefydliadau eraill a Menter Iaith Gwynedd er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc.
12. Dylai'r Awdurdod Addysg hyrwyddo'r cynnig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim ar gyfer athrawon sydd yn dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.

13. Bod yr Awdurdod Addysg yn hyrwyddo’r cyfleoedd/buddion yn deillio o ddysgu yn y sir er mwyn denu mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg i weithio yng Ngwynedd. Dylai hefyd gefnogi’r ymdrechion i gynyddu nifer yr athrawon dwyieithog sydd ar gael i Gymru gyfan.
14. Bod yr Awdurdod Addysg yn gwneud cais bod Uwch Dimau Rheoli Ysgolion Uwchradd yn rhoi sylw penodol i’w darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan ei roi ar raglenni cyfarfodydd yn rheolaidd.
15. Bod yr Awdurdod Addysg yn gwneud cais i’r Fforwm Penaethiaid Uwchradd bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eitem ar raglen cyfarfodydd y Fforwm o leiaf un waith y flwyddyn.
16. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i’r afael â’r diffyg adnoddau astudio yn y Gymraeg yn enwedig ar-lein.
17. Bod yr Awdurdod Addysg yn cynnal trafodaethau gyda GwE yng nghyswllt cefnogaeth ar faterion penodol/unigryw i’r Sir.

## 2. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

**2.1** Bu i aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi adnabod bod angen rhoi sylw i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgolion Uwchradd y Sir. Rydym yn ymfalchïo yn y gwaith arloesol sydd i'w weld yn ysgolion Gwynedd a'r ymroddiad sydd gan yr Awdurdod Addysg a'r staff yn yr ysgolion i ddatblygu a chyflwyno addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn gosod targedau ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Pwrpas yr ymchwiliad yw edrych ar y ddarpariaeth bresennol, ystyried beth allai rwystro'r Awdurdod rhag cyflawni'r targedau a gwneud argymhellion.

**2.2** Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2022, ystyriwyd brîff drafft ar gyfer yr ymchwiliad craffu. Croesawodd aelodau'r Pwyllgor y bwriad i gynnal ymchwiliad ac i wneud hynny mewn modd adeiladol gan wneud argymhellion buddiol yn seiliedig ar dystiolaeth.

**2.3** Mae gan y Fforwm Craffu (cyfarfod cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu), rôl i gynghori ar flaenoriaethu ymchwiliadau craffu a hynny yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael. Yng nghyfarfod y Fforwm ar 11 Ionawr 2023, rhoddwyd ystyriaeth i'r brîff drafft ac fe flaenoriaethwyd yr ymchwiliad.

**2.4** Mabwysiadwyd brîff yr ymchwiliad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 2 Chwefror 2023. Y prif gwestiwn yr oedd yr ymchwiliad yn edrych arno yw:

'Beth yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion uwchradd a pha gynlluniau sydd mewn lle i gynyddu'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 yng Ngwynedd?'

**2.5** Mae brîff yr ymchwiliad i'w weld yn **Atodiad 1**. Mae 12 o'r 14 ysgol uwchradd yn y sir wedi'u categoreiddio yn gategori 3, gyda'r ddwy arall yn gategori 3T, hynny yw 3 Trosiannol sef ysgolion nad ydynt eto yn bodloni meini prawf categori 3 ond sydd yn y broses drosiannol gyda chynlluniau i gyrraedd y categori hwnnw maes o law. Mae'r ymchwiliad hwn yn ystyried yr ysgolion categori 3 yn unig.

# 3. Cefndir

**3.1** Egwyddor gyffredinol sydd wedi ei nodi o ran cyfrwng addysg yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-32 yw:

"Disgwylir i holl ysgolion y sir weithredu mewn modd sydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i gynyddu a gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg."

Mae'r Cynllun Strategol wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2**.

**3.2** Un o'r deilliannau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw:

"Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg."

**3.3** Mae Polisi Iaith enghreifftiol wedi ei lunio gan yr Awdurdod Addysg gydag ysgolion yn ei addasu er defnydd yn yr ysgolion. Cyfrifoldeb Cyrff Llywodraethwyr ysgolion yw mabwysiadu Polisi Iaith ar gyfer eu hysgol. Gweler y Polisi Iaith enghreifftiol yn **Atodiad 3**.

# 4. Methodoleg

**4.1** Roedd yr ymchwiliad yn ystyried gweithrediad Polisi Iaith Addysg yr Awdurdod mewn tair ysgol uwchradd categori 3 (1 ysgol o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd). Penderfynwyd yn dilyn awgrym yr Adran Addysg edrych ar yr ysgolion canlynol ar sail y ffaith y byddai modd cynnwys ystyriaethau ôl-16 mewn 2 allan o'r 3 ysgol, sef

- Ysgol Dyffryn Nantlle
- Ysgol Eifionydd
- Ysgol Godre'r Berwyn

**4.2** Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Ymchwiliad rhwng Mawrth 2023 a Gorffennaf 2023 lle bu holl aelodau'r ymchwiliad yn bresennol. Cynhaliwyd yn ogystal ymweliad â'r tair ysgol. Bu'r cyfarfodydd a'r ymweliadau yn fodd i aelodau'r ymchwiliad gasglu tystiolaeth a thrafodwyd y canfyddiadau ac argymhellion.

**4.3** Yn y cyfarfod cyntaf, ymgyfarwyddwyd â'r brîff a gosodwyd y cyd-destun cyffredinol a chyd-destun yr ysgolion unigol. Ystyriwyd y Polisi Iaith Enghreifftiol ar gyfer ysgolion a chyflwynwyd gwybodaeth/data cefndirol am sefyllfa'r ysgolion dan sylw gan Bennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd. Mae'r data i'w weld yn **Atodiad 4**.

**4.4** Penderfynwyd yn y cyfarfod:

- Cysylltu â'r ysgolion er mwyn derbyn copi o'u Polisi Iaith a Chynlluniau Datblygu.
- Trefnu cyfarfod rhithiol arall er mwyn llunio cwestiynau i sicrhau bod yr holl ysgolion yn derbyn yr un cwestiynau. Ni fyddai holiadur yn cael ei yrru allan i'r ysgolion ond byddai rhai o'r cwestiynau a luniwyd yn cael eu rhannu cyn yr ymweliad er mwyn sicrhau bod atebion ar gael wrth ymweld.
- Darganfod pryd y byddai'n hwylus i aelodau'r ymchwiliad ymweld â'r ysgolion am ddiwrnod cyfan / rhan helaeth o ddiwrnod.
- Ymweld â'r ysgolion wyneb yn wyneb er mwyn cael ymdeimlad o'r awyrgylch a holi unigolion.
- Bod trafodaethau yn digwydd gyda'r unigolion sydd wedi cael eu rhestru yn y brîff, ynghyd â Swyddog Tracio Gallu Ieithyddol (os yn berthnasol) a Phennaeth yr Adran Gymraeg yn yr ysgolion.

**4.5** Yn y cyfarfod dilynol, rhoddwyd ystyriaeth i'r data cefndirol a gyflwynwyd yn y cyfarfod blaenorol ynghyd â data yng nghyswllt darpariaeth cyfrwng Gymraeg yr ysgolion. Roedd y data ychwanegol yn dangos sefyllfa darpariaeth cyfrwng Gymraeg yr ysgolion ar draws y Cyfnodau Allweddol gan gynnwys data yng nghyswllt pynciau galwedigaethol. Gweler y data yn **Atodiad 5**.

**4.6** Ystyriwyd Polisi Iaith a Chynlluniau Datblygu Ysgol y tair ysgol dan sylw cyn symud ymlaen i lunio cwestiynau drafft ar gyfer y gwahanol garfanau yn yr ysgolion a chytuno ar ddyddiadau i gynnal yr ymweliadau â'r ysgolion a pha aelodau fyddai'n mynychu.

**4.7** Yn dilyn y cyfarfod, mireiniwyd y cwestiynau drafft a phenderfynwyd pa gwestiynau y dylid eu hanfon ymlaen llaw at yr ysgolion. Cafwyd sgwrs ddilynol i sicrhau y byddai'r cwestiynau yn galluogi'r aelodau i gael y wybodaeth angenrheidiol er mwyn cyflawni yn unol â brîff yr ymchwiliad. Copi o'r cwestiynau yn **Atodiad 6**.

**4.8** Ymwelwyd â'r ysgolion ar y dyddiadau isod gyda'r aelodau a'r swyddogion a nodir yn bresennol:

| Ysgol | Dyddiad | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Ysgol Godre'r Berwyn | 5 Mehefin 2023 | Y Cynghorwyr Paul Rowlinson (Cadeirydd), Cai Larsen, Huw Rowlands a Rhys Tudur<br><br>Bethan Adams,<br>Swyddog Arweiniol yr Ymchwiliad |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | 9 Mehefin 2023 | Y Cynghorwyr Paul Rowlinson (Cadeirydd), Cai Larsen, Huw Rowlands a Rhys Tudur<br><br>Bethan Adams,<br>Swyddog Arweiniol yr Ymchwiliad |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Eifionydd | 15 Mehefin 2023 | Y Cynghorwyr Paul Rowlinson (Cadeirydd), Beth Lawton a Rhys Tudur<br><br>Llywela Haf Owain,<br>Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

**4.9** Manylir ar yr unigolion a gyfrannodd i'r trafodaethau yn ystod yr ymweliadau o dan y pennawd nesaf 'Y Dystiolaeth a ystyriwyd' ar dudalen 11. Mae aelodau'r ymchwiliad yn gwerthfawrogi ac yn diolch am yr amser a roddwyd iddynt a'r wybodaeth a dderbyniwyd.

**4.10** Cynhaliwyd cyfarfod o'r ymchwiliad i drafod yr ymatebion i'r cwestiynau a anfonwyd ymlaen llaw a'r ymweliadau. Trafodwyd argraffiadau'r aelodau a oedd ddim yn bresennol ar gyfer ymweliad o'r sylwadau/ymatebion a dderbyniwyd.

**4.11** Cafwyd trafodaeth yn ogystal ar ganfyddiadau ac argymhellion drafft yn deillio o waith yr ymchwiliad.

**4.12** Cyn dod i gasgliad o ran cynnwys terfynol yr adroddiad drafft, cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Aelod Cabinet Addysg a swyddogion o'r Adran Addysg.

# 5. Y dystiolaeth a ystyriwyd

**5.1** Bu i'r Grŵp Ymchwiliad Craffu ystyried tystiolaeth:

- Drwy dderbyn **cyflwyniad gan swyddogion o'r Adran Addysg ar y cyd-destun cyffredinol, y Polisi Iaith Enghreifftiol a chyd-destun yr ysgolion unigol**.

- Drwy **roi sylw i ddata cefndirol am yr ysgolion** ynghyd â **data yng nghyswllt y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn yr ysgolion**.

- Drwy **edrych ar Bolisïau Iaith a Chynlluniau Datblygu Ysgol** ysgolion yr ymchwiliad.

- **Ymweld â'r ysgolion i drafod a chynnal grwpiau ffocws**. Trafodaeth wedi ei chynnal gyda'r canlynol:

| | |
|---|---|
| **Ysgol Godre'r Berwyn** | Pennaeth, Pennaeth y Chweched Dosbarth a dysgwyr o flwyddyn 9 a 10. |
| **Ysgol Dyffryn Nantlle** | Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, Arweinydd Cwricwlwm, Prif Ddisgyblion, Disgyblion o'r Chweched Dosbarth ac aelodau o'r Fforwm Iaith ynghyd â Staff/Llywodraethwyr sy'n rhieni. |
| **Ysgol Eifionydd** | Pennaeth, Cydlynydd Iaith a Llythrennedd, Cadeirydd ac Is-gadeirydd Fforwm Iaith, Aelodau o'r Cyngor Ysgol a dysgwyr oedd wedi mynychu canolfan iaith. |

- Drwy **dderbyn ymateb ysgrifenedig i gwestiynau a anfonwyd ymlaen llaw** gan ddwy ysgol.

# 6. Prif ganfyddiadau

**6.1** Roedd y wybodaeth/data a dderbyniwyd am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ysgolion yr ymchwiliad yn galonogol. Gwelir yn Atodiad 4 bod 97.6% o'r dysgwyr CA3 yn y tair ysgol yn dilyn 80% neu fwy o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a bod 87% yn astudio o leiaf 5 pwnc heblaw Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwyd yn glir ymrwymiad yr ysgolion dan sylw i annog dysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i weithredu yn unol â'u Polisi Iaith. Mae Polisi Iaith ysgolion uwchradd Gwynedd yn ganolog i'r ddarpariaeth yn yr ysgolion.

**6.2** Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn y cyfnod clo, gwelodd yr ysgolion gynnydd yn y nifer o geisiadau i newid cyfrwng iaith y dysgu i'r Saesneg ar gyfer dysgwyr penodol. Gwelwyd tuedd i nifer y ceisiadau gynyddu wrth fynd i fyny'r blynyddoedd. Nodwyd bod rhai rhieni yn camddehongli'r Polisi Iaith, gan gredu bod y term "dwyieithog" yn golygu rhoi pwyslais cyfartal ar y ddwy iaith o ran cyfrwng dysgu.

**6.3** Mae'r tair ysgol yn ceisio sicrhau bod pob disgybl yn astudio pob pwnc ac yn sefyll pob arholiad yn Gymraeg. Pan dderbynnir ceisiadau i astudio trwy'r Saesneg, mae'r ysgolion yn gwrthod neu'n ceisio perswadio'r rhieni i newid eu meddwl. Dywedodd un ysgol ei bod yn gorfod mynd gyda dymuniad y rhiant; gellid cyfleu ystyriaethau i ddadlau dros fanteision dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ond ni ellid gorfodi. Datganwyd pryder o ran agor y llifddorau wrth ganiatáu ceisiadau. Cadarnhaodd yr Adran Addysg nad yw hyn yn wir. Mae'r Polisi Iaith yn caniatáu i ysgolion fynnu bod dysgwyr yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen gwneud y Polisi yn gliriach ar y mater hwn.

**6.4** Mae Covid-19 wedi cael effaith ar sgiliau iaith a lleferydd dysgwyr. Dylid ystyried hyn wrth asesu cynnydd yn erbyn targedau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**6.5** Gyda dyfodiad y Cwricwlwm i Gymru, nid yw'n eglur sut y bydd cyrhaeddiad dysgwyr yn cael ei fesur. Nodwyd yn ystod trafodaethau bod rhai ysgolion cynradd yn dal i ddefnyddio lefelau o dan y cyn-gwricwlwm gan ei fod yn ffon mesur y gellir ei ddefnyddio. Mynegwyd ei fod yn haws perswadio rhieni bod eu plant yn parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg pan ddefnyddir gwybodaeth o ran lefelau. Mae angen ystyried sut y mesurir cyrhaeddiad dysgwyr yn y Gymraeg gyda'r Cwricwlwm i Gymru.

**6.6** Cydnabyddir bod sefydlu Fforwm Iaith yn yr ysgolion yn gam cadarnhaol i gynnwys llais y dysgwyr. Yn un o'r ysgolion, dysgwyr ym mlwyddyn 11 sydd yn gyfrifol am y Fforwm Iaith. Nodwyd mai prif nod y Fforwm yw trefnu a chynnal gweithgareddau sydd yn annog disgyblion i siarad Cymraeg. Mae cael dysgwyr i gymryd perchnogaeth o drefnu gweithgareddau a hybu'r iaith yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr.

**6.7** Roedd yn bryder bod gan un ysgol oedd â thros 75% o aelwydydd Cymraeg ganran uwch yn nodi eu bod yn hyderus yn y Saesneg o'i gymharu â'r ganran oedd yn hyderus yn y Gymraeg.

**6.8** Wrth lunio argymhellion, mae'r ymchwiliad yn nodi rhai materion sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Addysg a materion eraill lle mae angen i'r Awdurdod Addysg geisio dwyn perswâd ar sefydliadau eraill.

**6.9** **<u>Materion o fewn rheolaeth yr Awdurdod Addysg</u>**

- Yr angen i ddiffinio addysg ddwyieithog yn gliriach yn y Polisi Iaith – mae diffyg eglurder yn creu problemau cyfathrebu efo rhieni. Mae rhai yn dehongli dwyieithrwydd i olygu bod hawl i gael pwyslais cyfartal ar y ddwy iaith o ran cyfrwng dysgu.
- Y gefnogaeth a roddir gan yr Awdurdod Addysg i'r ysgolion pan fo her i'r Polisi Iaith yn ogystal â'r ansicrwydd sydd gan yr ysgol ynghylch eu hawliau.
- Yr angen i roi targedau penodol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg i bob ysgol, targedau sydd yn gydnaws â'r targedau sirol. Fel arall, dim ond rhifau ar bapur yw'r targedau sirol, heb gynllun i'w cyrraedd.
- Yr angen i gryfhau'r bartneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan roi pwyslais ar ddangos i bobl ifanc a rhieni bod amrediad eang o gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch.
- Y dylid gofyn i Uwch Dimau Rheoli yr ysgolion roi sylw i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan ei rhoi ar agendau cyfarfodydd yn rheolaidd.
- Annog cydweithio / safonau cyffredin rhwng ysgolion.
- Gan nad yw dysgwyr yn mynychu canolfannau iaith ar ôl blwyddyn 9 mae'n dod â mwy o Saesneg i gyfrwng llafar dysgu'r blynyddoedd hynny.

- Bod angen ystyried ffyrdd o addasu'r berthynas gyda GwE – yn arbennig felly mewn perthynas â chael mwy o sgôp i osod disgwyliadau sir benodol ar y consortiwm.
- Dylid ystyried y berthynas rhwng Anghenion Dysgu Ychwanegol ac astudio yn y Saesneg.
- Gweithio yn fwy dwys efo ysgolion penodol i gynnig mwy o addysg cyfrwng Cymraeg.
- Y dylid cywain, coladu a monitro ystadegau yn fwy trylwyr a chyson.

## 6.10 Materion lle mae dylanwad yr Awdurdod Addysg yn fwy cyfyng

- Canfyddiadau ESTYN o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Diffyg cyrsiau addysg uwch yn y Gymraeg.
- Diffyg / cost adnoddau cyfrwng Cymraeg.
- Penderfyniadau bwrdd llywodraethu rhai ysgolion.
- Dysgwyr eisiau mynd i brifysgolion yn Lloegr.
- Dim digon o adnoddau ar-lein yn y Gymraeg.
- Darparwyr allanol ddim yn defnyddio’r Gymraeg. Nifer o gyrsiau a ddarperir ganddynt ar gael yn y Saesneg yn unig.
- Dymuniadau rhai rhieni.

# 7. Argymhellion

Gwynedd yw'r sir fwyaf blaenllaw yng Nghymru o ran addysg Gymraeg. Er mwyn parhau ar y siwrnai, mae'r Ymchwiliad wedi adnabod argymhellion er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ysgolion uwchradd Gwynedd. Manylir isod ar y canfyddiadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad sydd wedi arwain at lunio'r argymhellion.

## Data a Thargedau

Hoffai'r tîm weld data cadarn lle mae modd gweld faint o addysg a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn galluogi'r Awdurdod i fesur cynnydd. Derbyniwyd data cyfrwng iaith darpariaeth yr ysgolion penodol. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.1 uchod, roedd y data a dderbyniwyd am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ysgolion yr ymchwiliad yn galonogol ond nododd un Pennaeth mai dim ond yn ddiweddar y cychwynnodd yr awdurdod gasglu'r data.

Pwysleisiodd un Pennaeth yr angen i wirio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob ysgol uwchradd. Gallai'r modd y mae ysgolion yn adrodd/dehongli data fod yn wahanol a ddim yn cyfleu'r wir sefyllfa mewn ffordd gymharol.

Credir drwy gywain, coladu a monitro ystadegau yn fwy trylwyr a chyson y bydd yn annog ysgolion uwchradd i gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Argymhelliad 1 – Bod yr Awdurdod Addysg yn gwneud ceisiadau blynyddol i'r ysgolion am ddata cyfrwng iaith eu darpariaeth ac yn gwirio'r sefyllfa.**

Mae'r ysgolion a oedd yn rhan o'r ymchwiliad yn ymwybodol o'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-32 (CSGA).

Nodwyd nad oedd llawer o fonitro cyn y CSGA presennol. Roedd cais wedi ei wneud am ddata yn y misoedd cyn yr ymchwiliad. Daeth i'r amlwg nad oedd targedau yn cael eu gosod i ysgolion gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg gan yr Awdurdod Addysg na GwE. Nodwyd bod yr Awdurdod Addysg wedi gwneud cais yn ddiweddar i bob ysgol uwchradd gael o leiaf un

flaenoriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg yn eu Cynllun Datblygu Ysgol a monitro'r gwaith. Eglurwyd bod yr ysgolion yn ymatebol i geisiadau gan yr Awdurdod Addysg a GwE.

Mynegwyd bod ysgolion yn ymateb i flaenoriaethau Llywodraethwyr yr ysgol yn hytrach na'r Awdurdod Addysg. Mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn y byddai gosod targedau penodol o ran cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i bob ysgol uwchradd gan fonitro cyflawniad yn fodd o sicrhau cyrraedd y targed sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32.

> **Argymhelliad 2 – Bod yr Awdurdod Addysg yn rhoi targedau penodol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob ysgol uwchradd, sydd yn gydnaws â'r targedau sirol, gan fonitro cyflawniad.**

Un mesur o faint o addysg a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg yw nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau allanol yn Gymraeg. Mewn dwy o'r tair ysgol roedd dysgwyr yn derbyn un papur arholiad yn unig tra bod y llall yn darparu copïau Cymraeg a Saesneg o'r papurau arholiad i'r dysgwyr. Yn yr ysgol honno byddai rhai dysgwyr a oedd wedi astudio'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn penderfynu cwblhau'r papur Saesneg yn yr arholiad. O'r herwydd nid yw'n bosib cael sicrwydd faint o ddysgwyr sydd yn cwblhau papur arholiad yn Gymraeg.

Ategodd y Pennaeth bod y nifer sydd yn gofyn am bapur arholiad cyfrwng Saesneg wedi cynyddu yn ddiweddar er bod y dysgwyr wedi astudio'r pwnc drwy'r Gymraeg drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Yn sgil hyn mae'r ysgol yn gofyn i bawb gadarnhau ar bapur ym mha iaith maent yn dymuno cwblhau'r arholiad er mwyn cadw golwg ar y sefyllfa. Fodd bynnag, nodwyd mai'r unig ffordd y gellir monitro'r gwir sefyllfa yw gofyn i CBAC am ffigyrau niferoedd sydd yn cwblhau papurau arholiad ar gyfer pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Nododd y byddai hyn yn rhoi data caled a chywir o'r wir sefyllfa. Awgrymodd y byddai hyn yn ffordd effeithiol o gael y darlun sirol a chenedlaethol.

Mae aelodau'r ymchwiliad yn cydsynio â'r safbwynt yma ac o'r farn y byddai derbyn data ar y nifer o ddysgwyr sydd yn cwblhau papurau arholiad ar gyfer pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan CBAC yn werthfawr. Nododd yr Awdurdod eu bod wedi gofyn i CBAC am ddata o'r fath ond bod CBAC wedi gwrthod.

**Argymhelliad 3 – Bod yr Awdurdod Addysg yn gofyn eto i CBAC gyhoeddi bob blwyddyn faint o ymgeiswyr sydd yn cwblhau papurau arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer pob pwnc. Dylid cyhoeddi'r ffigyrau ar lefelau cenedlaethol a sirol a rhoi ffigyrau ysgolion unigol i'r ysgolion hynny.**

## Polisi Iaith

Darperir Polisi Iaith Addysg enghreifftiol gan yr Awdurdod Addysg ar gyfer ysgolion (Atodiad 3). Nododd un Pennaeth nad oedd yr ysgol yn gallu newid y Polisi Iaith enghreifftiol, dim ond ei addasu i weddu i'r ysgol. I'r gwrthwyneb mewn ysgol arall, nodwyd yn ystod sgwrs gyda staff a rhieni sydd yn llywodraethwyr, bod Polisi Iaith yr ysgol yn cael ei adolygu yn flynyddol ac nad oedd angen ei newid gan ei fod dal yn addas ac yn parhau i adlewyrchu sefyllfa'r ysgol. Roedd y tair ysgol yn ymrwymedig i weithredu yn unol â'u Polisi Iaith.

Mae'r Polisi yn nodi, ar gyfer disgyblion sydd â hyfedredd yn y Gymraeg y "disgwylir y bydd cyfran helaeth o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg" (tudalen 4 y polisi) gan nodi mai eu hanghenion ieithyddol yw "addysg ddwyieithog" (tudalen 5 y polisi). Cymraeg felly yw cyfrwng addysg yr ysgolion.

Dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau a gyflwynwyd i'r ysgolion gan rieni i newid y cyfrwng dysgu i Saesneg ar gyfer dysgwyr penodol wedi cynyddu. Cyn y cyfnod clo roedd yr ysgolion yn derbyn un neu ddau o geisiadau i newid cyfrwng y dysgu ond mae'r niferoedd yn uwch ers hynny. Mae hyn yn amlwg yn ei gwneud yn fwy anodd cynyddu'r niferoedd sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly mae'r adran hon yn yr adroddiad yn edrych ar y rhesymau pam nad yw rhai disgyblion a'u rhieni yn awyddus i dderbyn addysg Gymraeg a beth y gellir ei wneud i wrthsefyll y duedd hon.

Derbyniwyd enghreifftiau lle mae'r term 'dwyieithrwydd' yn y Polisi Iaith yn cael ei gamddehongli. Roedd rhai rhieni dan y camargraff bod y polisi yn golygu hawl i ddwyieithrwydd llawn, gyda phwyslais cyfartal ar y ddwy iaith. Nododd un Pennaeth felly nad oedd yn cytuno'n llwyr â'r pwyslais ar ddwyieithrwydd yn y Polisi Iaith enghreifftiol.

Ymhelaethodd y byddai'n fanteisiol gwneud y Polisi Iaith enghreifftiol yn fwy clir ac yn llai amwys. Roedd o'r farn y byddai'n golygu bod pawb yn gwybod beth yw'r sefyllfa o'r cychwyn ac y byddai'n arf o ran siarad gyda rhieni yng nghyswllt newid iaith.

Nodwyd y cyfeirir at y Polisi Iaith wrth annog/cefnogi dysgwyr i barhau i astudio pynciau trwy'r Gymraeg. Eglurwyd bod y Pennaeth neu Bennaeth Blwyddyn yn delio â cheisiadau i newid cyfrwng dysgu pynciau o'r Gymraeg yn hytrach na'r athro/athrawes pwnc yn yr ysgol honno.

O ddata un ysgol oedd â thros 75% yn siarad Cymraeg, nodwyd bod canran uwch o blant yn nodi eu bod yn hyderus yn y Saesneg na'r ganran oedd yn nodi eu bod yn hyderus yn y Gymraeg. Nodir hyn fel mater o bryder a chredir y dylai'r Polisi roi mwy o bwyslais ar y Gymraeg fel y gall plant fod yn gwbl rhugl ynddi.

Mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn bod diffinio addysg ddwyieithog yn gliriach yn y Polisi Iaith enghreifftiol yn angenrheidiol gan fod diffyg eglurder yn creu problemau cyfathrebu gyda rhieni. Gofynnir i'r Awdurdod Addysg ailedrych ar y Polisi Iaith enghreifftiol a'i addasu / gryfhau yn ôl yr angen.

> **Argymhelliad 4 – Bod yr Awdurdod Addysg yn addasu'r Polisi Iaith enghreifftiol ar gyfer ysgolion gan roi mwy o bwyslais ar y Gymraeg a'i wneud yn gliriach o ran beth a olygir wrth "ddwyieithrwydd".**

Yn yr un modd ag y mae angen eglurder o ran y Polisi Iaith, mae angen eglurder a chysondeb yn y modd y delir â chwynion neu apeliadau o ran newid cyfrwng y dysgu i'r Saesneg. Gwelir yr angen i'r Awdurdod Addysg ddarparu canllaw at ddefnydd yr ysgolion gan y byddai arweiniad gan yr Awdurdod o fudd i'r ysgolion. Byddai'n golygu nad oes amwyster os gwneir penderfyniadau ar sail yr un egwyddorion. Wrth weithredu yn gyson ar draws yr ysgolion uwchradd byddai'n rhoi sicrwydd i rieni bod pob cais yn cael ei drin yn deg.

Nodwyd mewn un ysgol bod yr Awdurdod Addysg mewn eithriadau yn penderfynu bod dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn astudio drwy gyfrwng y Saesneg.

Nododd un Pennaeth fod angen i'r Awdurdod Addysg farchnata'r Polisi Iaith enghreifftiol gyda rhieni gan ei bod yn teimlo bod yr ysgol ar ei phen ei hun braidd wrth ddadlau ac egluro'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn y Polisi Iaith.

Cyfeiriwyd at gais gan rieni i'w plentyn drosglwyddo i un o'r ysgolion categori 3T. Eglurwyd bod y dysgwr yn rhugl yn y Gymraeg ond gan fod y tad yn ddi-Gymraeg, ei fod o'r farn y byddai'n gallu rhoi mwy o gymorth i'w blentyn. Cafodd y cais ei wrthod gan nad oedd lle yn yr ysgol honno ond mae pryder yn aros y gall dysgwyr wneud cais i drosglwyddo oherwydd y cyfrwng dysgu.

Nodwyd bod yr ysgol yn gorfod mynd gyda dymuniad y rhiant o ran newid y cyfrwng iaith ar gyfer astudio pynciau. Eglurir yr ystyriaethau ond ni ellir gorfodi. Datganwyd pryder o ran agor y llifddorau wrth ganiatáu ceisiadau ynghyd â phryder bod y ceisiadau ar gynnydd ac yn fwy na'r hyn a welwyd tros y blynyddoedd a fu.

Nododd un Pennaeth y byddai o gymorth petai'r Awdurdod Addysg yn cefnogi safbwynt ysgol mewn ffordd fwy hyderus pan dderbynnir ceisiadau i newid iaith y dysgu ar gyfer dysgwyr penodol. Mynegwyd bod y dysgwyr dan sylw yn gallu sefyll arholiad yn Gymraeg. Teimlwyd y byddai'r gefnogaeth i ysgolion yn rhoi hyder iddynt eu bod yn darparu'r atebion cywir yn hytrach na bod y rhieni yn arwain. Dywedodd yr Awdurdod wrth yr ymchwilwyr fod y polisi iaith yn galluogi'r ysgolion i wrthsefyll y ceisiadau hyn ond mae'n glir fod yr ysgolion yn teimlo bod arnynt angen mwy o gefnogaeth.

**Argymhelliad 5 – Bod yr Awdurdod Addysg yn amlinellu'n ddiamwys ei safbwynt o ran delio ag apeliadau i geisiadau a wrthodwyd gan ysgolion i newid cyfrwng y dysgu i'r Saesneg ar gyfer dysgwyr penodol.**

Nodwyd bod darpariaeth yr ysgolion uwchradd categori 3T (Ysgol Friars ac Ysgol Tywyn) yn her oherwydd bod rhai dysgwyr yn fodlon teithio cryn bellter i'w mynychu oherwydd cyfrwng iaith y ddarpariaeth. Awgrymwyd er mwyn gwireddu gweledigaeth Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg bod angen i'r ysgolion hyn gynyddu'r niferoedd sydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn flynyddol. Gan fod ysgolion categori 3 eisoes yn darparu addysg Gymraeg i ganran uchel iawn o ddysgwyr, dyma'r unig ffordd o gyrraedd y targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Nododd swyddog o'r Adran Addysg fod cynlluniau cadarn yn eu lle i wneud hynny.

Byddai hyn o gymorth i atal dysgwyr rhag eithrio eu hunain o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy symud i ysgol arall.

**Argymhelliad 6 – Bod yr Awdurdod Addysg yn datblygu ac yn cynyddu'r cydweithio â'r ddwy ysgol Categori 3T mewn modd fydd yn cyflymu eu taith i fod yn ysgolion Categori 3.**

## Hyrwyddo Buddion Addysg Gymraeg

Dylid cyfleu i rieni'r buddion o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn golygu bod gan eu plant sgil ychwanegol gyda'r gallu i gyfathrebu mewn dwy iaith, wrth siarad ac ysgrifennu. Fel y nodir ar wefan Llywodraeth Cymru ar y dudalen we 'Parhau gydag addysg cyfrwng Cymraeg':

> "**Dros Gymru mae mwy o gyflogwyr nag erioed o'r blaen yn chwilio am staff gyda sgiliau dwyieithog**
>
> Mae dros draean o gyflogwyr yn credu bod sgiliau iaith Gymraeg yn bwysig ar gyfer eu gwasanaeth cwsmer, ac mae dros chwarter cyflogwyr yn credu y byddent yn elwa o gael mwy o sgiliau iaith Gymraeg. Mae sgiliau dwyieithog plant yn datblygu orau wrth gael eu defnyddio bob dydd, ac mae addysg Gymraeg neu ddwyieithog yn rhoi cyfle i blentyn ddatblygu ei sgiliau gan ddod yn fwy rhugl a hyderus."[1]

Wrth siarad â'r disgyblion daeth yn amlwg bod rhai yn dal i gredu rhai credoau negyddol, sef:

- y gred bod gwneud pynciau yn Gymraeg yn anfanteisiol wrth fynd ymlaen i'r brifysgol, yn enwedig pynciau gwyddonol/mathemategol, bod y termau yn wahanol iawn. Mewn gwirionedd, mae llawer o'r termau yr un fath yn y ddwy iaith, gyda sillafiad gwahanol; lle mae gwahaniaethau mae'n hawdd dysgu'r termau yn y ddwy iaith ar yr un pryd
- y gred y gall rhieni di-Gymraeg helpu eu plant os ydynt yn astudio trwy'r Saesneg ond nid trwy'r Gymraeg. Mewn gwirionedd, mae'r broses lle mae'r dysgwr yn egluro testun Cymraeg i'w riant a'i drafod yn Saesneg ac yna yn ateb y cwestiwn yn Gymraeg yn aml yn sicrhau dealltwriaeth a dysgu mwy trwyadl
- y gred ymysg rhai rhieni a phlant bod y Saesneg yn haws na'r Gymraeg yn y gwyddorau (gweler yr adran Adnoddau Cymraeg ar dudalennau 31-33).

[1] Llywodraeth Cymru, Parhau gyda addysg cyfrwng Cymraeg - https://www.llyw.cymru/cymraeg-addysg/ysgolion/parhau-gyda-addysg-cyfrwng-cymraeg. Gwelwyd 01.08.2023

Nodwyd bod rhai rhieni yn teimlo'n gryf y dylai eu plant astudio pynciau o TGAU ymlaen drwy'r Saesneg ac yn bygwth symud eu plant o'r ysgol. Mynegwyd bod y sefyllfa yn wahanol pan fo cais i newid iaith yng nghyswllt dysgwyr gydag anghenion ychwanegol.

Eglurodd un ysgol eu bod yn cynnal ffair ar gyfer dysgwyr blwyddyn 9 cyn iddynt ddewis eu pynciau TGAU gan gyfleu yno bwysigrwydd y Gymraeg. Mae hyn yn arfer da a gallai ysgolion ystyried manteisio ar y broses dewis pynciau TGAU fel cyfle i hyrwyddo astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran dewis iaith dysgwyr yn y chweched dosbarth yn un o'r ysgolion, roedd oddeutu dau neu dri dysgwr yn arfer astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn y gorffennol ond erbyn hyn mae hanner y dosbarth yn astudio drwy gyfrwng y Saesneg.

Mae'r data a'r wybodaeth a dderbyniwyd mewn trafodaethau fel rhan o'r ymchwiliad yn dangos bod sefyllfa ieithyddol yr ysgolion uwchradd hyn wedi newid dros y blynyddoedd. Nodwyd mewn un ysgol fod 20 o ddysgwyr o gefndir di-Gymraeg ym mlwyddyn 7, er bod plant cynhenid yr ardal yn cadw eu Cymreictod. Datganwyd mewn ysgol arall fod 81% o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl gyda chwarter y dysgwyr yn dod o aelwydydd Saesneg. Mae hyn yn adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd dan sylw.

**Argymhelliad 7 – Bod yr Awdurdod Addysg mewn partneriaeth ag ysgolion yn dod o hyd i ffyrdd newydd o hyrwyddo'r budd o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.**

## Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Holwyd yr ysgolion am eu cyswllt/perthynas â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Nodwyd mewn un ysgol bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dod i mewn yn achlysurol a dywedodd ysgol arall fod swyddog o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dod i'r ysgol unwaith y flwyddyn.

Amlygodd sgwrs gyda thrawstoriad o ddysgwyr bod y ddarpariaeth yn y prifysgolion yn ffactor sydd yn cael effaith ar ddewisiadau o ran dewis iaith astudio yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 5. Mynegwyd oherwydd bod cyrsiau yn Saesneg yn y brifysgol nad oedd

cymaint o bwrpas astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod trafodaethau yn y chweched dosbarth yn Gymraeg gyda rhai yn cwblhau traethodau yn Saesneg ac eraill yn Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y colegau a'r prifysgolion yn cael dylanwad ar ddysgwyr gan eu gwneud yn fwy tebygol o ddewis astudio pynciau drwy'r Saesneg. Roedd un dysgwr yn gwneud cwrs Peirianneg lefel 3 yng Ngholeg Menai a chan fod bwrdd arholi Pearsons yn fwy Seisnigaidd roedd yr adnoddau yn Saesneg. Nododd ei fod yn gyfforddus yn astudio yn y Gymraeg ond yn gobeithio dilyn cwrs ym Mhrifysgol Abertawe yn Saesneg a bod ystyriaethau o ran y cyd-destun rhyngwladol.

Esiamplau eraill yw:

- Dysgwr yn astudio pwnc yng Ngholeg Menai ac yn Ysgol Gyfun Llangefni gyda'r ddarpariaeth yn gyfrwng Saesneg. Yr adnoddau a'r cyn bapurau yn Saesneg ond yn bersonol yn fwy cyfforddus yn ei wneud yn Gymraeg.
- Dysgwr yn gwneud cwrs ffotograffiaeth drwy gyfrwng y Saesneg. Darpariaeth Gymraeg ar gael ond anfantais ysgrifennu yn Gymraeg pan na ellir gwneud yn y brifysgol.

Mae angen codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion. Credir bod rôl allweddol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo buddion addysg uwch ac addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg a dylanwadu ar brifysgolion i gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Argymhelliad 8 – Bod yr Awdurdod Addysg yn cryfhau'r bartneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan roi pwyslais ar ddangos i bobl ifanc a rhieni bod amrediad eang o gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch ac addysg bellach.**

## Hwyrddyfodiaid

Credir bod angen yn ogystal cyfleu i rieni mor fuddiol ydyw i'w plant fynychu canolfannau iaith. Holodd aelodau'r ymchwiliad dysgwyr oedd wedi mynychu'r canolfannau iaith ac roeddent yn awyddus i wybod pa effaith a gafwyd wedyn. Mewn un ysgol byddai rhai o'r dysgwyr hyn yn astudio pynciau TGAU / Lefel A yn Gymraeg ac eraill ddim. Nodwyd nad

oeddent yn astudio yn gyfan gwbl yn Gymraeg ond roeddent yn teimlo yn fwy o ran o'r ysgol ac yn teimlo yn gyfforddus i ofyn am gymorth. Roedd ganddynt deimlad mwy o berthyn i'r ysgol ar ôl dysgu Cymraeg. Profiad ysgol arall yw bod y dysgwyr a oedd wedi mynychu canolfan iaith fel arfer yn cwblhau arholiadau yn Saesneg. Mynegwyd bod agweddau cadarnhaol at fynychu canolfan iaith. Roedd y penderfyniad i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu beidio yn dibynnu i raddau pryd roeddent wedi cyrraedd yr ysgol a hefyd ar benderfyniad y dysgwr unigol. Er enghraifft gallai brodyr a chwiorydd gyrraedd ar yr un pryd ond dilyn trywydd ieithyddol gwahanol wedyn.

Derbyniwyd cadarnhad gan un ysgol fod pob hwyrddyfodiad yn mynychu canolfan iaith. Eglurwyd bod gwaith perswadio rhieni weithiau y dylai eu plentyn fynychu.

Manylwyd bod dysgwyr sydd wedi mynychu canolfan iaith yn cael cymorth ychwanegol ac fe ddarperir nodiadau dwyieithog iddynt. Nodwyd bod rhai dysgwyr yn ymdopi'n well nag eraill gyda rhai yn dilyn cwrs iaith gyntaf ac eraill yn aros yn yr un dosbarth ond yn dilyn cwrs ail iaith.

Mewn un ysgol, adroddwyd bod nifer o ddisgyblion di-Gymraeg wedi mynychu canolfan iaith ac y rhoddir anogaeth gref iddynt fanteisio ar y cyfle. Pan fo teuluoedd yr hwyrddyfodiaid yn ymweld â'r ysgol am y tro cyntaf eglurir iddynt mai'r Gymraeg sydd yn cael ei defnyddio a'i hybu fel prif iaith yr ysgol er bod yr ysgol yn ysgol ddwyieithog. Ymhelaethwyd bod y disgyblion yn dychwelyd o'r ganolfan iaith i'r ysgol yn gallu siarad a deall Cymraeg ond yn aml nad oes ganddynt ddigon o hyder i'w siarad.

Mynegwyd pryder bod rhai disgyblion yn gwrthod y cynnig i fynychu canolfan iaith a bod hynny i weld ar gynnydd. Eglurwyd bod rhai, gan gynnwys Wcrainiaid, wedi penderfynu peidio mynd oherwydd eu bod yno am gyfnod byr ond bod eraill sydd yn bwriadu aros yn yr ardal hefyd yn gwrthod y cynnig. Ategwyd yr hoffid gweld trefn mewn lle sydd yn gorfodi pawb i fynychu'r ganolfan iaith ond nid oes gan yr Awdurdod hawl i wneud hynny.

Nododd y Pennaeth fod y patrwm newydd lle mae'r disgyblion yn mynychu'r ganolfan iaith am bedwar diwrnod yr wythnos ac yn dychwelyd i'w hysgol ar 5ed diwrnod yn gweithio'n dda gan ei fod yn rhoi cyfle i'r disgyblion wneud ffrindiau a chymdeithasu gyda disgyblion eraill yn

yr ysgol. Ymddengys bod y disgyblion sydd yn siarad Saesneg ac iaith arall pan fyddant yn mynychu'r ganolfan iaith yn gweld dysgu Cymraeg yn haws.

Ar ôl dychwelyd i'r ysgol mae'r dysgwyr yn dilyn cwrs ail iaith gyda'r uwch gymhorthydd. Ar rai achlysuron, pan fo staff yn brin, mae'n rhaid i'r dysgwyr ymuno mewn dosbarthiadau eraill ar gyfer dysgwyr mamiaith.

Nododd dysgwyr a fynychodd ganolfan iaith uwchradd nad oeddent yn siarad Cymraeg ar y buarth gyda'u ffrindiau oherwydd diffyg hyder. Serch hynny roeddent yn dweud eu bod yn hynod falch o'r cyfle a gafwyd i ddysgu'r Gymraeg a dysgu am ddiwylliant Cymru. Ymhelaethodd y dysgwyr bod mynychu'r ganolfan drochi wedi eu harfogi i allu dilyn sgwrs a gwers yn yr ysgol a deall beth oedd yn digwydd pan fo eraill yn siarad Cymraeg. Roeddent hefyd yn agored i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y dyfodol.

Mae angen i athrawon ddatblygu sgil arbennig wrth addysgu dosbarth lle bo dysgwyr di-Gymraeg. Cafwyd esiampl yn un o'r ysgolion lle bo dysgwyr o Wcráin heb Gymraeg na Saesneg yn cael eu haddysgu. Manylwyd bod athrawon yn defnyddio *Google Translate* yn y dosbarth i gyfathrebu gyda'r dysgwyr ac i egluro'r gwaith roeddent i'w wneud. Eglurwyd nad oedd cymhorthydd ar gyfer y dysgwyr yma gydag athrawon yn addasu ac yn meithrin sgil anodd. Nodwyd y croesewir pe byddai arfer da mewn sefyllfa o'r fath yn cael ei rannu.

> **Argymhelliad 9 – Dylai'r Awdurdod roi mwy o ganllawiau/hyfforddiant ar sut i addysgu hwyrddyfodiaid nad oes ganddynt Gymraeg na Saesneg. Dylai'r Awdurdod Addysg hefyd ystyried defnyddio enghreifftiau o lwyddiannau dysgwyr gan hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Yn yr un modd, dylid cyfathrebu'r manteision i hwyrddyfodiaid o fynychu Canolfan Iaith gan adrodd ar brofiad dysgwyr penodol a chyfleu persbectif eu rhieni er mwyn arddangos i rieni eraill y budd i'w plant o fynychu Canolfan Iaith.**

Dysgwyr i fyny at flwyddyn 9 yn unig sy'n mynychu canolfannau iaith yng Ngwynedd. Cydnabyddir nad yw'n ymarferol bod hwyrddyfodiad sydd yn ymuno ag ysgol ym mlwyddyn 10 neu 11 yn mynychu Canolfan Iaith am gyfnod wrth astudio ar gyfer TGAU. Serch hynny, mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn bod angen darpariaeth/cefnogaeth ieithyddol i'r

hwyrddyfodiaid hyn ar ryw ffurf. Teimlid bod y diffyg o ran cyflwyno'r Gymraeg iddynt yn golled i'r dysgwyr ac yn eu hatal rhag teimlo eu bod yn perthyn.

Nododd un Pennaeth fod treulio tymor mewn canolfan iaith yn ei gwneud yn haws iddynt gaffael yr iaith. Ymhelaethodd ei bod yn anodd cynnwys dysgwyr Saesneg eu hiaith pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol ym mlwyddyn 10 neu 11 a pheri iddynt deimlo'n rhan o'r ysgol.

Manylodd, pan fo dysgwyr di-Gymraeg yn cyrraedd ym mlwyddyn 10 ac 11, ei bod yn anorfod bod newid rhwng y ddwy iaith. Byddai'r athrawon yn gwneud y cyflwyniadau yn Gymraeg ac yna yn siarad â'r dysgwyr dan sylw yn Saesneg. Nodwyd nad oes cymhorthyddion ar gyfer y dysgwyr yma. Mae angen sgil arbennig ar yr athrawon i addasu eu dull dysgu fel hyn.

Nodwyd mewn ysgol arall y dylid ystyried cynnig lle i ddisgyblion uwchradd hŷn hefyd yn y canolfannau iaith gan fod rhai'n dymuno dysgu Cymraeg.

Byddai gwybodaeth/sesiwn o ran ymwybyddiaeth iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn opsiwn. Drwy fod yn fwy ymwybodol o'r sefyllfa ieithyddol a'r hanes tu ôl i frwydro dros yr iaith Gymraeg gall roi persbectif gwahanol i'r dysgwyr o ran pwysigrwydd yr iaith. Gallai hyn yn ei dro alluogi dysgwyr eraill/athrawon i ymarfer eu cadernid iaith gan gynnwys y dysgwyr penodol mewn sgyrsiau Cymraeg ac egluro ymhellach os nad yw'r dysgwyr yn deall.

Mae ymdeimlad o berthyn yn holl bwysig. Drwy gryfhau'r ddarpariaeth/cefnogaeth ieithyddol i hwyrddyfodiaid sydd yn ymuno ag ysgol ym mlwyddyn 10 neu 11, gellid gwneud rhywbeth am y cynnydd yn nefnydd y Saesneg yng nghyfrwng llafar dysgu blwyddyn 10 ac uwch.

> **Argymhelliad 10 – Bod yr Awdurdod Addysg yn cryfhau'r ddarpariaeth / cefnogaeth ieithyddol i hwyrddyfodiaid sydd yn ymuno ym mlwyddyn 10 neu 11.**

## Ethos yr Ysgolion a Gweithgareddau Cymdeithasol

Mae ethos Cymraeg cryf yn y tair ysgol yr ymwelwyd â hwy, gyda gwasanaethau a gweithgareddau cymdeithasol yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Serch hynny, mae'r defnydd o'r

Gymraeg tu allan i’r dosbarth yn amrywio yn fawr rhwng y tair. Gwelwyd mewn un ysgol bod iaith y buarth wedi arfer bod yn gyfan gwbl Gymraeg ond erbyn hyn y clywir llawer o Saesneg. Mae nifer o blant yn newid yn naturiol o un iaith i'r llall. Pryder arall yw’r ffaith bod nifer o rieni, rhai yn gyn-ddisgyblion, yn dewis siarad Saesneg gartref gyda'u plant er eu bod yn medru’r Gymraeg.

Mewn ysgol arall, nodwyd bod iaith y coridorau yn Gymraeg a Saesneg hanner a hanner. Nodwyd yn y drydedd ysgol eu bod yn ffodus iawn yn gymdeithasol, gyda dysgwyr yn cyfathrebu yn Gymraeg gan amlaf ond gyda rhai pocedi yn fwy tueddol i newid i siarad Saesneg. Manylwyd y cynhelir diwrnod sgiliau bob hanner tymor lle ymfalchiir yng Nghymreictod a diwylliant yr ardal. Nodwyd bod y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi mwy o bwyslais ar y Gymraeg.

Datganwyd bod gweithgareddau yn fodd mwy naturiol o ddangos y defnydd o’r iaith Gymraeg.

Derbyniwyd tystiolaeth yn un o’r ysgolion eu bod yn cynnig nifer o weithgareddau cymdeithasol yn y Gymraeg. Eglurwyd ei bod yn anoddach ym mlynyddoedd 10 ac 11 oherwydd bod athrawon yn gyndyn o ryddhau dysgwyr ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol oherwydd eu bod yn astudio ar gyfer arholiadau. Roedd ymatebion i holiadur llais y dysgwr wedi amlygu bod dysgwyr blwyddyn 11 yn dymuno cael mwy o weithgareddau cymdeithasol.

Awgrymodd rhiant lywodraethwr y byddai cymhathu pobl sydd yn symud i mewn i’r ardal o fudd i gyrraedd nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-32. Ymhelaethwyd bod rhieni yn gallu bod yn *semi-detached* o’r gymuned oherwydd eu bod yn ddi-Gymraeg.

Nodwyd wrth i Hunaniaith symud o’r Cyngor i fod yn Fenter Iaith annibynnol y dylai weithio ar y “stwff meddal” gan annog unigolion i wneud pethau yn Gymraeg. Pwysleisiwyd yr angen i gynnal mwy o bethau cymdeithasol Cymraeg.

Yn ystod sgwrs gydag aelodau Cyngor Ysgol, cyfeiriwyd at y ffaith bod y Gymraeg a’r Saesneg yn cael eu defnyddio yn y clwb ieuenctid a bod tîm pêl-droed Cymru wedi helpu i godi proffil a chefnogi’r Gymraeg. Ymhelaethwyd bod Covid-19 wedi effeithio ar ddefnydd pobl ifanc o’r

Gymraeg yn enwedig o gofio bod y we wedi chwarae rhan allweddol ym mywydau pobl ifanc dros y cyfnod yma.

Amlygodd profiad un dysgwr ym mlwyddyn 10 enghraifft o ddysgu Cymraeg yn gwedd newid bywyd unigolyn. Nododd ei fod wedi agor drws i yrfa ym maes amaethyddiaeth yn ogystal â bywyd cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd Ffermwyr Ifanc a ffrindiau wedi chwarae rhan allweddol o ran cael cyfle i ddefnyddio Cymraeg a chodi ei hyder. Nododd fod angen mwy o glybiau cyfrwng Cymraeg fel Ffermwyr Ifanc er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol.

Nodir yn rhagair y Cadeirydd i adroddiad yr ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd:

> "Mae'n bwysig nodi ... rôl annatod sefydliadau fel yr Urdd a'r Mentrau Iaith o ran cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu darpariaeth Gymraeg ledled Cymru. Mae eu gwaith, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac ysgolion, yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg ar dir yr ysgol ond hefyd y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy chwaraeon a gweithgareddau eraill. Mae sicrhau cefnogaeth barhaus a datblygiad darpariaeth o'r fath yn hanfodol os ydym am gyrraedd targedau Cymraeg 2050."[2]

Mae hyrwyddo buddion hirdymor sydd yn deillio o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn hynod bwysig ond mae angen hyrwyddo'r buddion tymor byr o ran mwynhau gyda ffrindiau a'r teimlad o berthyn.

Pwysleisir pwysigrwydd sicrhau bod gweithgareddau Cymraeg ar gael yn y gymuned lle mae cyfle i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol gan ddefnyddio iaith pob dydd. Gwelir cyfle gyda throsglwyddiad y Gwasanaeth Ieuenctid i'r Adran Addysg i gryfhau'r berthynas gyda sefydliadau eraill a Menter Iaith Gwynedd.

---

[2] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, Adroddiad ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg Mai 2023. ([https://senedd.cymru/media/ahucitff/cr-ld15837-w.pdf](https://senedd.cymru/media/ahucitff/cr-ld15837-w.pdf) ), 6. Gwelwyd 01.08.2023.

**Argymhelliad 11 – Bod yr Awdurdod Addysg yn cydweithio â sefydliadau eraill a Menter Iaith Gwynedd er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc.**

## Adeiladu Gweithlu Dwyieithog

Cyhoeddwyd adroddiad ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd yn Mai 2023.

Nodwyd yn yr adroddiad:

> "Adeiladu gweithlu dwyieithog yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol. Rydym yn cydnabod bod heriau i recriwtio athrawon, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn gyffredinol. Fodd bynnag, gallai prinder athrawon cyfrwng Cymraeg danseilio Cymraeg 2050 a'r targedau sydd ynddi."[3]

Nododd un ysgol eu bod yn ffodus wedi llwyddo i recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg i ddysgu cyrsiau galwedigaethol. Manylwyd bod defnydd o E-sgol, technoleg sy'n galluogi myfyrwyr i ymuno â dosbarthiadau mewn ysgolion eraill trwy gyswllt fideo, yn y chweched dosbarth. Cyfeiriwyd at gwrs seicoleg a ddarparwyd y llynedd drwy gyfrwng y Saesneg gyda'r darlithydd wedi ei lleoli yn Amsterdam.

Ategwyd ei bod yn her recriwtio athrawon gan gynnwys rhai sydd yn siarad Cymraeg.

Fel enghraifft o effaith athrawon sy'n llai hyderus yn y Gymraeg, nododd un dysgwr ei fod yn mwynhau astudio TGAU hanes a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ond mai ef oedd yr unig un o'r deg dysgwr yn y dosbarth hanes a oedd yn ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y Pennaeth fod yr athro dan sylw ar fenthyg gan ysgol uwchradd arall ac yn dueddol o ddefnyddio'r Saesneg ond y byddai athro newydd yn ei le erbyn mis Medi 2023.

---

[3] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, Adroddiad ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg Mai 2023. (https://senedd.cymru/media/ahucitff/cr-ld15837-w.pdf), 54. Gwelwyd 01.08.2023.

Nododd un Pennaeth ei bod eisiau i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol fel athrawon. Credai y byddai hyn yn rhoi hwb o ran gwerthu i ddysgwyr yn yr ysgol bod swyddi da ar gael lle defnyddir y Gymraeg.

**Argymhelliad 12 – Dylai'r Awdurdod Addysg hyrwyddo'r cynnig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim ar gyfer athrawon sydd yn dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.**

Mae denu athrawon cyfrwng Cymraeg i weithio yng Ngwynedd gan hyrwyddo'r buddion o weithio yn y sir a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg presennol yn angenrheidiol er mwyn cyrraedd y nod o gael gweithlu addysg hyfedr ddwyieithog. Mae hyn yn gwbl allweddol os ydym am gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ysgolion uwchradd y sir.

**Argymhelliad 13 – Bod yr Awdurdod Addysg yn hyrwyddo'r cyfleoedd/buddion yn deillio o ddysgu yn y sir er mwyn denu mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg i weithio yng Ngwynedd. Dylai hefyd gefnogi'r ymdrechion i gynyddu nifer yr athrawon dwyieithog sydd ar gael i Gymru gyfan.**

## Gweithredu gan Ysgolion

Mae'r Awdurdod Addysg wedi gwneud cais i ysgolion uwchradd y sir gynnwys o leiaf un flaenoriaeth yn y Cynllun Datblygu Ysgol yn ymwneud â'r Gymraeg. Mewn ymateb i'r cais, nododd un Pennaeth eu bod wedi ychwanegu datblygu'r Cyngor Iaith at Gynllun Datblygu'r Ysgol. Rhoddwyd cyflwyniad i athrawon am y disgwyliadau o ran yr iaith Gymraeg. Nodwyd bod gweithgor gyda chynrychiolwyr o wahanol adrannau wedi ei sefydlu i sicrhau bod pawb yn ymateb i'r gofynion.

Cafwyd sicrwydd yn ystod ymweliad ag ysgol bod yr Uwch Dîm Rheoli yn pwysleisio'r Polisi Iaith a'r athrawon yn ymwybodol o'r gofynion.

Mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn, wrth roi sylw penodol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yr ysgol yng nghyfarfodydd uwch dîm rheoli pob ysgol uwchradd yn y sir, y byddai'r ffocws penodol a roddir ar y ddarpariaeth o gymorth i sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Argymhelliad 14 – Bod yr Awdurdod Addysg yn gwneud cais bod Uwch Dimau Rheoli Ysgolion Uwchradd yn rhoi sylw penodol i'w darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan ei roi ar raglenni cyfarfodydd yn rheolaidd.**

Yn yr un modd, credir y dylai'r Fforwm Penaethiaid Uwchradd drafod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rheolaidd. Byddai hyn yn gyfle i annog cydweithio a dod i gytundeb ar safonau cyffredin rhwng ysgolion.

Nododd un Pennaeth bod mwy o drafodaethau a chydweithio yn digwydd yn y sector cynradd. Nid oedd cydweithredu ag ysgolion eraill mor effeithiol yn yr uwchradd. Mae pob ysgol ar daith wrth symud i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru gyda'r newid o fod yn llai dibynnol ar ddata, dulliau newydd o ddysgu a pharatoi adnoddau newydd. Nodwyd nad oes model ar gyfer darparu'r cwricwlwm ac felly ei bod yn beth da bod arbrofi yn digwydd ond mae cydweithredu yn anodd yn yr uwchradd.

Datganwyd mai ychydig o ddealltwriaeth oedd gan y Pennaeth o ran darpariaeth Cymraeg ysgolion uwchradd eraill. Manylwyd bod cynghreiriau ond mai ysgolion unigol sy'n gorfod edrych i mewn i fater penodol.

Credir y byddai'n gyfle yn ogystal i'r ysgolion rannu ymarfer da, megis cynnal ffair ar gyfer dysgwyr blwyddyn 9 cyn iddynt ddewis eu pynciau TGAU, gan gyfleu pwysigrwydd y Gymraeg; dysgwyr yn cymryd perchnogaeth o drefnu gweithgareddau a hybu'r iaith; a sut i wneud y Gymraeg a'n hunaniaeth yn weledol yn yr ysgolion. Mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn bod ymdeimlad o berthyn yn holl bwysig. Roedd yr aelodau yn falch iawn o weld deunyddiau sy'n annog balchder yn y Gymraeg o gwmpas yr ysgolion. Roedd un ysgol wedi gwneud ymdrech arbennig i wneud y Gymraeg a'i hunaniaeth yn gwbl weledol gyda murluniau artistig o enwogion yr ardal ar waliau'r ysgol. Roeddent yn cynnwys cerddi a dyfyniadau a oedd yn codi ymwybyddiaeth o hunaniaeth a hanes yr ardal ac yn werth i'w gweld.

**Argymhelliad 15 – Bod yr Awdurdod Addysg yn gwneud cais i'r Fforwm Penaethiaid Uwchradd bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eitem ar raglen cyfarfodydd y Fforwm o leiaf un waith y flwyddyn.**

Y Fforwm Penaethiaid Uwchradd sy'n penderfynu beth i'w drafod yn eu cyfarfodydd ond trwy osod eitem o leiaf unwaith y flwyddyn ar raglen cyfarfod o'r Fforwm, credir y byddai'n gyfle i'r Awdurdod Addysg roi arweiniad ac i'r Penaethiaid rannu syniadau am ffyrdd o gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion uwchradd Categori 3T a Chategori 3 fel ei gilydd.

## Adnoddau Cymraeg

Mae'n hysbys bod diffyg adnoddau addysgol Cymraeg yn rhwystr mawr rhag datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Daeth i'r amlwg bod y gwyddorau a mathemateg yn bynciau y mae mwy o ddysgwyr yn dewis eu gwneud yn Saesneg yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5. Dywedwyd wrth aelodau'r ymchwiliad bod nifer o ddysgwyr sydd eisiau mynd ymlaen i astudio meddygaeth a milfeddygaeth mewn prifysgol yn dewis astudio'r gwyddorau drwy gyfrwng y Saesneg.

Yn ystod y trafodaethau, datganodd nifer o ddysgwyr eu bod yn ei gweld yn haws astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y dysgwyr yn dod o aelwydydd gyda chymysgedd o sefyllfaoedd ieithyddol, aelwydydd gydag un rhiant yn ddi-Gymraeg, dau riant Cymraeg a dau riant di-Gymraeg.

Nodwyd yn yr ysgolion fod iaith y dysgu yn y gwersi yn Gymraeg gydag athrawon yn siarad Saesneg gyda dysgwyr penodol. Datganwyd bod termau arbenigol yn y pynciau gwyddonol yn cael eu dysgu yn ddwyieithog.

Mewn un o'r ysgolion, roedd tua dwsin o ddysgwyr ym mlwyddyn 11 yn astudio'r gwyddorau drwy gyfrwng y Saesneg. Nodwyd nad oedd cymaint o adnoddau Cymraeg ar gael; roedd y ddarpariaeth wedi gwella ond yn dalcen caled o ran y gwyddorau. Nodwyd bod angen cyfieithu'r adnoddau mewn modd sy'n eu gwneud yn ddealladwy i'r dysgwyr.

Nodwyd yn gyffredinol bod digon o adnoddau Cymraeg o ansawdd ar gael ond mewn rhai achlysuron y cyfieithiad ddim mor ddarllenadwy. Amlygwyd pryder rhai dysgwyr/rhieni o ran gwneud gwaith ymchwil yng Nghyfnod Allweddol 5. Eglurwyd bod dysgwyr a oedd yn anelu at

fynychu prifysgolion Grŵp Russell yn cystadlu gydag eraill ac angen paratoi ar gyfer cyfweliadau yn Saesneg. Roedd yn anodd dwyn perswâd ar ddysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd hyn.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd dim un cwrs gwyddorau ar gael yn gyfan gwbl Gymraeg mewn prifysgol yng Nghymru. Nodwyd mai un uned yn unig sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

Eglurwyd mewn un o'r ysgolion bod nodiadau Cymraeg a Saesneg yn cael eu darparu ar gyfer dysgwyr llai hyderus. Mynegwyd y byddai darparu cyllid i dalu am gyfieithu nodiadau athrawon yn arbed yr athrawon rhag gorfod eu cyfieithu eu hunain.

Wrth ystyried anghenion dysgu ychwanegol, nodwyd bod canfyddiad bod 'geiriau posh' ac 'anodd' yn cael eu defnyddio yn y gwyddorau. Dywedwyd bod mwy o sillafau yn y Gymraeg a bod y brawddegau yn fwy aml gymalog. Felly roedd ar y dysgwyr angen mwy o fedr darllen. Gellid comisiynu ymchwil i arddull y deunyddiau yn y gwyddorau a chyhoeddi argymhellion yn y canllawiau i gyfieithwyr.

Nododd dysgwr ym mlwyddyn 10 o ran dilyn cwrs TGAU hanes ei fod ef yn ei weld yn haws i'w wneud yn Gymraeg ond eraill yn ei gweld yn haws dod o hyd i wybodaeth a'i wneud yn Saesneg. Roedd mwy o adnoddau Saesneg ar gyfer arholiad hanes ar gael ar *BBC Bitesize*.

Mewn ymateb i gwestiwn beth fyddai'n gwneud siaradwyr rhugl yn fwy parod i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, nodwyd y byddai mwy o wybodaeth/adnoddau ar-lein yn Gymraeg o fudd.

Nododd dysgwr fod mwy o ddefnydd o werslyfrau yn y Chweched Dosbarth. Manylwyd bod adnoddau *BBC Bitesize* ddim ar gael yn Gymraeg ar gyfer Lefel A a'u bod yn dilyn maes llafur Lloegr. Cyfeiriwyd at ddiffyg darpariaeth cardiau fflach Cymraeg a bod adnoddau byrddau arholi AQA ac OCR yn Saesneg.

Ategir hyn gan sylwadau a dderbyniwyd mewn sgwrs gyda staff/llywodraethwyr sydd yn rhieni. Nodwyd yr angen i'r deunydd craidd fod ar gael yn Gymraeg. Mae'r deunyddiau sydd ar gael yn un o'r ffactorau wrth ddewis cyfrwng iaith. Tynnwyd sylw at y ffaith fod llyfrau dyniaethau maes llafur y Cwricwlwm i Gymru ond ar gael yn Saesneg ar hyn o bryd er

gwaetha'r addewidion a wnaed. Nodwyd ei bod yn broblem mewn ysgolion eraill ac y dylid rhannu adnoddau o ran cyfieithu.

Roedd un dysgwr yn astudio ei holl bynciau TGAU drwy'r Gymraeg ar wahân i Fywydeg a Chemeg. Ymhelaethodd mai'r rheswm am hyn oedd bod yr adnoddau Saesneg ar-lein yn mynd i fwy o ddyfnder yn y pynciau hyn.

Er mwyn argyhoeddi dysgwyr a rhieni o'r buddion o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a'i wneud yn haws i ddysgwyr, mae angen mynd i'r afael â diffyg adnoddau astudio yn y Gymraeg yn enwedig ar-lein. Mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn ei bod yn angenrheidiol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau lefel briodol o adnoddau Cymraeg trwy ddylanwadu ar ddarparwyr neu gomisiynu mwy o adnoddau Cymraeg.

**Argymhelliad 16 – Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r diffyg adnoddau astudio yn y Gymraeg yn enwedig ar-lein.**

## GwE (Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru)

Yn ystod y trafodaethau, mynegwyd bod GwE yn darparu ar gyfer rhanbarth y Gogledd. Nid yw'n craffu materion penodol oni bai bod pryder yn eu cylch.

Nododd un Pennaeth fod darpariaeth GwE ar gyfer y rhanbarth yn "*one size fits all*".

Nododd Pennaeth arall fod GwE yn codi'r mater o ran cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn achlysurol.

Eglurwyd yn ystod trafodaeth mewn un ysgol, pan fo'r Awdurdod Addysg neu GwE yn ymweld, bod arsylwi gwersi a chraffu llyfrau yn dangos y ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol.

Cyfeiriwyd at dargedau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac awgrymwyd y dylid gofyn i GwE edrych ar faterion anodd/penodol yn ogystal â'r gwaith strategol.

Mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn y dylid ystyried ffyrdd o addasu'r berthynas efo GwE. Yn arbennig felly mewn perthynas â chael mwy o sgôp i osod disgwyliadau sir benodol ar y consortiwm.

**Argymhelliad 17 – Bod yr Awdurdod Addysg yn cynnal trafodaethau gyda GwE yng nghyswllt cefnogaeth ar faterion penodol/unigryw i'r Sir**

# 8. Casgliad

**8.1** Roedd yn bleser gweld ymroddiad y tair ysgol i gyflwyno a datblygu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a siarad â rhai o'r staff, dysgwyr a llywodraethwyr. Mae'r adroddiad hwn wedi adnabod arferion da a hefyd pethau sy'n rhwystro datblygiadau. Rydym wedi gwneud argymhellion ar gyfer yr Awdurdod Addysg ac eraill ac rydym yn mawr obeithio y bydd yr argymhellion hyn o gymorth wrth gynllunio a gwireddu cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ysgolion uwchradd Gwynedd.

# CYDNABYDDIAETH

Mae aelodau'r ymchwiliad yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser a roddwyd iddynt gan y rhai a gyfrannodd dystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad. Cafwyd budd o'r trafodaethau a oedd yn dangos gweithrediad darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion dan sylw. Yn benodol, hoffai aelodau'r Ymchwiliad Craffu ddiolch i'r canlynol wnaeth gyfrannu tystiolaeth a rhoi cefnogaeth werthfawr i'r ymchwiliad:

- Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu, Swyddog Arweiniol yr Ymchwiliad, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
- Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth, Swyddog Cefnogol yr Ymchwiliad, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
- Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg)
- Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
- Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol, Adran Addysg)
- Rhys Meredydd Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, Adran Addysg)
- Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd, Adran Addysg)
- Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
- Bethan Emyr Jones (Pennaeth Ysgol Godre'r Berwyn)
- Delyth Humphreys (Pennaeth Chweched Dosbarth, Ysgol Godre'r Berwyn)
- Dysgwyr o flwyddyn 9 a 10 yn Ysgol Godre'r Berwyn
- Rhian Parry Jones (Pennaeth Ysgol Dyffryn Nantlle)
- Enid Price Huws (Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Dyffryn Nantlle)
- Huw Gwynne Evans (Dirprwy Bennaeth, Ysgol Dyffryn Nantlle)
- Prif Ddisgyblion, Disgyblion o'r Chweched Dosbarth ac aelodau o'r Fforwm Iaith, Ysgol Dyffryn Nantlle
- Sioned Jones, Elen Williams, Siân Edith a Siôn Owen (Staff/Llywodraethwyr sy'n rhieni, Ysgol Dyffryn Nantlle)
- Dewi Bowen (Pennaeth Ysgol Eifionydd)
- Catrin Elan Roberts (Cydlynydd Iaith a Llythrennedd, Ysgol Eifionydd)
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd Fforwm Iaith, Ysgol Eifionydd
- Aelodau Cyngor Ysgol, Ysgol Eifionydd
- Dysgwyr a oedd wedi mynychu canolfan iaith, Ysgol Eifionydd

# ATODIADAU

**Atodiad 1** – Brîff yr Ymchwiliad

**Atodiad 2** – Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-32

**Atodiad 3** – Polisi Iaith Enghreifftiol

**Atodiad 4** – Data Cefndir Ysgolion yr Ymchwiliad 2023

**Atodiad 5** – Data darpariaeth cyfrwng Gymraeg yr ysgolion

**Atodiad 6** – Cwestiynau i'r Ysgolion

## ATODIAD 1 – BRÎFF YR YMCHWILIAD

| | |
|---|---|
| A | <u>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried</u>?<br><br>Egwyddor cyffredinol sydd wedi ei nodi o ran cyfrwng addysg yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-32 yw:<br><br>"*Disgwylir i holl ysgolion y sir weithredu mewn modd sydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i gynyddu a gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.*"<br><br>Un o'r deilliannau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw:<br><br>"*Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.*"<br><br>Mae aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi adnabod bod angen rhoi sylw i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgolion Uwchradd y Sir.<br><br>Bydd yr ymchwiliad yn ystyried gweithrediad Polisi Iaith Addysg yr Awdurdod mewn tair ysgol uwchradd categori 3 (1 ysgol o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd). Mae'r Adran Addysg yn awgrymu'r ysgolion canlynol ar sail y ffaith y byddai modd cynnwys ystyriaethau ôl-16 mewn 2 allan o'r 3 ysgol, sef:<br><br>➢ Ysgol Dyffryn Nantlle<br>➢ Ysgol Eifionydd<br>➢ Ysgol Godre'r Berwyn |
| B | <u>Nod yr Ymchwiliad</u><br><br>Y prif gwestiwn i'w gyfarch bydd:<br><br>'**Beth yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion uwchradd a pha gynlluniau sydd mewn lle i gynyddu'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 yng Ngwynedd?**'<br><br>Bwriedir gwneud hyn trwy ofyn y cwestiynau canlynol:<br><br>• Sut y cymhwysir elfennau allweddol Polisi Iaith Addysg yr Awdurdod ym mholisïau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol?<br><br>• I ba raddau mae ysgolion categori 3 Gwynedd yn sicrhau ethos Cymraeg cadarn sy'n galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ymhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol?<br><br>• Beth yw'r cyfleoedd i wneud cynnydd o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg yr ysgolion ar draws y cwricwlwm yn CA3, CA4 a CA5?<br><br>• I ba raddau y sicrheir bod dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg o un cyfnod allweddol i un arall? |

| | |
|---|---|
| | • Beth yw'r rhwystrau rhag gallu gwneud cynnydd o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg yr ysgolion ar draws y cwricwlwm yn CA3, CA4 a CA5 a pha gymorth sydd ei angen i oresgyn y rhwystrau hynny?<br><br>• Pa gyfleoedd/rhwystrau y mae Cwricwlwm i Gymru yn eu cynnig wrth i ysgolion uwchradd baratoi i weithredu'r cwricwlwm newydd o Fedi 2023 ymlaen? |
| C | <u>Cefndir</u><br><br>Manylion am y sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd<br>- Darpariaeth gyfredol a chynlluniau ar y gweill<br>- Polisïau |
| CH | <u>Casglu Tystiolaeth</u><br>- Arweinwyr Cyngor Gwynedd<br>    o Aelod Cabinet Addysg<br>    o Pennaeth Addysg<br>- Swyddogion<br>    o Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd<br>- Mewn tair ysgol uwchradd categori 3<br>    o Pennaeth<br>    o Cydlynydd Cwricwlwm<br>    o Cydlynydd Clwstwr (yng nghyd-destun Cynlluniau Clwstwr y Gymraeg)<br>    o Fforwm Iaith Dysgwyr<br>    o Grwpiau Ffocws gyda Dysgwyr<br>    o Cynrychiolwyr Rhieni ar y Corff Llywodraethol<br>    o Y Gyfundrefn Addysg Drochi - Grwpiau Ffocws gyda dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid |
| D | <u>Dadansoddiad</u><br>- Pwyso a mesur tystiolaeth a gasglwyd gan y rhai a gyfwelwyd<br>- Ystyried gwybodaeth ymchwil a gwybodaeth cefndir |
| DD | <u>Llunio'r Adroddiad</u><br>- Nodi a thystiolaethu'r prif ganfyddiadau<br>- Nodi argymhellion ar gyfer allbynnau tymor byr<br>- Nodi argymhellion ac allbynnau tymor hwy<br>- Trafod a chytuno'r Adroddiad drafft gydag arweinwyr y gwaith o fewn y Cyngor<br>- Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol drafft i'r Pwyllgor Craffu am sylwadau a chadarnhad<br>- Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol |
| E | <u>Cynllun Gweithredu</u><br>- Aelod Cabinet/Adran Addysg i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br>- Gwahodd yr Aelod Cabinet Addysg a swyddogion i drafod y cynllun gweithredu ar y cyd gyda'r Craffwyr |
| F | <u>Tracio Cynnydd</u><br>- Diweddariad i alluogi'r craffwyr i asesu cynnydd |

| FF | <u>AMSERLEN</u> | | |
|---|---|---|---|
| | Beth | Arwain | Dyddiad |
| 1 | Cytuno Brîff | Swyddog Arweiniol<br>Aelod Cabinet<br>Pennaeth Adran | Ionawr 2023 |
| 2 | Mabwysiadu'r Brîff | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 2 Chwefror 2023 |
| 3 | Cyfarfod Cyntaf Aelodau'r Ymchwiliad<br>- Cyd-destun - Aelod Cabinet Addysg, Pennaeth Addysg a Phennaeth Cynorthwyol: Uwchradd | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | 21 Mawrth 2023 |
| 4 | Cyfarfod i drafod<br>- Data cefndirol yr ysgolion<br>- Polisi Iaith a Chynllun Datblygu'r ysgolion<br>- Llunio Cwestiynau | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | 18 Mai 2023 |
| 5 | Cyfweliadau<br>- Cynnal Cyfweliadau<br>- Cofnodi<br><br>Tair ysgol uwchradd categori 3:<br>○ Pennaeth<br>○ Cydlynydd Cwricwlwm<br>○ Cydlynydd Clwstwr (yng nghyd-destun Cynlluniau Clwstwr y Gymraeg)<br><br>○ Fforwm Iaith Dysgwyr<br>○ Grwpiau Ffocws gyda Dysgwyr<br>○ Cynrychiolwyr Rhieni ar y Corff Llywodraethol<br><br>○ Y Gyfundrefn Addysg Drochi - Grwpiau Ffocws gyda dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | Mehefin 2023 |
| 6 | Cyfarfod i drafod yr ymweliadau â'r ysgolion ac i lunio argymhellion drafft | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | 29 Mehefin 2023 |
| 7 | Dadansoddiad ac Adroddiadau drafft | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | Gorffennaf 2023 |
| 8 | Adroddiad Terfynol | Aelod Cabinet<br>Aelodau'r Ymchwiliad<br>Pennaeth Adran<br>Swyddog Arweiniol | Awst 2023 |

ATODIAD 2

# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

| |
|---|
| **Enw'r Awdurdod Lleol** |
| **Gwynedd** |
| **Cyfnod y Cynllun hwn** |
| **Medi 2022-Awst 31ain, 2032.** |

**Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.**

**Llofnod**: ............................................................ **Dyddiad**: ..............................

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

---

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

"Rwy'n falch o gyhoeddi C**ynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032**. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Mae'r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

Mae Adrannau'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymgorfforir yma weledigaeth *Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd* (2013-23), a rhoddir ystyriaeth yn ogystal, i ofynion y deddfau a'r strategaethau canlynol wrth lunio'r Cynllun: *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* (2015) *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol: Symud Cymru Ymlaen* (2016-2021), *Cytundeb Blaengar* (2016), *Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru)* (2018)."

Y Cynghorydd Beca Brown,
Aelod Cabinet Addysg.

"Mae hi'n gyfnod hynod o gyffrous i'r iaith Gymraeg a hoffwn sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd, ac yn gyfrwng i'w harfogi fe dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i'w galluogi i lwyddo a ffynnu. Rydym, fel Awdurdod, yn ymrwymo i gyrraedd ein targed o sicrhau y bydd 100% o'n disgyblion derbyn/pump oed y derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, hoffwn sicrhau bod holl weithlu ein hysgolion yn hyderus ddwyieithog, gan dderbyn pob cefnogaeth i feithrin eu hyder a'u sgiliau yn yr iaith Gymraeg, gan allu trosglwyddo'r sgiliau hynny'n effeithiol i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lawr dosbarth.

Ein nod yw sicrhau y bydd yr holl rhanddeiliaid yn gweithredu'n effeithiol mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn sicrhau dilyniant o un cyfnod allweddol i'r nesaf yn unol â'r trefniadau a nodir yn y **Cytundeb Partneriaeth** rhwng yr Awdurdod a'r ysgolion a'r cylchoedd meithrin. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn tynnu sylw'r aelodau etholedig lleol ynghyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr at unrhyw faterion o bryder sydd yn berthnasol i ddiffyg gweithredu ar gynnwys y Polisi Iaith neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg."

Garem Prytherch Jackson
Pennaeth Addysg Gwynedd.

**Cysylltu**

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gymraeg, Polisi Iaith Addysg, neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gallwch gysylltu â:


Pennaeth Addysg
Adran Addysg
Pencadlys
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Ffôn: 01286 679 467

e-bost: garemjackson@gwynedd.llyw.cymru


**Fersiynau Hygyrch**

Os y dymunir, gellir darparu fersiynau hygyrch o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-32 ar gais; mae hyn yn cynnwys:

- Fersiwn print bras
- Fersiwn ar dâp
- Fersiwn mewn braille
- Fersiwn iaith arwyddion (BSL)

Cysylltwch gyda'r Pennaeth Addysg i archebu fersiwn hygyrch.

**NODIADAU ESBONIADOL**.
Ceir cyfeiriadaeth cyson at y canlynol yn y ddogfen.

**POLISI IAITH:**

**Cefndir:**
Gosodir disgwyliadau penodol ar Adran Addysg Cyngor Gwynedd i gyfrannu tuag at strategaethau a deddfwriaeth cenedlaethol o ran hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Y mae'n ofynnol, o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013), ac i gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, i bob Awdurdod Addysg Lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf. Gosodir gofyniad statudol ar y Cyngor hefyd o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i lunio a chyhoeddi strategaethau sirol fydd yn amlinellu sut y byddant yn cyfrannu at y nod cenedlaethol a osodir yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, i gynyddu nifer y siaradwyr ledled Cymru ac i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae strategaeth Iaith sirol Gwynedd – Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23 - yn gosod yr ymrwymiad a'r weledigaeth ar gyfer y sir, ac mae gwaith yr Adran Addysg a nodau'r CSGA yn cyfrannu at amcanion y strategaeth sirol honno.

Mae hybu'r defnydd o'r Gymraeg hefyd yn un o amcanion gwella Cyngor Gwynedd, gyda Chynllun Strategol y Cyngor yn datgan mai'r nod yw gweld: "Pobl Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, y gweithle, ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus".

Mae'r polisi hwn felly wedi ei lunio er mwyn rhoi crynodeb o'r disgwyliadau a osodir ar Benaethiaid a'u hysgolion mewn perythnas â hybu defnydd o'r Gymraeg, ac i gadarnhau y gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli yn y cyd-destun hwn.

Mae'r polisi wedi ei rannu yn bedair adran, gan amlinellu'r arfer gorau dan y penawdau canlynol:

- **Cyfrwng Addysg**
- **Defnydd Cymdeithasol**
- **Recriwtio a Phenodi staff**
- **Gweinyddiaeth a Chyfathrebu**

Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, gymeradwyo a mabwysiadu'r Polisi Iaith hwn.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; disgwylir i'r Pennaeth roi arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nod y polisi ac i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn atgyfnerthu ymdrechion athrawon dosbarth drwy sicrhau ethos Gymraeg a Chymreig yn yr ysgol.

**AMCANION CYFFREDINOL**

Prif nod y Polisi yw sicrhau bod Penaethiaid, staff yr ysgolion a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir, ac i sicrhau bod hawl y disgyblion a theulu estynedig yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol yn cael ei barchu bob amser.

Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau:

- bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.

- bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.

- bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Er mai nod cyffredinol y Polisi o ran cyfrwng yr addysg yw datblygu dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar [meithrin ac yn y blynyddoedd yn arwain at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen] er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y Cyfnodau Allweddol eraill, disgwylir gweld strategaeth bwrpasol yn cael ei gweithredu er mwyn galluogi disgyblion o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg i ddatblygu eu gafael ar y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd . Yn y cyd-destun hwn, bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir.

1. **CYFRWNG ADDYSG**

| |
|---|
| **EGWYDDOR CYFFREDINOL**<br><br>**Disgwylir i holl ysgolion y sir weithredu mewn modd sydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i gynyddu a gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.** |

2. **DEFNYDD CYMDEITHASOL O'R GYMRAEG**

| |
|---|
| **EGWYDDOR CYFFREDINOL**<br><br>**Disgwylir i bob ysgol fagu agweddau cadarnhaol ymysg y disgyblion a'r gweithlu tuag at yr iaith, gan greu balchder a chynyddu'r defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.** |

## 3. RECRIWTIO A PHENODI

**EGWYDDORION CYFFREDNOL**

**Disgwylir i bob ysgol weithredu yn unol â'r Polisi Recriwtio a Phenodi (2021) a sicrhau bod y Gymraeg yn cael y sylw priodol wrth hysbysebu swyddi a recriwtio.**

**Disgwylir bod paneli penodi y corff Llywodraethu yn ymwybodol o'r angen i ystyried anghenion ieithyddol wrth benodi.**

**Disgwylir i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil hanfodol/allweddol ar gyfer <u>pob swydd</u>, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen i gyflawni gofynion y swydd - *gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu* - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.**

**Disgwylir i unigolion gael eu penodi sydd yn meddu ar y sgiliau ieithyddol sydd wedi eu nodi ar gyfer y swydd. Os oes unigolyn yn cael eu penodi sydd ddim yn meddu ar y sgiliau hanfodol a nodwyd ar gyfer y swydd dan sylw, disgwylir iddynt ymrwymo i raglen hyfforddiant er mwyn gwella eu sgiliau Iaith.**

## 4. GWEINYDDIAETH

**EGWYDDOR CYFFREDINOL**

**Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir ymrwymo i gyfathrebu gyda disgyblion, rhieni a theulu estynedig yr ysgol yn ddwyieithog, gan barchu dewis iaith a hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol.**

**Er bod disgwyl cyffredinol i wybodaeth gael ei ddarparu yn ddwyieithog, cydnabyddir hefyd mai'r Gymraeg yw iaith weithredol, naturiol, yr ysgolion ac anogir ysgolion i ystyried amgylchiadau lle mae'n briodol i gyfathrebu yn Gymraeg yn unig.**

Disgwylir i'r Corff Llywodraethu adolygu a chymeradwyo'r Polisi Iaith yn unol â'r drefn adolygu polisïau blynyddol.

**<u>IAITH DYSGU</u>:**

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir, ym mhob un o'n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Mae'r Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel angenrheidiol sef 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**DYNODIADAU IAITH Y CYNGOR:**

Er mwyn ceisio sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau gofynion ieithyddol (Dynodiadau Iaith) swyddi ar draws holl adrannau'r Cyngor (gan gynnwys mewn ysgolion), mae'r Swyddogion Addysg wedi bod yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Adnoddau Dynol, Swyddogion Democratiaeth ac Iaith, a Swyddogion Dysgu a Datblygu ar y gwaith o bennu ein disgwyliadau gofynion ieithyddol ar gyfer penodi gweithlu ein hysgolion. Mae Polisi iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel Ysgolion yn nodi disgwyliadau gofynion ieithyddol yr Adran Addysg yn glir i Benaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethol. Disgwylir i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil allweddol ar gyfer pob swydd addysgu, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd - gwrando a siarad, darllen a deall, ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu. Rydym wedi mynd ati i addasu Swydd Ddisgrifiadau, Manylion Person, Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel ein hysgolion i sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriad at y Dynodiadau Iaith. O ganlyniad, wrth benodi i'r gweithlu addysg, disgwylir i'r Dynodiad Iaith gael ei gynnwys ym mhob hysbyseb yn unol â disgwyliadau'r Adran Addysg.

**CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI:**

Yn sgil y pandemig bu i staff y Canolfannau Iaith orfod addasu a thrawsnewid y ffordd yr oeddent yn darparu cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg. Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi gyfoes yng Ngwynedd sydd yn rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi hwy a newydd-ddyfodiaid y sir i gaffael y Gymraeg. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Gobeithir y bydd y gyfundrefn addysg drochi ar ei newydd wedd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2023.

**CYFRIFIAD BLYNYDDOL Y GWEITHLU ADDYSG:**

Rydym wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith gweithlu ein hysgolion uwchradd er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon, Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir. Ar sail data'r Cyfrifiad Iaith y Gweithlu Addysg diweddar, rydym yn targedu a chefnogi rhai ysgolion ar draws y sir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion ieithyddol eu staff trwy hyrwyddo mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu i godi eu hyder yn y Gymraeg, yn ogystal ag ymateb yn llawn i bolisi iaith ysgolion Gwynedd o ran cyfrwng addysgu ac iaith weinyddol yr ysgol. Rydym yn ymrwymo i gydweithio gyda rhai ysgolion penodol er mwyn cynyddu eu defnydd a'u darpariaeth Gymraeg yn unol a Pholisi Iaith y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd yn y % o blant meithrin fydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, a chynnydd yn y % o ddisgyblion uwchradd fydd yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sefyll arholiadau diwedd Cyfnod Allweddol 4 a 5 yn y Gymraeg.

**CATEGORIAU IEITHYDDOL YSGOLION UWCHRADD GWYNEDD:**

Mae'r Awdurdod yn cyd-weithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio sicrhau bod Categoreiddio Ieithyddol Ysgolion yn briodol ar gyfer ymateb i ddeilliannau'r CSGA. Nod Llywodraeth Cymru yw hwyluso pob ysgol i allu symud tuag at Gategori 3, neu i dderbyn cefnogaeth ychwanegol gan yr Awdurdod neu gan Lywodraeth Cymru, i gryfhau eu darpariaeth Categori 3, erbyn 2032. Bydd yr Awdurdod yn mapio ac yn cynnal trafodaethau gyda'r ysgolion lle bydd unrhyw newid i'w categori ieithyddol. Byddwn yn cyflwyno'r drefn newydd yng nghyfarfodydd strategol penaethiaid Cynradd ac Uwchradd ac yn cynnal sgyrsiau/hyfforddiant gyda Chyrff Llywodraethol.

# Deilliant 1

## Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Nod Polisi Iaith Gwynedd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.  Ceir 58 o leoliadau addysg nad sy'n cynnal y Blynyddoedd Cynnar yng Ngwynedd. Mae pob un o leoliadau addysg feithrin o fewn rheolaeth y Cyngor yn lleoliadau sydd yn addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant meithrin/tair oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2018-19 (Dim data 2019-20 ar gael yn sgil COVID):

| **Ardal** | **Nifer Cylchoedd Meithrin** | **Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg** | |
|---|---|---|---|
| Arfon | 28 | 834 | 99.3% |
| Dwyfor | 18 | 301 | 100% |
| Meirionnydd | 19 | 346 | 100% |

Data dynodiad ieithyddol y darpariaethau gofal plant eraill yn y Sir:

| **Darpariaeth** | **Cymraeg** | **Dwyieithog** | **Saesneg** |
|---|---|---|---|
| Meithrinfeydd | 13 | 5 | 1 |
| Cylchoedd Meithrin/*Playgroup* – sydd ddim yn darparu AF | 7 | 1 | |
| Gwarchodwyr | 39 | 7 | 12 |
| Clybiau ar ôl Ysgol/Gwyliau | 10 | 4 | |

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

#### Ble?:

Byddwn yn anelu i barhau i gynnal y safonau uchel o gyrraedd y targed o 100% o blant 3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i gyfathrebu a chyd-gynllunio gyda chyrff allanol ym maes y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys Mudiad Meithrin, i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau llwybr di-dor at addysg ddwyieithog, yn unol â Pholisi Iaith y Sir. Byddwn yn parhau i gyd-weithio gyda chyrff cyhoeddus megis Cymraeg i Blant, Consortia Rhanbarthol, RhAG, Urdd Gobaith Cymru a Mentrau

Iaith. Bydd prosesau tendro *Dechrau'n Deg* yn rhoi pwyslais ar adnabod darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, a bydd Cyngor Gwynedd yn mynd allan i dendr yn Haf 2022.

### Sut?:

Byddwn yn parhau i:

- wneud defnydd o ddata darpariaeth gofal plant er mwyn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir.
- gynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofyn statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed.
- ddarparu gwybodaeth i rieni o ran argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg a'r math o addysg cyfrwng Cymraeg gaiff ei gynnig ar wefan y Cyngor ac ar wefannau cymdeithasol perthnasol.
- Sicrhau bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog.
- ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg.
- wneud y defnydd gorau o wybodaeth ynghylch y manteision a ddaw yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.
- fonitro'n rheolaidd yr holl leoliadau, i sicrhau'u cydymffurfiaeth â gofynion Polisi Iaith y Sir.
- hyrwyddo'r cyrsiau '*Camau*' ar gyfer y lleoliadau hynny sydd wedi'u nodi yn lleoliadau cyfrwng Saesneg.
- ddarparu grant cychwynnol ychwanegol i brynu adnoddau a llyfrau Cymraeg ar gyfer gwarchodwyr newydd.
- sicrhau bydd unrhyw grantiau adnoddau gofal plant neu addysg yn nodi'r angen i archebu llyfrau Cymraeg neu ddwyieithog yn unig.

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd bydd Gwasanaethau Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn cynnal yr un safonau uchel, ac yn sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog ymhob un o'r darpariaethau.

### Data Allweddol

Nid oes unrhyw ddata niferoedd genedigaethau ar gael. Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi'u cofnodi yn 2022. Mae'r targedau isod yn seiliedig ar wybodaeth bresennol CYBLD(2019/20/21) ac yn ystyried niferoedd dosbarth meithrin un ysgol cyfrwng Saesneg penodol sy'n cael ei thargedu gan yr Awdurdod i fedru cyrraedd disgwyliadau Polisi Iaith Gwynedd.

% y plant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

| 2022 - 2023 | 2023 - 2024 | 2024 - 2025 | 2025 - 2026 | 2026 - 2027 |
|---|---|---|---|---|
| 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| 2027 - 2028 | 2028 - 2029 | 2029 - 2030 | 2030 - 2031 | 2031 - 2032 |
| 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

## Deilliant 2

## Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir, ym mhob un o'n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Ceir 80 Ysgol Gynradd, 2 Ysgol Ddilynol a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae pob ysgol yng Ngwynedd namyn un, yn gweithredu Polisi Iaith Addysg y Sir, sydd yn golygu fod pob plentyn yn cael eu trochi yn y Gymraeg hyd at 7 oed. Wrth dderbyn arian cyfalaf o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, ac wrth ymdrin ac unrhyw broses ad-drefnu ysgolion, bydd yr Awdurdod Addysg yn dilyn gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac yn cynnal Asesiad Effaith Ieithyddol ar unrhyw effaith posib ar yr iaith Gymraeg, er sicrhau ein bod yn cynnal neu'n cynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a phob blwyddyn ysgol arall a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yng nghyd-destun defnydd yr Awdurdod o grant Cyfalaf y Gymraeg, mae'r Awdurdod yn bwriadu buddsoddi'n helaeth yn y ddarpariaeth drochi dwys ar draws y sir, er sicrhau fod yr amgylchedd dysgu a'r ddarpariaeth yn gyfoes ac o ansawdd ac ar gael ar draws y sir ar gyfer dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid. Mae'r ddarpariaeth drochi yma yn sicrhau sylfaen gadarn i'r dysgwyr allu parhau i gaffael y Gymraeg o fewn cyfundrefn addysg ddwyieithog y sir wrth ddychwelyd i'w hysgolion prif lif.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi gweld cyfle drwy gyfrwng Grant Cyfalaf y Gymraeg i sicrhau cynnydd mewn capasiti rhai ysgolion yn y sir sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol (sef cymunedau dros 70%). Mae'r angen i gynyddu capasiti'r ysgolion yma yn sgil twf yn y boblogaeth leol o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r grant felly yn gyfrwng i alluogi'r Awdurdod sicrhau fod gofod digonol yn yr ysgol leol ar gyfer y boblogaeth newydd sydd yn dyfod i ddatblygiadau tai mewn ardaloedd naturiol Gymraeg yng Ngwynedd, gan felly fod yn gyfrwng i gynnal a chynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a phob blwyddyn ysgol arall a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhyrchwyd cyfres o weminarau fel rhan o'n cynlluniau i hyfforddi athrawon a chymorthyddion parthed strategaethau addysg trochi. Bydd y gweminarau Trochi Iaith hyn yn cyfrannu at sicrhau darpariaeth trochi iaith effeithiol yn ein hysgolion fydd yn atgyfnerthu'r gwaith a wneir yn y Canolfannau Iaith.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Ble?:**

Byddwn yn:

- peilota cynllun cefnogaeth a throchi i ddysgwyr grwpiau targed bl 5 a 6 yn ysgolion cynradd dalgylch Bangor a Thywyn i gaffael y Gymraeg yn hyderus a'u harfogi i allu dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Uwchradd.
- datblygu ein prosiectau sydd ar waith, sef Cynllun Rhithwir pentref *Aberwla*, gan ehangu profiadau ieithyddol ein dysgwyr trwy'r platfform digidol arloesol hwn.
- ehangu'r ddarpariaeth VR i gynnwys yr holl leoliadau sydd wedi eu datblygu gan yr awdures Anni Llŷn o fewn y cynllun trochi Newydd 'Aberwla'.
- buddsoddi mewn cyfarpar ar gyfer pob un o'r Canolfannau Iaith.
- ymrwymo i gyrraedd ein targed o 99%, trwy gynllunio a chyflwyno ymyraethau ieithyddol i dargedu a chefnogi sgiliau iaith unrhyw aelod o staff addysgu sy'n ddi-hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg, neu'n ddi-Gymraeg.
- ystyried ein cynlluniau ar gyfer buddsoddiad drwy'r grant trochi hwyr cyfrwng Cymraeg (3 mlynedd).
- cefnogi'r gweithlu yn Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor (sydd yn ysgol eglwysig) drwy drefnu gwersi Cymraeg wedi'u teilwra'n benodol i ddiwallu anghenion unigol aelodau y staff yno, fydd yn golygu bydd mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- anelu i sicrhau y bydd 100% o'n dysgwyr dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy sicrhau hyfforddiant priodol i gefnogi a chynnal staff fydd angen y gefnogaeth i'w galluogi i wneud hynny.
- sicrhau bob pob dysgwr dosbarth derbyn/5 oed yng Ngwynedd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- sicrhau bod gofynion Dynodiadau Iaith y Cyngor yn cael eu gweithredu, a chynlluniau cadarn mewn lle i gefnogi ble bydd angen.
- sicrhau bod trefniadaeth o ran darpariaeth newydd-ddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyfathrebu mewn modd clir ac effeithiol gyda rhieni a gofalwyr.
- arfogi gweithlu'r Cyfnod Sylfaen yn egwyddorion addysg drochi i'w galluogi i ymateb i anghenion disgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r ysgol, ac/neu i newydd ddyfodiaid sy'n trosglwyddo'n ôl i'r ysgolion yn dilyn cyfnod yn y Gyfundrefn Drochi.
- defnyddio'r Gymraeg fel iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

## Sut?:

Byddwn yn:

- hyfforddi athrawon a chymorthyddion parthed trochi cynnar yn y Cyfnod Sylfaen ar draws y Sir yn enwedig yr ardaloedd Seisnigedig, ond hefyd rhoi mewnbwn i adfer medrau ieithyddol grwpiau o ddysgwyr o gartrefi di-Gymraeg mewn ysgolion yn gyffredinol yn dilyn bylchau yn eu dysgu oherwydd Covid.
- llunio pecyn ar gyfer ysgolion sy'n bwydo'r Canolfannau Iaith cynradd ac uwchradd wrth i'w disgyblion ddychwelyd – pecyn pontio i'r fam ysgol fod yn ymwybodol o batrymau iaith sydd angen eu hymarfer a'u hatgyfnerthu, gan roi blaenoriaeth yma hefyd i'r agwedd llesiant.
- cyflogi athro/wes dros 3 blynedd i weithredu fel athrawes ymgynghorol y Gymraeg a Llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen i dargedu dosbarthiadau CS o fewn y Sir.
- comisiynu gwaith i hyrwyddo datblygiad cymhwysedd digidol ein dysgwyr o fewn ein cyfundrefn drochi yng nghyd destun gwaith codio a defnydd o apiau sy'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio iaith.
- gomisiynu gwaith gwreiddiol gan awdur i greu llyfrau/e-lyfrau syml i gyflwyno patrymau iaith idiomatig Cymraeg er mwyn cyfoethogi iaith ein hwyr ddyfodiaid.

- parhau i gomisiynu Canolfan Bedwyr i asesu sgiliau iaith ac adnabod gwaelodlin gallu ieithyddol staff ysgolion, i'w galluogi i deilwra hyfforddiannau pwrpasol, a gwahaniaethol i ateb yr angen.
- gosod targedau pwrpasol i staff ysgolion er mwyn galluogi monitro'u cynnydd.
- ystyried sut y bydd newidiadau arfaethedig i gategoriau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn effeithio ar ymrwymiad y Sir i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog/ffrwd ddeuol o fewn y Sir.
- sicrhau bod ysgolion yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion pump oed ar y Gymraeg.
- darparu cefnogaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid y Sir drwy'r Gyfundrefn Addysg Drochi i feithrin sgiliau'r Gymraeg yn gynnar.
- darparu rhaglen o hyfforddiant priodol ar gyfer staff CS yn athrawon a chymorthyddion yn maes trochi ieithyddol.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd bydd y Gwasanaeth yn arddangos twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, fydd yn caniatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Bydd newydd-ddyfodiaid y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi arloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

## Data Allweddol

Nid oes unrhyw ddata niferoedd genedigaethau ar gael. Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi'u cofnodi yn 2022. Mae'r targedau isod yn seiliedig ar wybodaeth bresennol CYBLD(2019/20/21) ac yn ystyried niferoedd dosbarth derbyn/ 5 oed un ysgol cyfrwng Saesneg penodol sy'n cael ei thargedu gan yr Awdurdod i fedru cyrraedd disgwyliadau Polisi Iaith Gwynedd.

| % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 1116 | 98.82% | 1117 | 98.9% | 1118 | 99% | 1122 | 99.3% | 1124 | 99.5% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 1125 | 99.6% | 1126 | 99.7% | 1127 | 99.8% | 1128 | 99.9% | 1130 | 100% |

## Deilliant 3

## Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

### Ble rydym ni nawr?

Mae Cydlynwyr Iaith pob Clwstwr o fewn y Sir yn atebol i Gydlynydd Siarter Iaith a Chydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd yr Awdurdod. Mae'r Cydlynwyr Clwstwr yn:

- annog a sbarduno trafodaeth sydd yn sicrhau cydweithio rhwng yr holl ysgolion.
- sicrhau llinellau clir o gyfathrebu wrth ddod i benderfyniadau.
- mynychu Cyfarfod Clwstwr tymhorol, a drefnir gan yr Awdurdod, ac sydd yn cael eu mynychu gan gynrychiolydd o GwE.
- adrodd yn ôl i berson cyswllt ym mhob ysgol gynradd, a'r ysgol Uwchradd o fewn y clwstwr, am gynnwys trafodaethau a phenderfyniadau.
- hybu cydweithio, yn unol â deilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod.

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Rydym yn cefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd i gydweithio mewn partneriaeth agos i dargedu rhieni/gofalwyr er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol, ac yn sicrhau bod yr holl staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad gyda rhieni yn ymwybodol o'r negeseuon allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a dilyniant ieithyddol i allu ateb cwestiynau all godi.

Ein sefyllfa bresennol:
O ganlyniad i bandemig Covid-19 nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20 na 2020/21.

| | | |
|---|---|---|
| 2018-19 | Dysgwyr blwyddyn 9 yn cael eu hasesu yn Y Gymraeg (Iaith Gyntaf) | 84.5% |
| 2018-19 | Dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn ennill Deilliant 5+ Y Gymraeg (asesiadau athro) | 78.8% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA2 yn ennill Lefel 4+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro) | 86.9% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro) | 91.9% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Ail Iaith (asesiadau athro) | 77.1% |

**SEFYLLFA BRESENNOL YSGOLION UWCHRADD GWYNEDD 2021-2022**:
Byddwn yn adolygu trefniadau categoreiddio ysgolion yn unol â Pholisi Categoreiddio Llywodraeth Cymru, 2021.

| | |
|---|---|
| **Categori 2A** | Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. |
| **Categori 2B** | Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. |
| **Categori 2C** | Addysgir 50 - 79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. |

| Categori 2CH | Addysgir pob pwnc (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall. |
|---|---|

Bydd yr Awdurdod yn cyd-weithio'n agos gyda'r ysgolion Uwchradd o fewn y Sir i lunio, cefnogi a monitro Cynlluniau Gweithredu priodol i gyflawni'r targedau a osodir. Bydd hyfforddiant ar gael i uwch sgilio'r gweithlu, a buddsoddir mewn adnoddau i gefnogi hynny o fis Medi 2022 ymlaen. Mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu Canolfan Addysg Trochi ar safle Ysgol Uwchradd Tywyn fel rhan o weledigaeth yr Awdurdod i ymateb i anghenion ieithyddol yr ardal.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### Ble?:

Byddwn yn:

- o fewn y flwyddyn gyntaf, yn mapio ac yn cynnal trafodaethau gyda'r ysgolion lle bydd unrhyw newid i'w categori ieithyddol.
- sicrhau bod pob plentyn yn parhau i ddatblygu'n ieithyddol i gyflawni gofynion Camau Cynnydd Ieithyddol Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau eu bod yn gwella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.
- penodi athro/athrawes Datblygu'r Gymraeg mewn un ysgol uwchradd benodol o fewn y Sir.
- sicrhau cysondeb traws sirol drwy sicrhau fod pob disgybl sydd yn cyrraedd safon benodol yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd Bl. 6 yn parhau i astudio'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn Bl. 7 ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd Bl. 9, a thrwy hynny, cynyddu'r % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd Bl.9.
- cynyddu nifer canran y disgyblion sy'n parhau i wella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg Iaith Gyntaf.
- monitro a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgolion er mwyn sicrhau cynnydd yn y % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd Bl.9.
- cydweithio gyda ysgolion penodol i sicrhau parhad ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd. sicrhau mynediad at Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, fydd yn cynnig addysg o'r safon uchaf o flwyddyn 2 ymlaen a chynnig cefnogaeth ddilynol briodol i unrhyw ddisgybl sy'n newydd ddyfodiad cynradd/uwchradd i'r sir.

### Sut?:

Byddwn yn:

- monitro'n fanwl ac yn gyson safonau yn ein hysgolion.
- rhannu arferion da ar gyfer addysgu, cyd addysgu, modelu, hyfforddi, monitro, paratoi a chynhyrchu adnoddau.
- cynllunio'n briodol i sicrhau bod disgyblion a addysgir yn ddwyieithog yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall.
- cydweithio gyda'r ysgolion i sicrhau fod disgyblion yn dilyn trywydd ieithyddol sy'n ddatblygiad naturiol o un flwyddyn i'r llall ac o un cyfnod trosglwyddo i'r llall, ac yn monitro hyn yn ofalus.
- trafod ac adnabod ar y cyd gyda'r ysgolion, gyfleoedd i gynyddu'r gyfran o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei chynnig gan osod targedau sydd yn gyraeddadwy i'w cyflawni ac sy'n eu gallugoi i gyflawni gofynion Dynodiad Iaith yr ysgol.

- cryfhau pontio o'r cynradd i'r uwchradd i sicrhau dilyniant pwrpasol i waith y Siarter Iaith/Strategaeth Iaith.
- uwchsgilio'r gweithlu gan feithrin hyder disgyblion i ddefnyddio a datblygu'u sgiliau llafar ar draws yr ysgol.
- llunio briff i roi crynodeb o'r disgwyliadau a osodir gan yr Awdurdod mewn perthynas â hybu defnydd o'r Gymraeg, a sut bydd yr Awdurdod, trwy'r cytundeb hwn, yn cefnogi ysgolion penodol i gadarnhau'r gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli yn y cyd-destun hwn.
- cefnogi ysgolion penodol i sicrhau bod Pennaeth, staff a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad yr ysgol, ac i sicrhau bod hawl y disgyblion a theulu estynedig yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol yn cael ei barchu bob amser.
- disgwyl gweld strategaeth bwrpasol yn cael ei gweithredu er mwyn galluogi disgyblion o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg i ddatblygu eu gafael ar y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd cynnydd yn y nifer o blant sy'n parhau i wella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. Bydd y cynnydd yn cael ei adolygu'n flynyddol fel sail i ymyrraethau a chamau gweithredu pellach. Bydd disgyblion y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi arloesol, fydd wedi gwreiddio, ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

## Data Allweddol

Mae'r targedau isod yn seiliedig ar gynyddu nifer y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg mewn tair ysgol benodol sy'n cael eu targedu gan yr Awdurdod i fedru cyrraedd disgwyliadau categoriau ieithyddol ysgolion e.e. cynyddu nifer o ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ac felly hefyd nifer y disgyblion sy'n sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf mewn un ysgol uwchradd fawr dros gyfnod o ddeg mlynedd o un dosbarth i bedwar dosbarth(oddeutu 120 o blant).

**% y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall**

| | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 | 2024 - 2025 | 2025 - 2026 | 2026 - 2027 |
|---|---|---|---|---|---|
| Bl.2/Bl.3 | 98.3% | 98.9% | 99% | 99.3% | 99.5% |
| Bl.6/Bl. 7 | 79.6% | 79.6% | 79.6% | 79.6% | 82.1% |
| Bl.9/Bl.11 Sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 84.5% | 84.5% | 84.5% | 84.5% | 86.1% |
| | 2027 - 2028 | 2028 - 2029 | 2029 - 2030 | 2030 - 2031 | 2031 - 2032 |
| Bl.2/Bl.3 | 99.6% | 99.7% | 99.8% | 99.9% | 100% |
| Bl.6/Bl. 7 | 82.1% | 82.1% | 82.1% | 82.1% | 86.9% |
| Bl.9/Bl.11 Sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 86.1% | 86.1% | 86.1% | 86.1% | 88.6% |

## Deilliant 4

**Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Ble rydym ni nawr?**

Disgwylir gweld dilyniant a pharhad priodol yng nghyfrwng ieithyddol addysgu pob disgybl o un Cyfnod Allweddol i'r llall. Disgwylir i bob disgybl sydd wedi astudio Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc yn yr ysgol gynradd barhau i wneud hynny yn yr uwchradd, a sefyll asesiad/arholiad yn y pwnc ar ddiwedd Blwyddyn 11. Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg yn yr ysgol gynradd barhau i wneud hynny yn yr uwchradd, a sefyll asesiadau/arholiadau allanol drwy gyfrwng Y Gymraeg. Trwy'r Gyfundrefn Drochi, rhoddir cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid barhau i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u hyfedredd yn y Gymraeg, gan gynnwys astudio cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ysgolion Uwchradd Gwynedd yn cydweithio gyda Choleg Addysg Bellach Menai a Choleg Addysg Bellach Meirion Dwyfor sydd yn rhan o Grŵp Llandrillo Menai er mwyn darparu Cwricwlwm eang a chytbwys i ddysgwr CA4 a CA5 yn y sir. Mae disgyblion Bl10, Bl11, Bl12 a Bl13 yn mynychu'r colegau un prynhawn yr wythnos er mwyn dilyn cyrsiau sydd y rhan fwyaf yn alwedigaethol eu natur.

Ar ôl i'r ysgolion fynd trwy'r broses o gyda'r disgyblion o ddewis eu pynciau ar gyfer eu haddysg CA4 ac Ôl-16 mae'r ysgolion yn trosglwyddo gwybodaeth graidd y disgyblion allan o SIMS trwy ddull electronig ddiogel i'r colegau. Fel rhan o'r daenlen ar gyfer bob ysgol mae'r ysgol yn adnabod cyfrwng iaith y dymunir i'r disgyblion dderbyn eu haddysg yn y coleg. Trwy'r dull yma mae'r athrawon a staff gweinyddol yn y coleg yn ymwybodol o'r dewis cyfrwng iaith ar gyfer bob disgybl. Mae'r oll brosesau o gofrestru gyda'r byrddau arholiad a nodi cyfrwng iaith papurau arholiad yn dilyn y wybodaeth yma.

Yn ystod eu hastudiaethau yn y coleg mae'r ysgolion yn canfod barn dysgwr ac yn dilysu eu bod yn derbyn eu haddysg trwy'r cyfrwng iaith fel amlygwyd ar gychwyn y cwrs. Os oes unrhyw anghysondeb bydd cysylltu gyda'r Cydlynydd Cyrsiau 14-19 Gwynedd ac Ynys Môn ac Uwch Dim Rheoli yn y coleg er mwyn datrys unrhyw anghysondeb. Mae'r protocolau cytunedig yn nodi nid yw yn bosib i ddisgyblion newid cyfrwng iaith eu haddysg yn y coleg heb drafodaeth gyda'r Uwch Dim Rheoli yn eu hysgol a'u rhieni. Dim ond yn sgil trafodaethau o'r fath ac arweiniad o'r ysgol i staff gweinyddol a staff dysgu'r coleg bydd unrhyw newid cyfrwng iaith y dysgu ac addysgu yn y coleg ar gyfer disgyblion unigol.

Fel rhan o'r broses flynyddol o gynllunio'r ddarpariaeth cyrsiau cydweithredol mae canfod cyfrwng iaith y ddarpariaeth ar gyfer bob cwrs. Mae bob rhandeiliad (Ysgolion a Cholegau, Disgyblion a Rhieni) yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael cyn dewis cwrs.
Yn flynyddol wrth adolygu'r cynnig cyrsiau a cynllunio ar gyfer y flwyddyn addysgol canlynol mae anogaeth a cefnogaeth o'r AALl i darparwyr cyrsiau i'w cynyddu eu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae cynnydd yn y nifer o gyrsiau ar gael trwy'r cyfrwng y Gymraeg yn y Colegau ar gyfer disgyblion cyrsiau partneriaeth 14-19 o'r ysgolion wedi amlygu dros y 10 mlynedd diwethaf.

Mae ysgolion Uwchradd Gwynedd yn cydweithio gyda'i gilydd er mwyn darparu Cwricwlwm eang a chytbwys i ddysgwr CA4 a CA5 yn y sir. Mae disgyblion Bl10, Bl11, Bl12 a Bl13 yn mynychu ysgolion eraill yn ystod yr wythnos er mwyn dilyn cyrsiau Lefel 2, Lefel 1 a Lefel Mynediad ar gyfer Bl10 a Bl11 a Lefel 3 ar gyfer Bl12 a Bl13.

Ar ôl i'r ysgolion mynd trwy'r broses o gyda'r disgyblion o ddewis eu pynciau ar gyfer eu haddysg CA4 ac Ôl-16 mae'r ysgolion yn trosglwyddo gwybodaeth graidd y disgyblion allan o SIMS trwy ddull electroneg i mewn i system SIMS yr ysgol sydd yn darparu'r cwrs wrth ddefnyddio CTF . Fel rhan o'r data SIMS ar gyfer bob ysgol mae'r ysgol yn adnabod cyfrwng iaith y dymuni'r i'r disgyblion derbyn eu haddysg yn yr ysgol arall. Trwy'r dull yma mae'r athrawon a staff gweinyddol yn yr ysgol sydd yn darparu'r cwrs yn ymwybodol o'r dewis cyfrwng iaith ar gyfer bob disgybl.

Mae'r oll brosesau o gofrestru gyda'r byrddau arholiad a nodi cyfrwng iaith papurau arholiad yn dilyn y wybodaeth yma.

Yn ystod eu hastudiaethau yn yr ysgol sydd yn darparu'r cwrs mae'r fam ysgol y disgyblion yn canfod barn dysgwr ac yn dilysu eu bod yn derbyn eu haddysg trwy'r cyfrwng iaith fel amlygwyd ar gychwyn y cwrs. Os oes unrhyw anghysondeb bydd cysylltu gyda'r Cydlynydd Cyrsiau Partneriaeth 14-19 Gwynedd ac Ynys Môn ac Uwch Dim Rheoli yn yr ysgol sydd yn darparu'r cwrs er mwyn datrys unrhyw anghysondeb. Mae'r protocolau cytunedig yn nodi nid yw yn bosib i ddisgyblion newid cyfrwng iaith eu haddysg yn yr ysgol sydd yn darparu'r cwrs heb drafodaeth gyda'r Uwch Dim Rheoli yn eu mam ysgol a'u rhieni. Dim ond yn sgil trafodaethau o'r fath ac arweiniad o'r ysgol i staff gweinyddol a staff dysgu'r ysgol sydd yn darparu'r cwrs bydd unrhyw newid cyfrwng iaith y dysgu ac addysgu yn yr ysgol sydd yn darparu'r cwrs ar gyfer disgyblion unigol.
Fel rhan o'r broses flynyddol o gynllunio'r ddarpariaeth cyrsiau cydweithredol rhwng ysgolion mae canfod cyfrwng iaith y ddarpariaeth ar gyfer bob cwrs. Mae bob rhandeiliad (Ysgolion, Disgyblion a Rhieni) yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael cyn dewis cwrs.
Yn flynyddol wrth adolygu'r cynnig cyrsiau a chynllunio ar gyfer y flwyddyn addysgol ganlynol mae anogaeth a chefnogaeth o'r AALl i ddarparwyr cyrsiau i'w cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Mae cynnydd yn y nifer o gyrsiau ar gael trwy'r cyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion ar gyfer disgyblion cyrsiau partneriaeth 14-19 rhwng ysgolion wedi amlygu dros y 10 mlynedd diwethaf.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### Ble?:

Bydd cynnydd yn y niferoedd o ddysgwyr sy'n :

- cael eu cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc.
- ennill graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.
- cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf tri chymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlynyddoedd 10 ac 11.
- cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach ar Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlynyddoedd 10 ac 11.
- cael eu cofrestru i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc Safon Uwch.
- astudio cymwysterau Lefel 3 drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd dylanwad cadarnhaol y Gyfundrefn Drochi'n y Sir i'w weld ar gynnydd disgyblion.

### Sut?:

- bydd pob ysgol yn ymateb i dargedau, a bydd cynhaliaeth briodol yn cael ei chynnig a'i monitro'n gyson i'w galluogi i gyflawni'r cynnydd.
- sicrhau bod y gweithlu'n cwblhau Hunanasesiad Iaith yn rheolaidd ar Hunanwasanaeth.
- ystyried proffil ieithyddol gweithlu'r ysgolion hynny sydd ar hyn o bryd wedi'u lliwio'n goch, ochr yn ochr â gofynion y Dynodiadau Iaith yr Awdurdod, er mwyn blaenoriaethu rhaglen o Hyfforddiant i gefnogi sgiliau ieithyddol staff.
- monitro cynnydd ac effaith yr hyfforddiant i sicrhau'r datblygiad disgwyliedig i allu cyflawni gofynion y categorïau ieithyddol.
- cynnal awdit o gyfrwng darpariaeth Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16 ac ymateb i'r canfyddiadau.

- sicrhau bod gofynion Dynodiadau Iaith yr Awdurdod yn cael eu hymgorffori mewn polisïau Recriwtio a Phenodi, a'u hadolygu yn drylwyr.
- ystyried lleoliad Uned Drochi newydd ardal Bangor er mwyn cefnogi'r broses bontio a throchi newydd-ddyfodiaid yn haws. Hyn eisoes yn gynllun ar gyfer yr ysgol arall yn Ne'r sir, sef Ysgol Tywyn.
- mapio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir o fewn y categoriau presennol a'r categoriau newydd yn unol â'r canllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- gweithio gydag ysgolion sydd gyda photensial i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan anelu at newid categori yr ysgolion hynny yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- cyd-weithio'n agos gyda'r ysgolion Uwchradd o fewn y Sir i lunio, cefnogi a monitro Cynlluniau Gweithredu priodol i gyflawni'r targedau a osodir. Bydd hyfforddiant ar gael i uwch sgilio'r gweithlu, a buddsoddir mewn adnoddau i gefnogi hynny.
- buddsoddi mewn athro/athrawes Datblygu'r Gymraeg yn un o ysgolion Uwchradd y Sir er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Byddwn yn parhau i gynnal y niferoedd uchel o ddysgwyr sy'n :

- cael eu cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc.
- ennill graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.
- cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf tri chymhwyster pellach drwy gyfrwng ym mlynyddoedd 10 ac 11.
- cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach ar Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlynyddoedd 10 ac 11.
- cael eu cofrestru i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc Safon Uwch.
- astudio cymwysterau Lefel 3 drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd dylanwad cadarnhaol y Gyfundrefn Drochi'n y Sir ar gynnydd y disgyblion wedi gwreiddio.

## Data Allweddol

**Data presennol:**

| | | % | Nifer |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | Dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf tri chymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. | 71.3% | 876 |
| 2020/21 | Dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg. | 67.8% | 793 |
| 2020/21 | Dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf). | 87% | 1068 |
| 2020/21 | Dysgwyr ar ddiwedd Bl.11 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf. | 75.3% | 755 |
| 2020/21 | Dysgwyr ar ddiwedd Bl.11 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith. | 91.3% | 240 |
| 2020/21 | Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc Safon Uwch. | 12.3% | 44 |

## Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg:

### Niferoedd a % y dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf tri chymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 876 | 71.3% | 884 | 72% | 896 | 73% | 908 | 74% | 936 | 76.2% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 946 | 77% | 956 | 78% | 970 | 79% | 982 | 80% | 996 | 81.1% |

### Niferoedd a % y dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 793 | 67.8% | 795 | 68% | 806 | 69% | 829 | 71% | 853 | 73% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 865 | 74% | 876 | 75% | 888 | 76% | 900 | 77% | 913 | 78.1% |

### Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc TGAU.

| 2022 - 2023 | 2023 - 2024 | 2024 - 2025 | 2025 - 2026 | 2026 - 2027 |
|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1068 | 87% | 1080 | 88% | 1092 | 89% | 1105 | 90% | 1117 | 91.2% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 1129 | 92% | 1142 | 93% | 1154 | 94% | 1166 | 95% | 1188 | 96% |

| Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc Safon Uwch. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 44 | 12% | 47 | 13% | 51 | 14% | 55 | 15% | 58 | 16% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 62 | 17% | 65 | 18% | 69 | 19% | 73 | 20% | 73 | 20% |

| Dysgwyr sy'n astudio cymwysterau Lefel 3 drwy gyfrwng y Gymraeg. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 182 | 50% | 193 | 53% | 200 | 55% | 207 | 57% | 218 | 60% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 226 | 62% | 233 | 64% | 240 | 66% | 248 | 68% | 259 | 70% |

# Deilliant 5

## Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

### Ble rydym ni nawr?

Cyflawnir prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd trwy:

- gefnogi datblygiad sgiliau iaith disgyblion i allu defnyddio'r Gymraeg
- drwytho'r dysgwyr mewn agweddau cadarnhaol o safbwynt Y Gymraeg
- cynnig cyfleoedd i ddenyddio'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd
- greu awydd i fod eisiau defnyddio'r Gymraeg

Mae ymroddiad a pherchnogaeth y tîm arweinyddiaeth ym mhob ysgol yn gadarn o'i phlaid ac â disgwyliadau uchel o safbwynt ei gweithredu. Mae strwythur staffio'r ysgolion yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am weithrediad gwahanol agweddau o fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni. Mae rôl y Cydlynwyr Iaith yn glir ac yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws pob clwstwr o fewn y Sir.

Cynllunia pob ysgol yn fwriadus i gynnig cyfleoedd a phrofiadau ffurfiol ac anffurfiol i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg. Cefnogir pob cyfle i'r disgyblion ddefnyddio neu ymarfer yr iaith a'u cynorthwyo i sylweddoli bod byd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog yn gysylltiedig â'r Gymraeg.

- Defnyddir data o Hunanasesiad Iaith Gymraeg y gweithlu i sicrhau fod unrhyw anghenion hyfforddi yn cael eu diwallu er mwyn cefnogi sgiliau llafar y disgyblion.
- Caiff y Gwe Iaith ei gwblhau ddwy waith yn ystod blwyddyn addysgol. Gwneir defnydd o'r data i ganfod gwaelodlin o batrymau ac arferion ieithyddol dysgwyr oddi fewn a thu allan i furiau'r ysgol. Gwneir defnydd o'r data ynglŷn a'u hagweddau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer camau gweithredu pellach.
- Ceir cytundeb ar drefn atebolrwydd rhwng y Swyddogion Addysg, Consortia Rhanbarthol GwE a Chydlynwyr Iaith pob dalgylch.
- Mae dealltwriaeth o'r mesuryddion a dulliau amrywiol o fesur effaith a ddefnyddir wrth weithredu pob Cynllun Clwstwr Y Gymraeg.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### Ble?:

Bydd ysgolion yn sicrhau bod:

- bri a gwerth i'r Gymraeg wrth annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu ac yn parhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd.
- ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei hybu ymysg disgyblion a rhieni.
- Cyngor Iaith yn gweithredu'n effeithiol ym mhob ysgol.
- cydweithio agos gyda phartneriaethau allanol megis Yr Urdd, Hunaniaith, er mwyn meithrin agweddau iach a chynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

- Llais y Disgybl yn ganolog yn y cynlluniau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol a thrwy gyfryngau digidol a chyfryngau cymdeithasol.
- data'r Gwe Iaith yn cael ei ddefnyddio fel gwaelodlin wrth gytuno ar gamau gweithredu.

## Sut?:

Byddwn yn:

- parhau i hybu egwyddorion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith i arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.
- parhau i gefnogi ysgolion i hybu ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg ymysg disgyblion a rhieni.
- sicrhau bod Cyngor Iaith yn gweithredu mhob ysgol ac yn glir o'u rôl a'u dyletswyddau.
- parhau i hwyluso cydweithio effeithiol rhwng ysgolion a phartneriaethau allanol megis Yr Urdd, Hunaniaith, er mwyn meithrin agweddau iach a chynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
- cefnogi ysgolion i sicrhau bod Llais y Disgybl yn ganolog yn y cynlluniau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol a thrwy gyfryngau digidol a chyfryngau cymdeithasol.
- annog cydweithio rhwng ysgolion o fewn y Sir i sicrhau rhannu arferion da a chreu cysylltiadau fydd yn hybu defnydd o'r iaith.
- creu cysylltiadau a chyfleoedd i ymestyn rhannu arferion da y tu hwnt i ffiniau'r Sir.
- cefnogi ysgolion i allu defnyddio data'r Gwe Iaith fel gwaelodlin wrth gytuno ar gamau gweithredu.
- parhau i gynnal trafodaethau gyda'r Cyd-gysylltwyr Iaith ar y dulliau mwyaf hylaw ac effeithiol o rannu arferion da a'u rhannu ymysg clystyrau o fewn yr Awdurdod.
- sefydlu Bwrdd Prosiect Deilliant 5 i sicrhau cydweithio a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid perthnasol e.e Yr Urdd, CFfI, Hunaniaith, gyda'r bwriad o fapio'r gweithgareddau a gynigir gan bartneriaethau o fewn y Sir.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn rhan ganolog o Gynlluniau Datblygu pob ysgol. Bydd ymroddiad a pherchnogaeth gadarn ohonynt, a bydd disgwyliadau uchel o safbwynt ei gweithredu.  Gwelir effaith i'r gweithredu drwy gyfrwng y data a gesglir.

## Data Allweddol

### Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol:

**Canran o blant cynradd/uwchradd sydd wedi llenwi'r Gwe Iaith sy'n hyderus i wneud defnydd o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd 75% | Uwchradd 75% | Cynradd 78.5% | Uwchradd 78.5% | Cynradd 79% | Uwchradd 85% | Cynradd 80% | Uwchradd 87% | Cynradd 82% | Uwchradd 90% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| Cynradd 83% | Uwchradd 91% | Cynradd 84% | Uwchradd 92% | Cynradd 85% | Uwchradd 93% | Cynradd 86% | Uwchradd 94% | Cynradd 87% | Uwchradd 95% |

**Nifer o blant cynradd/uwchradd sydd yn aelodau o'r Urdd yn yr ysgolion.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd 3973 | Uwchradd 1855 | Cynradd 3980 | Uwchradd 1860 | Cynradd 3985 | Uwchradd 1865 | Cynradd 3990 | Uwchradd 1870 | Cynradd 3995 | Uwchradd 1875 |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| Cynradd 4000 | Uwchradd 1880 | Cynradd 1005 | Uwchradd 1885 | Cynradd 1010 | Uwchradd 1890 | Cynradd 1015 | Uwchradd 1895 | Cynradd 1020 | Uwchradd 1990 |

**Nifer o ysgolion cynradd/uwchradd sy'n llwyddo i gyrraedd disgwyliadau uchaf y Siarter Iaith/Strategaeth Iaith Uwchradd.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd 75% | Uwchradd 75% | Cynradd 78.5% | Uwchradd 78.5% | Cynradd 79% | Uwchradd 85% | Cynradd 80% | Uwchradd 87% | Cynradd 82% | Uwchradd 90% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| Cynradd 83% | Uwchradd 91% | Cynradd 84% | Uwchradd 92% | Cynradd 85% | Uwchradd 93% | Cynradd 86% | Uwchradd 94% | Cynradd 87% | Uwchradd 95% |

## Deilliant 6

## Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

### Ble rydym ni nawr?

Mae gofyn statudol o fewn Deddfwriaeth ADY (2018), ddaeth i rym ym Medi 2021, i sicrhau fod dysgwyr yn gallu cael darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae pob aelod o staff o fewn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu yn ddwyieithog. Mae cyfrwng iaith y mewnbwn yn ddibynnol ar anghenion dysgu unigolion.

Mae heriau yn bodoli ar gyfer rhai swyddi arbenigol o ran cynnal y lefel o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn benodol ym Maes Seicoleg Addysgol, ac mae’n debygol o fod yn her yn y maes mewnbwn Namau Synhwyraidd o fewn y 10 mlynedd nesaf.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

#### Ble?:

Bydd y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant yn:

- parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o’r daith addysgol.
- parhau i gynllunio darpariaeth o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a’u teuluoedd.
- parhau i weithredu gofynion Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn.
- parhau asesu maint a gallu’r Gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio’r canlyniadau i gynllunio’r gweithlu’n briodol.

#### Sut?:

Byddwn yn:

- ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a’r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- defnyddio canfyddiadau arolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwella darpariaeth ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio gweithlu o fewn y sector ADY.
- cynnal archwiliad blynyddol o wasanaethau ADY a Chynhwysiad os bydd bylchau’n ymddangos yn y ddarpariaeth Gymraeg.
- monitro, asesu’r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a’u teuluoedd, a pharhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy’n gwbl ddwyieithog.
- ystyried unrhyw geisiadau rhesymol am gymorth a chefnogaeth gan siroedd eraill y rhanbarth sydd yn wynebu anawsterau o ran eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

| Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd? |
| --- |
| Bydd lefel staffio arbenigol (h.y. swyddi sydd yn Statudol o fewn Deddfwriaeth ADY a Tribiwnlys Cymru (2018) yng Ngwynedd yn ddigonol ar gyfer ymateb i'r gofyn fydd yn bodoli. Bydd gennym gynllun recriwtio addas ar gyfer cynllunio'r gweithlu dros yr hir dymor, ac fe fydd pob darpariaeth ac ymyrraeth sydd yn angenrheidiol ar gyfer hybu cynhwysiad dysgwyr gyda ADY ar gael yn ddwyieithog. |

# Deilliant 7

## Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Yn sgil cwblhau Holiadur Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg, mae gwaith manwl wedi'i gyflawni i edrych ar y canfyddiadau, ac ystyried pa hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol sydd ei hangen ar weithlu'n hysgolion. Trefnwyd cyrsiau a hyfforddiant i ymateb i'r anghenion a amlygwyd yn sgil cynnal yr holiadur. Rydym yn cydweithio'n agos gyda Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor a Chonsortia Rhanbarthol GwE er mwyn sicrhau bod cyrsiau Dysgu Cymraeg priodol ar gael i'r gweithlu addysg ar lefel Sylfaenol, Canolradd, Uwch neu er mwyn Gloywi Iaith a Chodi Hyder. Disgwylir i'r gweithlu addysg (athrawon, cymorthyddion, cymorthyddion cegin) ddiweddaru Holiadur Sgiliau Iaith yn flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn addysgol er mwyn sicrhau data sydd yn gyfredol, i alluogi cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar eu cyfer, fydd yn eu galluogi i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu yn y broses recriwtio, a thargedau yn cael eu monitro i sicrhau cynnydd yn y nifer.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Ble?:**

- Bydd cynnydd yn y canran o athrawon sy'n hyderus i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng Y Gymraeg yn ein hysgolion.
- Bydd cynnydd yn y canran o bynciau ym mlynyddoedd 10 ac 11 ac ym mlynyddoedd 12 ac 13, sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg.
- Bydd pob swydd addysgu a hysbysebir yn cynnwys cyfeiriad at Ddynodiad Iaith y swydd.
- Bydd Llywodraethwyr pob ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth o ofynion ieithyddol swyddi a hysbysebir ac o oblygiadau methu llwyddo i benodi yn unol â gofynion ieithyddol y swydd.

**Sut?:**

Byddwn yn:

- gwneud defnydd o ddata Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu i lywio gwaith cynllunio'r gweithlu a rhagdybio faint o athrawon fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ragdybiaethau.
- cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol GwE a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.
- cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a darparwyr addysg gychwynnol i athrawon er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.
- cynorthwyo athrawon a gweithwyr cymorth i wella'u sgiliau Cymraeg a'u sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg drwy ddefnyddio cyrsiau fel Cynllun Sabothol a chynllunio ôl-ofal i unigolion ar ddiwedd cwrs, mewn cydweithrediad gyda chonsortia rhanbarthol GwE
- cefnogi gweithlu'r ysgolion i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, i loywi iaith, yn ogystal â'u gallu i ddysgu ac addysgu yn Gymraeg.

- darparu a hyrwyddo Dysgu Proffesiynol Parhaus sy'n cefnogi hyfforddiant i athrawon ym methodoleg addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan fanteisio ar enghreifftiau o arfer dda sydd eisoes ar waith yn nifer yr ysgolion ac ymchwil ddiweddar wrth wneud hynny.
- datblygu hyfforddiant i gymorthyddion ac athrawon gan gynnal gweithdai cydweithredol ar ddatblygu cyfleoedd Llafaredd cyfoethog ac estynedig mewn dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen.
- cefnogi un ysgol benodol drwy benodi athro/athrawes Datblygu'r Gymraeg.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Byddwn yn parhau i gynnal y ganran uchel o athrawon sy'n hyderus i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng Y Gymraeg yn ein hysgolion. Byddwn yn parhau i:

- sicrhau canrannau uchel o bynciau ym mlynyddoedd 10 ac 11, ac ym mlynyddoedd 12 ac 13 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg.
- sicrhau bod pob swydd addysgu a hysbysebir yn cynnwys cyfeiriad at Ddynodiad Iaith y swydd.
- gydweithio gyda Llywodraethwyr pob ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb yn llawn i ddisgwyliadau ieithyddol Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel Ysgolion Gwynedd.

## Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg:

**Nifer a chanran yr athrawon sy'n hyderus i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng Y Gymraeg yn ein hysgolion.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd 99.2% | Uwchradd 86.3% | Cynradd 99.2% | Uwchradd 87% | Cynradd 99.5% | Uwchradd 89% | Cynradd 99.7% | Uwchradd 90% | Cynradd 100% | Uwchradd 93% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 – 2032** | |
| Cynradd 100% | Uwchradd 94% | Cynradd 100% | Uwchradd 96% | Cynradd 100% | Uwchradd 97% | Cynradd 100% | Uwchradd 98% | Cynradd 100% | Uwchradd 100% |

**Nifer (Cyfanswm) a chanran y pynciau ym mlynyddoedd 10 ac 11 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 296 | 69.5% | 302 | 71% | 306 | 72% | 311 | 73% | 315 | 74% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| 319 | 75% | 323 | 76% | 328 | 77% | 332 | 78% | 340 | 80% |

**Nifer (Cyfanswm) a chanran y pynciau ym mlynyddoedd 12 ac 13 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 132 | 57.9% | 132 | 58% | 134 | 59% | 136 | 60% | 139 | 61% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| 141 | 62% | 143 | 63% | 145 | 64% | 148 | 65% | 150 | 66% |

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

### CYLCH GORCHWYL FFORWM IAITH ADDYSG GWYNEDD

**PWRPAS:**

I gymryd trosolwg o holl agweddau'r CSGA, gan sicrhau comisiynu addas, cynnydd ar gamau gweithredu a deilliannau, a chyd-lynedd y gweithredu i gyflawni'r deilliannau fel un cyfanwaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- Trosolwg o'r holl ddeilliannau
- Darparu arweiniad a chyngor cyffredinol i bob deilliant
- Briffio a herio cynnydd ar gamau gweithredu
- Comisiynu gwaith gan yr unigolion sydd yn arwain y deilliannau ynghyd â chomisiynu gwasanaethau eraill yn ôl yr angen
- Awdurdodi unrhyw newidiadau o bwys i ddeilliant unigol neu'r CSGA fel cyfanwaith
- Ystyried unrhyw gyfyngiadau allanol ar y deilliannau neu'r CSGA fel cyfanwaith
- Adnabod a dileu unrhyw rwystrau mewnol neu allanol i ddeilliant unigol neu'r CSGA fel cyfanwaith.

**AMLDER CYFARFODYDD:**

Bydd y Fforwm Iaith Addysg yn cyfarfod hyd at 3 gwaith y flwyddyn. Pe cyfyd materion fydd angen eu dyrchafu gan yr unigolion sy'n arwain ar ddeilliannau unigol y CSGA, yna bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

**RÔL:**

Mae'r Fforwm Iaith Addysg wedi ei awdurdodi i weithio o fewn i derfynau amser, cyllid ac ansawdd i sicrhau y cyflawnir deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.
Disgwylir i'r Fforwm Iaith Addysg liniaru unrhyw risgiau sydd yn codi, dileu rhwystrau, ynghyd â monitro perfformiad a chynnydd o safbwynt deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.
Bydd y Fforwm Iaith Addysg yn gweithredu fframwaith llywodraethu priodol i gefnogi'r CSGA er mwyn cyrraedd y deilliannau disgwyliedig.

**DOGFENNAETH:**

Bydd dogfennau perthnasol ar gyfer sylw aelodau yn cael eu dosbarthu oddeutu wythnos o flaen llaw. Caiff y ddogfennaeth ei chylchredeg yn electroneg, a bydd copi caled ar gael yn ôl yr angen.


**TREFNIADAU ADRODD:**

Disgwylir i allbwn cyfarfodydd y Fforwm Iaith Addysg gael eu cofnodi a'u cadw fel rhan o ddogfennaeth y CSGA. Bydd dogfennaeth cyfarfodydd y Fforwm Iaith Addysg a'r allbynnau yn gyfrwng i lunio Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar weithrediad y CSGA. Caiff Adroddiad Blynyddol y CSGA ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi cyn cael ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru.

**AMSERLEN:**

Bydd y Fforwm Iaith Addysg yn para hyd y CSGA, sef 10 mlynedd. Caiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu'n flynyddol, neu'n achlysurol yn ôl yr angen

**STRWYTHUR ARFAETHEDIG CSGA**




**AELODAETH FFORWM IAITH ADDYSG GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| Garem Jackson(Cadeirydd) | Pennaeth Addysg, |
| Debbie Anne Jones | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |
| Rhys Glyn | Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi |
| Iwan Hywel | Pen Swyddog Hunaniaith |
| Llywela Haf Owain | Uwch Swyddog Iaith a Chraffu |
| Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |

| | |
|---|---|
| Menna Jones | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (Iaith) |
| Cai Larsen | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Elfed Wyn ap Elwyn | Pwyllgor Iaith |
| Gwern ap Rhisiart | Arweinydd Deilliant 1 CSGA |
| Rhys Glyn | Arweinydd Deilliant 2 CSGA |
| Rhys Glyn | Arweinydd Deilliant 3 CSGA |
| Gwyn Tudur | Arweinydd Deilliant 4 CSGA |
| Sian Eirug/Gwenan Ellis Jones | Arweinydd Deilliant 5 CSGA |
| Ffion Edwards Ellis | Arweinydd Deilliant 6 CSGA |
| Gwyn Tudur | Arweinydd Deilliant 7 CSGA |

**ATODIAD 3**

# *POLISI IAITH YSGOLION GWYNEDD 2021*
# *GWYNEDD SCHOOLS LANGUAGE POLICY 2021*

***Ysgol***

***Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted:***
***Dyddiad Adolygu/Review Date:***

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: ___________________________________________________**

**Dyddiad: _______________________________**

**Cefndir**

Gosodir disgwyliadau penodol ar Adran Addysg Cyngor Gwynedd i gyfrannu tuag at strategaethau a deddfwriaeth cenedlaethol o ran hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Y mae'n ofynnol, o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013), ac i gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, i bob Awdurdod Addysg Lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf.

Gosodir gofyniad statudol ar y Cyngor hefyd o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i lunio a chyhoeddi strategaethau sirol fydd yn amlinellu sut y byddant yn cyfrannu at y nod cenedlaethol a osodir yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, i gynyddu nifer y siaradwyr ledled Cymru ac i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae strategaeth Iaith sirol Gwynedd – Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23 - yn gosod yr ymrwymiad a'r weledigaeth ar gyfer y sir, ac mae gwaith yr Adran Addysg a nodau'r CSGA yn cyfrannu at amcanion y strategaeth sirol honno.

Mae hybu'r defnydd o'r Gymraeg hefyd yn un o amcanion gwella Cyngor Gwynedd, gyda Chynllun Strategol y Cyngor yn datgan mai'r nod yw gweld: "Pobl Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, y gweithle, ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus".

Mae'r polisi hwn felly wedi ei lunio er mwyn rhoi crynodeb o'r disgwyliadau a osodir ar Benaethiaid a'u hysgolion mewn perthynas â hybu defnydd o'r Gymraeg, ac i gadarnhau y gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli yn y cyd-destun hwn.

Mae'r polisi wedi ei rannu yn bedair adran, gan amlinellu'r arfer gorau dan y penawdau canlynol:

- **Cyfrwng Addysg**
- **Defnydd Cymdeithasol**
- **Recriwtio a Phenodi staff**
- **Gweinyddiaeth a Chyfathrebu**

Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, gymeradwyo a mabwysiadu'r Polisi Iaith hwn.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; disgwylir i'r Pennaeth roi arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nod y polisi ac i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn atgyfnerthu ymdrechion athrawon dosbarth drwy sicrhau ethos Gymraeg a Chymreig yn yr ysgol.

## AMCANION CYFFREDINOL Y POLISI

Prif nod y Polisi yw sicrhau bod Penaethiaid, staff yr ysgolion a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir, ac i sicrhau bod hawl y disgyblion a theulu estynedig yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol yn cael ei barchu bob amser.

Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau:

- bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.

- bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.

- bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Er mai nod cyffredinol y Polisi o ran cyfrwng yr addysg yw datblygu dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar [meithrin ac yn y blynyddoedd yn arwain at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen] er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y Cyfnodau Allweddol eraill, disgwylir gweld strategaeth bwrpasol yn cael ei gweithredu er mwyn galluogi disgyblion o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg i ddatblygu eu gafael ar y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd . Yn y cyd-destun hwn, bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir.

## 1. CYFRWNG ADDYSG

| |
|---|
| **EGWYDDOR CYFFREDINOL**<br><br>**Disgwylir i holl ysgolion y sir weithredu mewn modd sydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i gynyddu a gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.** |

### 1.1 YSGOLION CYNRADD

Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol gynradd.

**Blynyddoedd Cynnar**:
Disgwylir i ysgolion cynradd osod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.

**Cyfnod Sylfaen:**
Dylid adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu

sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd pob ysgol yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd y CS. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

**Cyfnod Allweddol 2:**
Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion wneud defnydd o'r Saesneg fel cyfrwng wrth i ddisgyblion symud drwy CA2. Bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir. Disgwylir i'r trefniant hwn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ym mhob ardal ar draws y sir. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi, neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm yn llawn trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog.

## 1.2 YSGOLION UWCHRADD

Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol uwchradd.

Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd Lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 ddilyn Rhaglen Astudio Cymraeg [Iaith Gyntaf] er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

Disgwylir i ysgolion adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen defnyddio'r wybodaeth a drosglwyddir am gyrhaeddiad ieithyddol pob disgybl gan y Cydlynwyr Clwstwr y Gymraeg ar gyfer cynllunio ieithyddol bwriadus ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd. Yn ymarferol, bydd angen gweithredu yn y modd a ganlyn:

- Yn achos **disgyblion sydd â hyfedredd yn y Gymraeg** ond sydd angen datblygu ymhellach eu gafael ar y Gymraeg a gwella sgiliau penodol yn y Saesneg [Carfannau A a B], disgwylir y bydd cyfran helaeth o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, cynllunnir profiadau penodol ar draws y cwricwlwm er mwyn iddynt ddatblygu a gwella'u sgiliau yn y Saesneg. Mewn achosion o'r fath disgwylir i'r amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg fod yn cyfateb yn fras i 70%:30%.

- Yn achos **disgyblion sydd angen datblygu ac atgyfnerthu eu sgiliau** yn y Gymraeg [Carfan C1] cynllunnir y cwricwlwm mewn modd fydd yn caniatáu iddynt ymarfer a datblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Mewn achosion o'r fath disgwylir i'r amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg fod yn 50% o leiaf.

- Yn achos lleiafrif y **disgyblion sydd â sgiliau priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau priodol yn y Gymraeg** [Carfan C2], rhoddir pwyslais ar gynllunio cyfleoedd ar

draws y cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau llafar yn y Gymraeg. Mewn achosion o'r fath disgwylir i'r amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg fod yn 30% o leiaf.

Disgwylir i'r drefn a ddisgrifir uchod, o'i gweithredu'n effeithiol mewn ysgol, ddatblygu a chynyddu dwyieithrwydd gweithredol dysgwyr a datblygu dwyieithrwydd disgyblion. Disgwylir iddo hefyd fod yn fodd i gynyddu nifer disgyblion sydd yn sefyll arholiadau CA4 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg ym mlynyddoedd cynnar CA3 yn dysgu'r iaith cyn gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu'r Gyfundrefn Drochi neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn elfennau o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog.

**DARPARU AR GYFER Y GWAHANOL GARFANNAU YN YR UWCHRADD**

Diffinia'r Polisi Iaith ddatblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt weithio tuag at y nod o ddwyieithrwydd. Disgwylir i ysgolion uwchradd wneud defnydd o'r carfannau ieithyddol ynghyd â'r ddarpariaeth ieithyddol a awgrymir er mwyn sicrhau datblygiad dwyieithog disgyblion.

| **CARFAN** | **Diffiniad o'r math o ddisgybl yn ôl ei allu ieithyddol.** | **Yr anghenion ieithyddol sydd eu hangen er mwyn datblygu sgiliau dwyieithog y disgybl.** |
|---|---|---|
| **A** | Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Addysg ddwyieithog ar draws y cwricwlwm er mwyn meithrin, atgyfnerthu ac ymestyn sgiliau yn y ddwy iaith. |
| **B** | Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond sydd ag angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg. | Addysg ddwyieithog gyda'r pwyslais ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn galluogi'r disgybl i drosglwyddo i garfan A maes o law. |
| **C1** | Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau yn y Gymraeg | Rhoi pwyslais ar ymestyn hyfedredd y disgybl yn y tri tharged cyrhaeddiad. Sicrhau y defnyddir cyfleoedd y tu allan i wersi arferol i ddatblygu gafael y disgybl ar y Gymraeg. |
| **C2** | Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau oed-berthnasol priodol yn y Gymraeg. | Rhoi pwyslais ar waith llafar a gwaith ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **CH** | Disgyblion heb sgiliau oed-berthnasol priodol yn y naill iaith na'r llall. | Cynllunio gofalus a phwrpasol ar gyfer datblygu'r sgiliau angenrheidiol yn y ddwy iaith. |

Cynigir yr isod fel canllawiau pellach i'w hystyried ar lefel ysgol unigol.

1. Disgwylir i bob ysgol ddarparu'n ofalus ar gyfer datblygu dwyieithrwydd pob disgybl trwy gynllunio ieithyddol bwriadus.

2. Disgwylir i bob ysgol ystyried y dulliau/cyfuniad o'r dulliau addysgu dwyieithog mwyaf addas a phriodol ar gyfer eu gwahanol sefyllfaoedd. Er mwyn sicrhau bod defnydd priodol yn cael ei wneud o'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng, dylid ystyried y canlynol:

- cyflwyno rhai unedau/modiwlau penodol trwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill trwy gyfrwng y Saesneg (rhaid ystyried y cyd-bwysedd priodol);
- cyflwyno rhai pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill trwy gyfrwng y Saesneg (rhaid ystyried y cyd-bwysedd priodol);
- cyflwyno geirfa allweddol/taflenni gwaith yn y ddwy iaith (rhaid ystyried a oes angen gwneud hyn ym mhob pwnc neu rai pynciau yn unig);
- trawsieithu, sef darllen/gwylio agweddau pynciol mewn un iaith a thrafod neu ysgrifennu yn y llall;
- defnyddio'r ddwy iaith fel cyfryngau i amrywiol raddau i atgyfnerthu'r naill iaith a'r llall, yn arbennig gyda Charfanau B, C1, C2, CH (rhaid defnyddio'r iaith yn fwriadus a gofalus fel na chymysgir y ddwy iaith yn ormodol ac yn ddiangen).

3. Disgwylir i bob ysgol gynnig darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr (Carfannau C1 ac C2), gan sicrhau cyswllt digonol â'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

4. Disgwylir i bob ysgol annog pob newydd-ddyfodiaid yn B7 i fynychu cwrs dwys yn y Gyfundrefn Addysg Drochi cyn gynted â phosibl. Dylid atgyfnerthu hyn â darpariaeth yn yr ysgol e.e. cynnig rhai o'r pynciau ymarferol o leiaf, i ddechrau, trwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Disgwylir i bob ysgol sefydlu trefn ar gyfer tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith, er mwyn sicrhau cynnydd yn eu hyfedredd ieithyddol, fel bod pob un yn symud tuag at Garfan A ar y continwwm ieithyddol.

## 2. DEFNYDD CYMDEITHASOL O'R GYMRAEG

**EGWYDDOR CYFFREDINOL**

**Disgwylir i bob ysgol fagu agweddau cadarnhaol ymysg y disgyblion a'r gweithlu tuag at yr iaith, gan greu balchder a chynyddu'r defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.**

*Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol gan Awdurdod addysg Gwynedd, a disgwylir y bydd pob ysgol yn:*

- Darparu data ynghylch defnydd a sgiliau iaith disgyblion yr ysgolion, a data am sgiliau iaith y gweithlu.

- Gweithio o fewn yr un fframwaith i sicrhau dysgwyr sy'n hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith Cymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

- Ymgorffori gofynion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd fel rhan annatod o Gwricwlwm yr ysgol er mwyn cyflawni gofynion y strategaeth iaith sirol - *Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023* . I sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'i sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer ei defnyddio'n gymdeithasol, i baratoi ar gyfer byd gwaith, ac i arddangos

agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith. Mae gwreiddio ac ehangu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg hefyd yn rhan greiddiol o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd.

## 3. RECRIWTIO A PHENODI

**EGWYDDORION CYFFREDNOL**

**Disgwylir i bob ysgol weithredu yn unol â'r Polisi Recriwtio a Phenodi (2021) a sicrhau bod y Gymraeg yn cael y sylw priodol wrth hysbysebu swyddi a recriwtio.**

**Disgwylir bod paneli penodi y corff Llywodraethu yn ymwybodol o'r angen i ystyried anghenion ieithyddol wrth benodi.**

**Disgwylir i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil hanfodol/allweddol ar gyfer <u>pob swydd</u>, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen i gyflawni gofynion y swydd - *gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu* - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.**

**Disgwylir i unigolion gael eu penodi sydd yn meddu ar y sgiliau ieithyddol sydd wedi eu nodi ar gyfer y swydd. Os oes unigolyn yn cael eu penodi sydd ddim yn meddu ar y sgiliau hanfodol a nodwyd ar gyfer y swydd dan sylw, disgwylir iddynt ymrwymo i raglen hyfforddiant er mwyn gwella eu sgiliau Iaith.**

**Hysbysebu**

Disgwylir i'r Dynodiad Iaith ar gyfer y swydd gael ei gynnwys ym mhob hysbyseb yn unol â'r hyn sydd wedi ei bennu ar gyfer y math o swydd yn yr atodiad *Fframwaith Iaith a Rhestr Dynodiadau Swyddi*.

**Penodi**

Cyfrifoldeb y Pennaeth/Panel Recriwtio fydd sicrhau bod unigolion sydd yn cael eu penodi yn cyrraedd y gofynion sydd wedi eu nodi ar gyfer y swydd, neu eu bod yn ymrwymo i weithio tuag at gyrraedd y gofynion hynny.

Os na fydd yn bosib penodi rhywun gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar ôl hysbysebu unwaith, gellir ystyried ail-hysbysebu er mwyn derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion iaith yn syth, ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu. Bydd modd cael arweiniad pellach am hyn gan y Swyddogion Addysg perthnasol.

**Ni fydd Dynodiadau Iaith <u>y swydd ei hun</u> yn cael eu newid o gwbl wrth ail hysbysebu.**

Mewn amgylchiadau fel hyn, disgwylir y bydd yr hysbyseb yn cynnwys y geiriad canlynol:

> *Rydym yn awyddus i ystyried ceisiadau gan unigolion sydd, o bosib, â'u sgiliau ieithyddol yn is na lefel iaith y swydd ar hyn o bryd, ond bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo i ddysgu neu ddatblygu i lefel iaith y swydd o fewn amserlen resymol. Bydd y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i gyflawni hynny.*

Mewn amgylchiadau o'r fath, ac fel rhan o'r broses benodi os bydd rhywun yn cael eu penodi nad ydynt yn cwrdd y gofynion iaith, disgwylir y bydd cynllun cymorth a hyfforddiant pwrpasol i'r

unigolyn yn cael ei chytuno a'i llunio mewn cytundeb rhwng y Swyddogion Addysg perthnasol, y Pennaeth, a deilydd y swydd, er mwyn pontio'r bwlch rhwng sgiliau'r unigolyn a'r sgiliau sydd yn ofynnol ar gyfer y swydd.

**Hyfforddiant / Ar ôl penodi**
Cyfrifoldeb y Pennaeth/Rheolwr sydd yn penodi yw sicrhau eu bod yn cael cyngor gan y Swyddogion Addysg perthnasol am hyfforddiant sydd ar gael pan fo'n briodol, a bod yr unigolyn yn mynychu unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei adnabod ar eu cyfer er mwyn datblygu eu sgiliau. Disgwylir i Benaethiaid/Rheolwyr fonitro cynnydd yr unigolyn fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad a gwerthuso parhaus.

## 4. GWEINYDDIAETH

**EGWYDDOR CYFFREDINOL**

**Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir ymrwymo i gyfathrebu gyda disgyblion, rhieni a theulu estynedig yr ysgol yn ddwyieithog, gan barchu dewis iaith a hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol.**

**Er bod disgwyl cyffredinol i wybodaeth gael ei ddarparu yn ddwyieithog, cydnabyddir hefyd mai'r Gymraeg yw iaith weithredol, naturiol, yr ysgolion ac anogir ysgolion i ystyried amgylchiadau lle mae'n briodol i gyfathrebu yn Gymraeg yn unig.**

**Cyswllt ffôn a wyneb yn wyneb**

Disgwylir y bydd modd i'r cyhoedd gael gwasanaeth dwyieithog llawn yn nerbynfeydd pob un o sefydliadau addysg y sir.

Dylid cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog wrth gysylltu dros y ffôn (gyda'r Gymraeg yn gyntaf), mewn ffordd groesawgar, a dylid ateb unrhyw alwadau gan y cyhoedd yn yr un modd.

Os bydd y sawl sy'n galw yn siarad Cymraeg, ond nad yw'r aelod o staff gweinyddol sy'n ateb yn gallu siarad Cymraeg yn ddigon rhugl i ymdrin â'r mater yn llawn, disgwylir i'r aelod o staff gweinyddol egluro hynny wedi cyfarch y galwr, a chynnig trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff fydd yn gallu ymdrin â'r mater yn llawn yn newis iaith y galwr.

Mewn achosion lle bo'r aelod o staff gweinyddol sy'n ateb galwad yn ddysgwr(aig), anogir yr aelod o staff gweinyddol i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg hyd eithaf ei (g)allu.

Disgwylir y bydd negeseuon ar beiriant ateb yr ysgol yn ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg i'w chlywed gyntaf.

**Cyswllt a gwybodaeth ysgrifenedig**

Yn holl sefydliadau addysg y sir, disgwylir i unrhyw ohebiaeth neu ddeunydd ysgrifenedig - e.e. llythyr, cylchlythyr, neges e-bost, neges testun, posteri, pamffledi - sydd wedi eu bwriadu ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid neu'r cyhoedd yn gyffredinol, gael ei ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg. Mae

hyn yn cynnwys deunydd ysgrifenedig wedi ei argraffu a deunydd a gaiff ei rannu yn electronig. i riant/warchodwr.

Dylid sicrhau bod unrhyw negeseuon sydd yn cael eu hanfon yn electronig a thrwy ddefnyddio apiau yn trin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal.

Disgwylir y bydd yr holl ddogfennau swyddogol a gaiff eu rhannu gyda’r cyhoedd yn enw’r ysgol, boed wedi eu cynhyrchu yn fewnol neu gan gorff neu sefydliad allanol, yn rhoi'r un statws i’r Gymraeg a’r Saesneg.

Disgwylir y bydd unrhyw gyfrifon ar wefannau cymdeithasol (megis Facebook a Twitter) yn dilyn yr un egwyddorion ac yn cyflwyno gwybodaeth yn ddwyieithog, gyda’r Gymraeg yn ymddangos gyntaf bob amser.

Ar yr un pryd, cydnabyddir mai Cymraeg yw iaith weithredol yr ysgol a disgwylir i’r ysgol roi ystyriaeth i amgylchiadau lle byddai defnyddio’r Gymraeg yn unig neu y ddwy iaith fod yn fwy priodol.

**Cyfarfodydd**

Yn holl sefydliadau addysg y sir, disgwylir y bydd unrhyw gyfarfod a drefnir yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyfarfodydd mewnol, cyfarfodydd gydag aelodau o staff, a chyfarfodydd y Corff Llywodraethol.

Os yn trefnu cyfarfod gyda disgybl/rhiant/gwarcheidwad i drafod materion yn ymwneud ag addysg neu unrhyw faterion personol eraill, dylid sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn newis iaith yr unigolyn. Cyfrifoldeb yr ysgol/pennaeth fydd sicrhau bod hawl unigolion i gael trafod materion personol yn ei ddewis iaith yn cael ei barchu.

Disgwylir mai’r Gymraeg fydd prif iaith unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan unrhyw sefydliadau addysg y sir.

Caniateir i unrhyw un siarad Cymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis, mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan unrhyw sefydliad addysg yn y sir, ac mae cyfrifoldeb ar yr ysgol i drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn sicrhau bod modd i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg allu deall a chyfrannu’n effeithiol tuag at y cyfarfod. Bydd disgwyl i gadeiryddion cyfarfodydd annerch a chynnal y cyfarfodydd yn Gymraeg, gan annog mynychwyr di-Gymraeg i ddefnyddio’r offer er mwyn hybu dewis iaith.

Anogir arweinwyr mewn digwyddiadau neu gyfarfodydd mwy anffurfiol, megis cyngherddau, nosweithiau agored ac ati, i gyfarch y gynulleidfa yn ddwyieithog, er mwyn cynnwys pawb.

**Darpariaeth cyfieithu:**
Gellir cael cefnogaeth Gwasanaeth Cyfieithu’r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau Llywodraethwyr, er mwyn sicrhau bod aelodau di-Gymraeg yn gallu parhau i chwarae rhan lawn mewn cyfarfod neu ddigwyddiad.

Dylid rhoi ystyriaeth i sefyllfaoedd lle byddai angen darpariaeth cyfieithu yn gyfrwng i gyfarch dewis iaith unigolyn.

**MONITRO GWEITHREDIAD Y POLISI**

Bydd Gweithrediad y Polisi yn cael ei fonitro fel rhan o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro gwasanaethau.

Gyda chymorth yr ysgolion, bydd yr Awdurdod yn adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar weithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Cynhwysir adran benodol yn Adroddiad Blynyddol pob ysgol ar weithrediad y Polisi Iaith yn yr ysgolion.

Disgwylir i'r Corff Llywodraethu adolygu a chymeradwyo'r Polisi Iaith yn unol â'r drefn adolygu polisïau blynyddol.

## ATODIAD 4 – DATA CEFNDIR YSGOLION YR YMCHWILIAD 2023

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r ysgol | | Ysgol Dyffryn Nantlle |
| Ardal | | Arfon |
| Ystod oedran | | 11 – 18 oed |
| Poblogaeth | Cyfanswm | 387 |
| | CA3 | 202 |
| | CA4 | 138 |
| | Chweched Dosbarth | 47 |
| Categori Iaith | CYBLD 2023 | 2A |
| | CYBLD 2024 | 3 |
| Enw'r Pennaeth | | Rhian Parry Jones |
| Aelod o'r UDA sy'n arwain o ran y Gymraeg | | Enid P Huws |
| Canran yn deilwng am Ginio am Ddim | | 13.5% |
| Canran gyda chyfnod ADY | | 27% |
| Plant mewn gofal | | 6 |
| Data Iaith gan rieni – data a geiriad CYBLD | | |
| Canran Rhugl a Siarad Gartref | | 76.8% |
| Canran Rhugl a Dim Siarad Gartref | | 5.5% |
| Canran Dim yn Rhugl a Siarad Gartref | | 6% |
| Canran Dim yn Rhugl a Dim Siarad Gartref | | 9.5% |
| Canran Ddim yn Siarad Cymraeg | | 0.2% |
| Gwefan Ysgol | | Hafan \| Ysgol Dyffryn Nantlle |
| Adroddiad Estyn diweddaraf | | Arolygwyd Tachwedd 2022: Ysgol Dyffryn Nantlle \| Estyn (llyw.cymru) |

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r ysgol | | Ysgol Eifionydd |
| Ardal | | Dwyfor |
| Ystod oedran | | 11 – 16 oed |
| Poblogaeth | Cyfanswm | 367 |
| | CA3 | 225 |
| | CA4 | 142 |
| | Chweched Dosbarth | Amherthnasol |
| Categori Iaith | CYBLD 2023 | 2A |
| | CYBLD 2024 | 3 |
| Enw'r Pennaeth | | Dewi Bowen |
| Aelod o'r UDA sy'n arwain o ran y Gymraeg | | Dewi Bowen |
| Canran yn deilwng am Ginio am Ddim | | 10.5% |
| Canran gyda chyfnod ADY | | 20% |
| Plant mewn gofal | | 9 |
| Data Iaith gan rieni – data a geiriad CYBLD | | |
| Canran Rhugl a Siarad Gartref | | 56.6% |
| Canran Rhugl a Dim Siarad Gartref | | 11.3% |
| Canran Dim yn Rhugl a Siarad Gartref | | 8.7% |

| | |
|---|---|
| Canran Dim yn Rhugl a Dim Siarad Gartref | 12.1 |
| Canran Ddim yn Siarad Cymraeg | 2.4% |
| Gwefan Ysgol | http://ysgoleifionydd.org/index.html |
| Adroddiad Estyn diweddaraf | Arolygwyd 2018:<br>Ysgol Eifionydd \| Estyn (llyw.cymru) |

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r ysgol | | Ysgol Godre'r Berwyn (data uwchradd) |
| Ardal | | Meirionnydd |
| Ystod oedran | | 3 – 18 oed |
| Poblogaeth | Cyfanswm | 383 |
| | CA3 | 195 |
| | CA4 | 137 |
| | Chweched Dosbarth | 51 |
| Categori Iaith | CYBLD 2023 | 2A |
| | CYBLD 2024 | 3 |
| Enw'r Pennaeth | | Bethan Emyr |
| Aelod o'r UDA sy'n arwain o ran y Gymraeg | | Bethan Emyr |
| Canran yn deilwng am Ginio am Ddim | | 9.7% |
| Canran gyda chyfnod ADY | | 10% |
| Plant mewn gofal | | 14 |
| Data Iaith gan rieni – data a geiriad CYBLD | | |
| Canran Rhugl a Siarad Gartref | | 64.4% |
| Canran Rhugl a Dim Siarad Gartref | | 13.4% |
| Canran Dim yn Rhugl a Siarad Gartref | | 3.2% |
| Canran Dim yn Rhugl a Dim Siarad Gartref | | 8.9% |
| Canran Ddim yn Siarad Cymraeg | | 4.1% |
| Gwefan Ysgol | | https://www.ysgolgodrerberwyn.cymru/adref.htm |
| Adroddiad Estyn diweddaraf | | Fel Ysgol y Berwyn 2013 gydag adroddiad Monitro 2015:<br>Ysgol Y Berwyn \| Estyn (llyw.cymru) |

# ATODIAD 5 – DATA DARPARIAETH CYFRWNG GYMRAEG YR YSGOLION

| | Ysgol Dyffryn Nantlle | | Godre'r Berwyn | | Eifionydd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer | Nifer cohort llawn y flwyddyn berthnasol | Nifer | Nifer cohort llawn y flwyddyn berthnasol | Nifer | Nifer cohort llawn y flwyddyn |
| **Nifer** disgyblion Bl.7 sy'n dilyn 80% neu fwy o'u cyrsiau (oni bai am y Gymraeg) drwy gyfrwng y Gymraeg | 59 | 59 | 69 | 69 | 60 | 63 |
| **Nifer** disgyblion Bl.8 sy'n dilyn 80% neu fwy o'u cyrsiau (oni bai am y Gymraeg) drwy gyfrwng y Gymraeg | 79 | 79 | 64 | 64 | 86 | 91 |
| **Nifer** disgyblion Bl.9 sy'n dilyn 80% neu fwy o'u cyrsiau (oni bai am y Gymraeg) drwy gyfrwng y Gymraeg | 64 | 66 | 62 | 62 | 66 | 71 |
| **Nifer** disgyblion Bl.10 sy'n astudio o leiaf 3 phwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg (oni bai am y Gymraeg) | 71 | 71 | 61 | 71 | 57 | 71 |
| **Nifer** disgyblion Bl.11 sy'n astudio o leiaf 3 phwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg (oni bai am y Gymraeg) | 67 | 69 | 56 | 66 | 54 | 69 |
| **Nifer** disgyblion Bl.10 sy'n astudio o leiaf 5 pwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg (oni bai am y Gymraeg) | 71 | 71 | 61 | 71 | 57 | 71 |
| **Nifer** disgyblion Bl.11 sy'n astudio o leiaf 5 pwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg (oni bai am y Gymraeg) | 67 | 69 | 56 | 66 | 54 | 69 |
| **Nifer** disgyblion Bl.10 sy'n astudio TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 71 | 71 | 70 | 71 | 64 | 71 |
| **Nifer** disgyblion Bl.11 sy'n sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 67 | 69 | 68 | 66 | 63 | 69 |
| **Nifer** disgyblion Bl.10 sy'n astudio TGAU Cymraeg Ail- Iaith | 0 | 71 | 1 | 71 | 7 | 71 |
| **Nifer** disgyblion Bl.11 sy'n sefyll arholiad TGAU Cymraeg Ail- Iaith | 2 | 69 | 3 | 66 | 6 | 69 |
| **Nifer** y pynciau CA3 a gynigir yn yr ysgol | 12 | | 14 | | 15 | |
| **Nifer** y pynciau CA3 sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg (addysgu ac asesu) | 11 | | 14 | | 14 | |
| **Nifer** y pynciau CA4 a gynigir yn yr ysgol* | 30 | | 14 | | 29 | |
| **Nifer** y pynciau sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg (addysgu ac arholi) ar gyfer TGAU* | 26 | | 13 | | 18 | |
| **Nifer** y pynciau galwedigaethol Bl.10 sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg (addysgu ac arholi)* | 13 | | 1 | | 6 | |
| **Nifer** y pynciau galwedigaethol Bl.11 sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg (addysgu ac arholi)* | 13 | | 1 | | 7 | |
| **Nifer** y pynciau CA5 a gynigir yn yr ysgol* | 35 | | 16 | | 0 | |
| **Nifer** y pynciau sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg (addysgu ac arholi) ar gyfer Safon Uwch* | 31 | | 15 | | 0 | |
| **Nifer** y pynciau galwedigaethol L3 sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg (addysgu ac arholi)* | 6 | | 1 | | 0 | |
| Canran o ddysgwyr yn eich ysgol sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Ysgol Gyfan | 100 | 381 | 90 | 383 | 88 | 365 |

**ATODIAD 6 – CWESTIYNAU I'R YSGOLION**

**Cwestiynau**

Cwestiynau i'w hanfon i'r ysgol ymlaen llaw

- Sut fath o gofnod a mesuryddion sydd gennych ar gyfer y dysgwyr sy'n astudio pynciau yn Gymraeg ac yn Saesneg? Beth sy'n eich ysgogi i gofnodi bod dysgwyr yn astudio drwy'r Gymraeg e.e. gwaith cwrs, ffug arholiadau?
- Sut ydych yn tracio cynnydd dysgwyr o ran y Gymraeg o un cyfnod allweddol i'r llall? Pa ddefnydd ydych yn gwneud o'r data? A oes llithriad yn y ddarpariaeth wrth symud ar draws cyfnodau allweddol?
- Pwy sy'n gyfrifol am fonitro'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg? Sut mae'r drefn fonitro'n gweithio?
- Beth sydd gennych yn ei le i sicrhau bod cyfrwng llafar y dysgu yn Gymraeg?
- Pa bynciau galwedigaethol sydd yn cael eu cynnig? Pa rai sydd ddim ar gael yn gyfan gwbl Gymraeg?
- A oes rhai pynciau efo llai yn astudio trwy'r Gymraeg nac eraill? Pa bynciau ydynt a sut yr ydych yn credu y gellir cynyddu'r ddarpariaeth o fewn y pynciau rheini?

Pennaeth

- Fedrwch chi ymhelaethu ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol?
- A yw'r Polisi Iaith yn eich helpu i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol? A yw'n gymorth digonol i chi pan fo cais yn cael ei wneud i newid cyfrwng y dysgu o'r Gymraeg?
- Pa mor aml ydych yn adolygu Polisi Iaith yr ysgol? Oes unrhyw newidiadau y gellid ei wneud i'r Polisi er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg?
- Beth yw profiad yr ysgol o ran dysgwyr yn dychwelyd o ganolfan trochi? A yw'r dysgwyr yma yn astudio pynciau TGAU/Lefel A yn Gymraeg?
- Sut ydych yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol?
- Sut ydych yn gweithredu i ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg? I bwy ydych yn adrodd o ran gweithrediad?
- Sut y gallwch gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn eich ysgol a pha arweiniad y byddwch yn ei roi i gynyddu'r ddarpariaeth?
- Pa gefnogaeth ydach chi'n derbyn gan yr Adran Addysg a GwE o ran cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg? Pa gefnogaeth bellach yr hoffech ei gael?

Cydlynydd y Cwricwlwm / Cydlynydd Clwstwr (yng nghyd-destun Cynlluniau Clwstwr y Gymraeg) / Pennaeth yr Adran Gymraeg / Swyddog Tracio gallu ieithyddol (os yn berthnasol)

- Fedrwch chi ymhelaethu ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol?
- Sut ydych yn annog/cefnogi dysgwyr i barhau i astudio pynciau trwy'r Gymraeg?
- Oes rhwystrau wrth geisio sicrhau bod nifer y plant sy'n astudio trwy'r Gymraeg yn cynyddu wrth iddynt symud o un cyfnod allweddol i'r llall?
- A oes rhai pynciau efo llai yn astudio trwy'r Gymraeg nac eraill? Pa bynciau ydynt a sut yr ydych yn credu y gellir cynyddu'r ddarpariaeth o fewn y pynciau rheini?
- Sut ydych yn newid y ddarpariaeth i ymateb i anghenion y dysgwyr?
- Sut yn union mae addysg ddwyieithog yn weithredol ar lawr dosbarth yn y pynciau ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg?

- Beth yw profiad yr ysgol o ran dysgwyr yn dychwelyd o ganolfan trochi? A yw'r dysgwyr yma yn astudio pynciau TGAU/Lefel A yn Gymraeg?
- Pa gyfleoedd/rhwystrau sydd wedi eu hadnabod wrth gynllunio i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru?
- Pa gefnogaeth ydach chi'n derbyn gan yr Adran Addysg a GwE o ran cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg? Pa gefnogaeth bellach yr hoffech ei gael?

<u>Fforwm Iaith Dysgwyr</u>

- Beth ydych yn ei drafod yng nghyfarfodydd y Fforwm?
- Ym mha iaith ydych yn gwneud pynciau?
- Beth yw eich profiad chi o ran gwneud pynciau yn Gymraeg?
- Oes digon o gefnogaeth i wneud pynciau yn Gymraeg? Pa gymorth pellach sydd ei angen arnoch i fedru astudio trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Pam ydach chi'n meddwl bod rhai yn dewis i wneud pynciau yn Saesneg?

<u>Grŵp Ffocws gyda Dysgwyr</u>

- Beth yw eich profiad chi o ran gwneud pynciau yn Gymraeg?
- Ym mha iaith ydych yn gwneud pynciau?
- Oes digon o gefnogaeth i wneud pynciau yn Gymraeg? Pa gymorth pellach sydd ei angen arnoch i fedru astudio trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Pam ydach chi'n meddwl bod rhai yn dewis gwneud pynciau yn Saesneg?

<u>Cynrychiolwyr Rhieni ar y Corff Llywodraethol</u>

- Beth ydach chi'n feddwl o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol?
- Ydych chi yn gwybod be' ydi'r Polisi Iaith ac yn deall ei oblygiadau?
- Oes unrhyw newidiadau y dylid ei wneud i'r Polisi Iaith?
- Beth yw profiad eich plentyn o ran cyfrwng dysgu?
- Pam ydach chi'n meddwl bod rhai rhieni yn dymuno i'w plant wneud pynciau yn Saesneg? Beth sy'n dylanwadu ar hyn?

<u>Y Gyfundrefn Addysg Drochi – Grwpiau Ffocws gyda dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid</u>

- Sut ydych chi'n teimlo am ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Ym mha flwyddyn oeddech pan ddaethoch i'r ysgol?
- Beth oeddech yn gwybod am yr iaith Gymraeg cyn dod i'r ysgol? Faint o Gymraeg oedd gennych, os o gwbl?
- Sut brofiad oedd mynychu'r canolfan drochi?
- Sut brofiad oedd dychwelyd i'r ysgol o'r ganolfan?
- Pa mor hawdd oedd dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg wedyn?
- Pa bynciau/faint o bynciau ydach chi'n astudio trwy'r Gymraeg?

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Strategaeth Addysg Gwynedd tuag at 2032 |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 14 Medi 2023 |
| **Awdur** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Beca Brown |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Cyflwynir yr adroddiad yma ar gais aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

1.2 Drwy gyfrwng yr adroddiad, cyflwynir gwybodaeth gefndirol, ynghyd ag ymateb i gwestiynau'r craffwyr a dderbyniwyd ymlaen llaw am Strategaeth Addysg ddrafft Gwynedd.

1.3 Ystyrir yr eitem hon yn gyfrwng i ymgysylltu cynnar gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu ar fersiwn gychwynnol o Strategaeth Addysg ddrafft ar gyfer Gwynedd. Cyflwynir hefyd fersiwn gychwynnol o Asesiad Effaith Cydraddoldeb, ac Asesiad Effaith Llesiant.

**2. CEFNDIR**

2.1 Cyhoeddwyd y strategaeth wreiddiol *Rhaglen Strategol "Tuag at 2025": Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd* yn 2010 er mwyn gosod cyfeiriad ar gyfer y maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2025. Mae'r Strategaeth Addysg ddrafft newydd sydd gerbron yn adeiladu ar seiliau'r Rhaglen Strategol yma am y degawd nesaf hyd at 2032.

2.2 Rhaid cydnabod fod newidiadau pellgyrhaeddol wedi bod ym maes addysg yng Nghymru ers cyhoeddi'r *Rhaglen Strategol "Tuag at 2025": Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd* yn 2010, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Canllawiau i Ysgolion yng Nghymru
- Sefydlu model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol (2015)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cymraeg 2050 (2017)
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Sefydlu Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (2018)
- Fframwaith Cwricwlwm i Gymru (2020)
- Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2021)
- Cyhoeddi Prydau Ysgol am Ddim i holl blant cynradd Cymru (2021)
- Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol (2021)
- Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (2022)
- Bil Addysg Gymraeg: Papur Gwyn (2023)
- Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (2023)
- Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (2023)

2.3 Rhaid cydnabod hefyd, fod ystyriaethau a gyrwyr lleol sydd yn dylanwadu ar y gyfundrefn addysg, gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth Addysg i'r dyfodol hefyd, ac rydym angen sicrhau ein bod yn cynnal a chefnogi yr hyn sydd yn dda ac yn unigryw am y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd ag adnabod cyfleoedd i ymateb i rai heriau sy'n debygol o wynebu'r gyfundrefn nawr ac i'r dyfodol, megis:

- Cynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.
- Cynnal a chryfhau'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd ysgol a'r cymunedau a wasanaethir yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.
- Sicrhau gwasanaethau cefnogi lles rhagorol i blant a phobl ifanc Gwynedd er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu llawn potensial.
- Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ac ymateb i'r her o recriwtio athrawon a chymorthyddion yn ein hysgolion
- Sicrhau hyfywedd a gwytnwch ein hysgolion pan fo gostyngiad yn niferoedd dysgwyr yn sgil cyfraddau geni isel, poblogaeth sy'n heneiddio a di-boblogi gwledig.
- Gwella ein stad ysgolion er sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc pan fo gennym gynifer o adeiladau i'w cynnal, a disgwyliad i'r stad ysgolion fod yn ddi-garbon dros y cyfnod nesaf.
- Ymateb i'r her o gynnal y gyfundrefn addysg mewn cyfnod digynsail o doriadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol.

2.4 Mae'r 5 amcan a welir yn y Strategaeth Addysg ddrafft yn alinio ac yn ategu'r cyfeiriad a'r datblygiadau cenedlaethol ym maes addysg dros y blynyddoedd diweddar, ynghyd ag ymateb i'r gyrwyr lleol a nodir uchod. Dyma'r 5 amcan a nodir yn y Strategaeth:

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | **Hawl i Addysg a Hyfforddiant**: Mae pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial. |
| Amcan 2 | **Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog**: Mae pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad i gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. |
| Amcan 3 | **Iechyd a Lles Dysgwyr:** Mae pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn barod i ddysgu gan allu elwa'n llawn ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael, ac yn gallu cael mynediad rhwydd at gefnogaeth i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol. |
| Amcan 4 | **Gweithlu Addysg rhagorol a gefnogir gan staff rhagorol:** Mae pobl plenty a person ifanc yng Ngwynedd yn cael eu haddysgu gan athrawon a thimau Cymorth rhagorol. |
| Amcan 5 | **Amgylchedd Dysgu Gynaliadwy o Safon Uchel:** Mae ysgolion Gwynedd yn cynnig amgylchedd dysgu diogel, ysbrydoledig a chynaliadwy o'r radd flaenaf i ddysgwyr ac athrawon y sir, ac yn sefydliadau sydd â chysylltiad cryf â'u cymunedau. Mae dysgu y tu hwnt i'r dosbarth yn cael ei ymestyn drwy ddefnydd o dechnolegau digidol o ansawdd gan fanteisio i'r eithaf hefyd ar yr amgylchedd naturiol a'r awyr agored. |

| | |
|---|---|
| | |

2.5 Diau y gwelwn newidiadau cyson a pharhaus eto dros y blynyddoedd nesaf wrth i ni ymadael a'r cyfnod ôl-bandemig ac ailsefydlu'r 'normal' a fodolai'n ôl yn 2019 yn ein hysgolion. Yn sgil hynny, ynghyd â'r gyrwyr lleol, ystyrir y Strategaeth yn ddogfen fyw y bydd modd ail-ymweld â hi yn gyson dros y 10 mlynedd nesaf er sicrhau bod y weledigaeth a'r amcanion yn parhau'n gyfredol, yn cyfarch y datblygiadau diweddaraf, yn parhau i adlewyrchu ein dyheadau ni'n lleol ar gyfer addysg yng Ngwynedd, gan sicrhau hefyd bod y gyfundrefn addysg i'r dyfodol yn cyfarch anghenion plant a phobl ifanc y sir.

**3. CWESTIYNAU'R CRAFFWYR**

Isod, rydym yn cyfarch y cwestiynau a dderbyniwyd ymlaen llaw gan y craffwyr:

3.1 **A yw cyflawni gweledigaeth y Strategaeth yn realistig?**

Mae'r Adran Addysg o'r farn fod y weledigaeth a nodir yn y Strategaeth yn realistig gan ei fod yn adlewyrchu ac yn ategu gweledigaeth, cyfeiriad a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg. Cydnabyddir bod gosod gweledigaeth tymor hir (10 mlynedd) yn heriol, ond o ystyried fod y Strategaeth yn ddogfen fyw, a gaiff ei hadolygu'n barhaus, bydd modd ail-ymweld â'r weledigaeth a'r amcanion ar unrhyw adeg er sicrhau bod y weledigaeth a'r amcanion yn parhau'n gyfredol, ac yn parhau i adlewyrchu ein dyheadau ni'n lleol ar gyfer addysg yng Ngwynedd.

3.2 **A yw blaenoriaethau'r Adran Addysg a nodir yn y Strategaeth yn addas ac amserol?**

Mae'r Adran Addysg o'r farn fod y weledigaeth a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth yn addas ac amserol gan eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ac yn ategu'r amcanion a adnabuwyd yn y ddogfen *Rhaglen Strategol "Tuag at 2025": Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd.* Ystyrir y Strategaeth yn ddogfen fyw y bydd modd ail-ymweld â hi yn gyson dros y 10 mlynedd nesaf er sicrhau bod y weledigaeth a'r amcanion yn parhau'n gyfredol, ac yn parhau i adlewyrchu ein dyheadau ni'n lleol ar gyfer addysg yng Ngwynedd.

3.3 **I ba raddau mae blaenoriaethau'r Strategaeth Addysg yn alinio gyda chyfeiriad a blaenoriaethau corfforaethol eraill y Cyngor?**

Gellir gweld llinyn arian clir rhwng y meysydd blaenoriaeth canlynol yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 ac amcanion y Strategaeth Addysg ddrafft:

| Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory | Amcanion y Strategaeth Addysg ddrafft |
|---|---|
| • Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar | • Hawl i Addysg a Hyfforddiant |
| • Cinio am ddim | • Iechyd a Lles Dysgwyr |
| • Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu | • Amgylchedd Dysgu Gynaliadwy o Safon Uchel |
| • Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol | • Iechyd a Lles Dysgwyr |

| | |
|---|---|
| • Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir | • Iechyd a Lles Dysgwyr |

| Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Gymraeg | Amcanion y Strategaeth Addysg ddrafft |
|---|---|
| • Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant | • Ehangu a chryfhau ein darpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog |
| • Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd | • Ehangu a chryfhau ein darpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog |

Ceir rhagor o wybodaeth yn y Strategaeth Addysg ddrafft.

3.4 **I ba raddau mae blaenoriaethau'r Strategaeth Addysg yn alinio gyda chyfeiriad a blaenoriaethau cenedlaethol?**

Mae'r Strategaeth Addysg ddrafft sydd gerbron hefyd yn alinio gyda chyfeiriad a blaenoriaethau cenedlaethol, ac isod enwir rhai o'r blaenoriaethau cenedlaethol rheiny a ategir gan Strategaeth Addysg ddrafft Gwynedd:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Canllawiau i Ysgolion yng Nghymru
- Cwricwlwm i Gymru
- Cymraeg 2050
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
- Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Ceir rhagor o wybodaeth yn y Strategaeth Addysg ddrafft.

3.5 **I ba raddau mae angen adnoddau ychwanegol i wireddu dyheadau'r Strategaeth Addysg?**

Byddai'n dda gallu datgan y bydd adnoddau ychwanegol ar gael i wireddu dyheadau'r Strategaeth Addysg, ond yn sgil y ffaith ei bod yn gyfnod heriol iawn ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn sgil y wasgfa ariannol, effaith chwyddiant a chynnydd mewn costau byw, cydnabyddir y bydd angen gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth dros y 10 mlynedd nesaf.

Fel Adran a Chyngor rydym wastad wedi gwneud defnydd darbodus o gyllid, gan wneud y defnydd gorau o gyllidebau a grantiau cyfalaf a refeniw i gefnogi ein gweledigaeth, blaenoriaethau ac amcanion yn lleol, a byddwn yn parhau i wneud hynny dros y degawd nesaf i wireddu gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth Addysg ddrafft yma.

Wrth gwrs, petai ffynonellau ariannol ychwanegol newydd yn dod i law yn ystod cyfnod y Strategaeth, byddwn yn sicr o flaenoriaethu unrhyw adnoddau ychwanegol i gyfrannu at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion.

3.6 **Pa fewnbwn sydd wedi bod gan ran-ddeiliaid allweddol i weledigaeth a blaenoriaethau'r Strategaeth?**
Yn ystod Tymor yr Haf 2023, bu i'r Adran Addysg gynnal trafodaeth anffurfiol gyda'r aelodau Cabinet ar y weledigaeth a'r amcanion drafft ar gyfer y Strategaeth Addysg. Yn y cyfarfod hwnnw, cytunwyd gyda'r aelodau Cabinet i flaen-graffu'r fersiwn drafft o'r Strategaeth Addysg gan dderbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi er ystyriaeth gan yr Adran a'r Aelod Cabinet dros Addysg cyn gweithredu unrhyw gamau pellach.

Mae'r tabl isod yn cynnwys amlinelliad drafft o'r camau y bwriedir eu cymryd gan yr Adran i sicrhau mewnbwn rhan-ddeiliaid allweddol i weledigaeth ac amcanion y Strategaeth:

| Cam | Pwrpas | Amserlen |
|---|---|---|
| GwE | • Ceisio mewnbwn GwE i gynnwys y Strategaeth Addysg ddrafft | 4 Medi 2023 |
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | • Cyflwyno Strategaeth Addysg ddrafft<br>• Cyflwyno amserlen amlinellol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus | 14 Medi 2023 |
| Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd | • Ymgysylltu gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd ar gynnwys y Strategaeth Addysg Ddrafft | Medi/Hydref 2023 |
| Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig | • Ymgysylltu gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd ar gynnwys y Strategaeth Addysg Ddrafft | Medi/Hydref 2023 |
| Fforwm Ieuenctid | • Ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc | Medi/Hydref 2023 |
| Cabinet | • Ceisio caniatâd i ymgynghori ar y Strategaeth Addysg ddrafft | 7 Tachwedd 2023 |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | • Ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynnwys y strategaeth addysg ddrafft a rhannu gwybodaeth am yr heriau sy'n wynebu'r gyfundrefn bresennol.<br>• Fel rhan o'r ymgynghoriad, bwriedir cynnal sesiwn galw heibio ymhob dalgylch uwchradd. | 20 Tachwedd – 12 Ionawr 2023 |
| Cabinet | • Adrodd yn ôl yn dilyn yr ymgynghoriad.<br>• Yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r Strategaeth Addysg derfynol a Chynllun Blaenoriaethu cysylltiedig. | 20 Chwefror 2024 |
| Llywodraeth Cymru | • Cyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar gynnwys y Cynllun Blaenoriaethu) | 31 Mawrth 2024 |

3.7 Mae'n bwysig nodi yr angen i'r amserlen uchod gyfarch yr angen i gyflwyno rhaglen amlinellol strategol newydd fydd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Rhaglen Dreigl

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer y 9 mlynedd nesaf i Lywodraeth Cymru erbyn Mawrth 2024.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno sylwadau ar y weledigaeth ac amcanion yr Adran Addysg a nodir yn y Strategaeth Addysg ddrafft tuag at 2032 a thu hwnt.
- Gyflwyno sylwadau ar yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a Llesiant.

# Strategaeth Addysg 2023-2032

**(Drafft)**

**Medi 2023**

# Ein Gweledigaeth

**Ni ddylai eich cefndir, daearyddiaeth nac amgylchiadau bennu eich dewis na'ch llwybr i'r dyfodol.**

Ein gweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Hoffem weld cyfundrefn sydd yn meithrin ac yn hyrwyddo llesiant fydd yn sylfaen gadarn i bob plentyn a pherson ifanc; sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf gan barhau i wella'r diwylliant cryf o gynhwysiant ar yr un pryd er mwyn ehangu gorwelion, a meithrin sgiliau y mae galw amdanynt yn yr economi leol, ranbarthol, cenedlaethol a byd-eang, er mwyn sicrhau llwybr cadarn tuag at ffyniant i bob person ifanc.

Draft

# Ein Gwerthoedd



Bydd y gwerthoedd isod yn sail i'r ffordd y byddwn yn mynd ati i siapio'r gyfundrefn addysg yng Ngwynedd i'r dyfodol:

Cynnig y **profiadau dysgu gorau posibl** gan sicrhau **cwricwlwm cyffrous ac eang**, yn ogystal â'r cwricwlwm allgyrsiol, sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall ac yn arwain at wella safonau, gan wneud y defnydd gorau posibl o sgiliau digidol.

Hyrwyddo a chefnogi **iechyd corfforol, anghenion a lles emosiynol plant a phobl ifanc** – gan sicrhau bod y prif sefydliadau addysg a hyfforddiant yn y Sir, yn chwaraewyr allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**Paratoi** pobl ifanc **ar gyfer y byd gwaith** - gan wneud yn siŵr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o **sgiliau ar gyfer cyflogaeth**.

Creu **amgylchedd dysgu diogel, ysbrydoledig a chynaliadwy o'r radd flaenaf** i blant, pobl ifanc ac athrawon y Sir –trwy **wella cyfleusterau ac adeiladau** gan sicrhau bod ysgolion wedi'u cynllunio â'r cyfleusterau angenrheidiol i allu cyflwyno Cwricwlwm i Gymru.



Datblygu sefydliadau addysgol o'r math cywir (cynradd ac uwchradd) i fod yn rhai sy'n **ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol** lle'n briodol.

**Cryfhau'r Iaith Gymraeg** fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol gan alluogi plant a phobl ifanc i gaffael y Gymraeg ac elwa o ddarpariaeth **addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog** fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith ac yn eu bywyd bob dydd.

## Y pum amcan

Mae'r Adran Addysg wedi sefydlu pum amcan strategol a fydd yn ein galluogi i wireddu ein gweledigaeth o gael cyfundrefn addysg sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Yr amcanion hyn yw:

| | |
|---|---|
| **1** | Hawl i Addysg a Hyfforddiant |
| **2** | Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog |
| **3** | Iechyd a Lles Dysgwyr |
| **4** | Gweithlu addysg rhagorol a gefnogir gan staff rhagorol |
| **5** | Amgylchedd Dysgu Gynaliadwy o Safon Uchel |

# Amcan 1: Hawl i Addysg a Hyfforddiant

**Mae pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial.**

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Mae addysg a hyfforddiant yn dylanwadu ar bob agwedd o fywyd plant a phobl ifanc ac yn hawl sylfaenol allweddol. Mae derbyn addysg o safon uchel mewn sefydliadau modern ac addas yn rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc ac yn gyfrwng i sicrhau cynnydd effeithiol i bob dysgwr, yn lleihau anfantais, ac yn codi dyheadau pawb. Yn ogystal, mae sicrhau fod gan bobl ifanc fynediad llawn at addysg a hyfforddiant mewn cydweithrediad efo'r darparwyr a gomisiynir yn allweddol er mwyn eu galluogi i ddatblygu, ennill a meithrin y wybodaeth a'r sgiliau y maent eu hangen i ddatblygu'n unigolion medrus a chyflawn.

Er bod perfformiad dysgwyr Gwynedd yn parhau'n gadarn, rydym yn benderfynol o wella'r canlyniadau ymhellach ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yn y Sir, tra ar yr un pryd yn ymrwymedig i wella canlyniadau ar gyfer ein dysgwyr mwyaf bregus, a grwpiau o ddysgwyr sy'n aml yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysg. Mae ymateb i'r anghydraddoldeb hwn yn flaenoriaeth allweddol i'r strategaeth yma.

Mae angen i ni sicrhau mynediad cyfartal i addysg ar bob cam o'r daith ddysgu, gan sicrhau fod dysgwyr yn cael cyfleoedd o'r blynyddoedd cynnar i addysg gynradd ac uwchradd, ac yna i addysg ôl-16, hyfforddiant a'r byd gwaith. Mae angen i ni wneud mwy i sicrhau ar y cyd gyda phartneriad fod gennym gyfundrefn addysg hollol integredig o addysg a gofal plentyndod cynnar gwydn sydd â chysylltiadau cryf â dysgu cynnar, y Gymraeg, gofal plant, iechyd a chymorth i deuluoedd. Bydd ehangu ymhellach ar ardaloedd darpariaeth bresennol Dechrau'n Deg a'r cynnig Gofal Plant gan sicrhau'r cychwyn gorau posib i blant o'r blynyddoedd cynnar ymlaen drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol a thu hwnt yn allweddol i'r amcan yma.

Mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau llwybrau addysg effeithiol i'r dysgwyr rheiny sy'n wynebu heriau a rhwystrau mwy dwys, er mwyn gwella eu mynediad at gyfleoedd a phrofiadau addysg addas fydd yn eu galluogi i ffynnu. Bydd datblygu model integredig o addysg yn rhan allweddol i wireddu hyn, gan sicrhau fod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at addysgu a dysgu sydd wedi ei gynllunio o amgylch anghenion y dysgwr trwy gydol eu gyrfa addysgol. Yn ogystal, rhaid parhau gyda'r diwylliant cryf o gynhwysiant ymysg ysgolion Gwynedd – diwylliant yr ydym eisoes wedi ei feithrin yn ein hysgolion er mwyn cynnal a chadw diddordeb pob dysgwr.

Er bod y ddarpariaeth ar gyfer ein dysgwyr mwy abl a thalentog yn dda, gellir gwella ymhellach y gefnogaeth a roddir iddynt er mwyn cyfoethogi y ddarpariaeth academaidd ar eu cyfer ac ymestyn eu profiadau a'u sgiliau fydd yn eu galluogi i gyrraedd eu gwir botensial.

Draft

O safbwynt dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, byddwn yn parhau â’r gwaith o weithredu gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, yn ogystal â’r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (Gwynedd). Nod y Strategaeth ADYaCh yw sicrhau bod plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd a phrofiadau addysg a hyfforddiant sydd wedi eu cynllunio’n briodol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd a chyflawni eu potensial mewn lleoliadau addysg sy’n addas i’w anghenion.

Rhaid i ni hefyd fanteisio’n llawn ar ddarpariaeth Cwricwlwm i Gymru addas a gynllunnir gan ein hysgolion fel cyfrwng i sicrhau fod pob dysgwr yn mwynhau dysgu, ac yn datblygu’r sgiliau, y wybodaeth a’r gwytnwch emosiynol sydd ei angen i lwyddo fel unigolyn moesegol, ac fel aelod cyflawn o’r gymuned. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen sicrhau cefnogaeth ar y gweithlu addysg i ddyfnhau eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o fframwaith Cwricwlwm i Gymru, o arferion effeithiol o ddylunio’r cwricwlwm, ynghyd â pharhau i wella dealltwriaeth o drefniadau asesu, adnabod, cofnodi a mesur cynnydd dysgwyr dros amser, y modd y defnyddir asesu i lywio’r dysgu, ynghyd â gwella atebolrwydd i'r holl ran-ddeiliaid sydd ynghlwm â gweithredu gofynion Cwricwlwm i Gymru.

Mae hefyd angen grymuso ein hysgolion ymhellach fel sefydliadau sy’n dysgu, gan gydweithio a chyd-gynllunio gwelliannau ar y cyd, tra ar yr un pryd rannu a lledaenu cryfderau ar draws y gyfundrefn. Bydd hyn yn fodd o sicrhau bod ein gweithlu addysg yn ffynnu mewn amgylchedd cefnogol a chydweithredol i godi safonau a gofalu y bydd pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

**Ymrwymiadau i weithredu (Cyfleoedd)**

**Byddwn yn:**

- Parhau i gefnogi a herio ysgolion i wella cynnydd addysgol i ddysgwyr sydd mewn perygl o dan gyflawni, a grwpiau o ddysgwyr, gan ddysgu oddi wrth y rheiny sydd eisoes wedi cael llwyddiant yn cau’r bylchau cyrhaeddiad yma.
- Lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr.
- Datblygu modelau cymorth a chydweithrediad ysgol-i-ysgol a chydweithio clwstwr a chynghreiriau ymhellach i wella capasiti hunan-wella ysgolion a rhannu arfer dda yn barhaus.
- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar.
- Parhau i sicrhau llwybrau addysg addas i’r dysgwyr rheiny sy’n wynebu heriau a rhwystrau mwy dwys), er mwyn gwella eu mynediad at gyfleoedd a phrofiadau addysg addas fydd yn eu galluogi i ffynnu.
- Parhau i gynnig cymorth a chyfleoedd wedi eu targedu i ddysgwyr mwy abl a thalentog Rhwydwaith SEREN er mwyn sicrhau cyfleoedd o ansawdd iddynt ymgysylltu gydag Addysg Uwch a Diwydiant i gystadlu am leoedd prifysgol a swyddi.
- Parhau i gefnogi’r gweithlu addysg i weithredu’r fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.

Draft

- Parhau â'r gwaith o weithredu gofynion y drefn anghenion dysgu ychwanegol newydd, yn ogystal â'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

**Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor**

- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

## Amcan 2: Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad i gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 70.9% o blant 3-4 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg, ac mae gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg i blant cyn gynted â phosibl yn allweddol er mwyn eu cynorthwyo a'u paratoi ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog yn ysgolion Gwynedd maes o law. Mae canran uchel o blant 3 oed yng Ngwynedd yn derbyn addysg feithrin cyfrwng Cymraeg, ond yn sgil heriau recriwtio yn y maes ar hyn o bryd, mae angen cynllunio er sicrhau parhad yn lefelau sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu er mwyn osgoi unrhyw lithro mewn safonau a chyfleoedd i blant feithrin sgiliau yn y Gymraeg o oedran cynnar.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 88.6% o blant a phobl ifanc oedran ysgol (3-15 oed) yn gallu siarad Cymraeg sydd yn dangos cyfraniad allweddol Polisi Iaith Addysg Gwynedd i gadernid y Gymraeg yn y sir. Yn ysgolion cynradd categori 3 Gwynedd mae 100% o'r dysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg, ac yn ysgolion uwchradd categori 3 Gwynedd, mae 97.3% o'r dysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg. Er hynny, mae angen hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a dwyieithog ymysg rhieni a dysgwyr er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n parhau i ddewis astudio Cymraeg iaith gyntaf hyd at Safon Uwch.

At hyn, nid yw'r un cyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc allu elwa'n llawn ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg mewn 3 ysgol trosiannol yn y sir, ac er bod cynlluniau ar y cyd rhwng yr ysgolion hyn â'r Adran wedi dechrau dwyn ffrwyth yn ddiweddar, cydnabyddir y cymer peth amser eto cyn i ni weld y Gymraeg yn gwreiddio yn yr ysgolion yma, gyda'r dysgwyr yn elwa o'r un cyfleoedd a phrofiadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel yng ngweddill ysgolion y sir. Mae parhau i ymateb i'r anghydraddoldeb yma yn flaenoriaeth ar gyfer y

Drafft

Strategaeth yma, ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ac yn ategu'r flaenoriaeth genedlaethol a nodir yn *Cymraeg 2050*.

Er mwyn i Bolisi Iaith Addysg Gwynedd fod yn gynhwysol, mae'r gyfundrefn addysg drochi yn darparu addysg drochi amgen ar gyfer newydd-ddyfodiaid er mwyn eu cynorthwyo i gaffael y Gymraeg ac elwa'n llawn o ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ein hysgolion. Ers ei sefydlu ar ei newydd wedd yn Ionawr 2023, ceir 6 lleoliad strategol ar draws y sir sy'n darparu gwasanaeth rhagorol i newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg. Rhaid i ni fanteisio'n llawn a pharhau i ddatblygu darpariaeth drochi gyfoes *Aberwla* fel cynllun craidd y Gyfundrefn ar gyfer trochi a chefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yng Ngwynedd. Rhaid i ni hefyd barhau i ehangu ein Cyfundrefn Drochi lwyddiannus i gefnogi taith dysgwyr sydd angen hwb ychwanegu gyda'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg, ynghyd ag arfogi ein gweithlu addysg gydag arferion trochi iaith effeithiol yn ein ysgolion.

Er bod cyfleoedd dyddiol i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn yr ysgol yn cyfrannu at hyder a rhugldeb yn y Gymraeg, sydd yn allweddol o ystyried fod oddeutu 90% o siaradwyr rhugl yng Ngwynedd yn siarad Cymraeg bob dydd, gwyddwn nad yw iaith sydd wedi ei chyfyngu i'r sector addysg yn iaith fyw, ac o ganlyniad, mae angen i'r Cyngor, yr Adran, ac ysgolion weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau profiadau a chyfleoedd gwerthfawr drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc yn ein cymunedau, gan sicrhau cydweithio agos gyda mudiadau megis Yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Menter Iaith Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, Llyfrgelloedd Gwynedd, y Gwasanaeth Ieuenctid, ynghyd â'r holl fudiadau cymunedol eraill sydd gennym yng Ngwynedd er sicrhau fod y Gymraeg yn parhau i ffynnu, a bod profiadau addysgol Cymraeg a dwyieithog a ddarperir gan yr holl sefydliadau addysgol i blant a phobl ifanc yn cael eu hategu a'u hatgyfnerthu gan brofiadau cymunedol cyfoethog Cymraeg yn yr un modd.

Yng Ngwynedd, mae 97.3% o'r athrawon cynradd ac 86.3% o athrawon uwchradd yn nodi eu bod yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n sefyllfa heriol o ran recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg, ac yn her barhaus yn arbennig mewn rhai meysydd arbenigol ac mewn rhai ardaloedd penodol o'r sir. Mae recriwtio a chadw cymorthyddion ar draws ein hysgolion yn her gynyddol hefyd. Mae angen ymateb i'r heriau yma drwy barhau ac ehangu ar y cyfleoedd i'r gweithlu gael gwersi Cymraeg, ynghyd â hyrwyddo cyfleoedd deniadol i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion Gwynedd.

Ar yr un pryd, rydym yn ymfalchïo yn y ffaith mai Gwynedd yw'r unig sir yng Nghymru ble mae pob aelod o staff y Gwasanaeth ADYaCH sy'n cefnogi ysgolion yn ddwyieithog, ac yn gallu darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg. Er hynny, mae her sylweddol yn datblygu o fewn y sir i recriwtio Seicolegwyr Addysgol cymwysedig dwyieithog. Daw hyn yn sgil y system hyfforddi cenedlaethol yng Nghymru a'r pellter sydd oddi wrth y cwrs ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae recriwtio staff eraill allweddol (e.e. Athrawon Nam Synhwyraidd, Cymorthyddion

Draft

Ysgol ac Arbenigol) hefyd yn her gynyddol. Mae hyn yn risg o ran parhau gyda'r lefel bresennol o ddarpariaeth ddwyieithog, yn cynnwys yr Ysgolion Arbennig o fewn y sir. Er gwaetha'r heriau, mae angen parhau gyda'r gwaith helaeth sydd eisoes wedi ei gyflawni o ran creu a chyfieithu adnoddau ADY yn y Gymraeg.

**Ymrwymiadau i weithredu (Cyfleoedd)**

**Byddwn yn:**

- Diweddaru ein Polisi Iaith Addysg er sicrhau ei fod yn parhau i wireddu ein nod o ddarparu addysg Gymraeg a dwyieithog i bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd.
- Diffinio ein disgwyliadau yng Ngwynedd o safbwynt darpariaeth addysg ddwyieithog.
- Parhau i gefnogi'r dair ysgol trosiannol i wneud cynnydd arwyddocaol pellach yn eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Parhau i ddatblygu ac arloesi gyda'n darpariaeth addysg drochi yn y sir, er sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid gaffael y Gymraeg, gan allu manteisio i'r eithaf ar ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog yng Ngwynedd.
- Parhau i gynnig cefnogaeth drwy'r Gyfundrefn Drochi i ddysgwyr sydd angen hwb ychwanegol gyda'u hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg.
- Ymateb i heriau recriwtio siaradwyr Cymraeg ar draws y sefydliadau addysg o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg ôl-orfodol.
- Datblygu cynllun cydlynus o hyfforddiant iaith Gymraeg i'r gweithlu addysg.
- Hyrwyddo manteisio addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

**Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
- Ymestyn cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc
- Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

## Amcan 3: Iechyd a Lles Dysgwyr

**Mae pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn barod i ddysgu gan allu elwa'n llawn ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael, ac yn gallu cael mynediad rhwydd at gefnogaeth i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol.**

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Mae plant a phobl ifanc Gwynedd yn ymwybodol o bwysigrwydd lles, ac yn ymwybodol o broblemau amrywiol y maent yn eu hwynebu yn aml o ran cadw'n ddiogel, cadw'n iach, rheoli perthnasau, a delio efo'r heriau o dyfu'n hŷn mewn cymdeithas sydd mor newidiol. Mae lles emosiynol a meddyliol yn bwysig i bob agwedd o fywydau plant a phobl ifanc gan ei fod yn

Draft

galluogi pobl ifanc i fod yn fwy gwydn, yn barod i dderbyn profiadau dysgu, i fod yn chwilfrydig a darganfod ffyrdd creadigol i feddwl am y byd o'u cwmpas. Mae'n arwain at fanteision byr a hirdymor gan gynnwys gwella hunan-hyder, gwella sgiliau cymdeithasol, gwella symptomau o or-bryder ac iselder, ynghyd ag adeiladu deallusrwydd emosiynol a gwytnwch - rhinweddau fydd yn eu cynorthwyo drwy gydol eu bywydau yn y dyfodol.

Mae llesiant yn dylanwadu ar sut mae plant a phobl ifanc yn teimlo ac yn gweithredu ar lefel bersonol a chymdeithasol, ynghyd â sut maent yn gwerthuso eu bywyd yn ei gyfanrwydd. Mae datblygu dull ysgol gyfan i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol. Drwy ymgorffori llesiant da yn ysgolion Gwynedd byddwn yn creu awyrgylch gefnogol lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i wireddu eu potensial personol ac academaidd, lle maent yn ffynnu, yn dysgu ac yn datblygu'n emosiynol, gyda chymorth athrawon a staff sy'n gweithredu mewn diwylliant sy'n rhoi gwerth ar eu llesiant hwythau.

Ers y pandemig, mae canrannau presenoldeb isel a lefelau gwaharddiadau wedi bod yn heriau ychwanegol i ysgolion. Er mwyn sicrhau fod dysgwyr yn cael mynediad at addysg a chyfleoedd sydd yn eu galluogi i ffynnu, byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion drwy sicrhau adnabyddiaeth buan o ddysgwyr sydd yn wynebu heriau ychwanegol, ymyrraeth gynnar, ynghyd â chefnogaeth gan wasanaethau aml-asiantaethol effeithiol yn ôl yr angen. Byddwn yn cydweithio gyda'r ysgolion a'r gwasanaethau cefnogi megis Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiad, Diogelu a'r Gwasanaeth Ieuenctid, ac yn cynnig ymyrraeth briodol i ddatrys a goresgyn rhwystrau dyddiol i blant a phobl ifanc Gwynedd, ynghyd ag atal problemau rhag dwysáu.

Rhaid i ni hefyd beidio anghofio am rôl lles corfforol o ran gwella hapusrwydd a gwytnwch cyffredinol pob plentyn a pherson ifanc. Bydd sicrhau bod gweithgarwch corfforol rheolaidd yn arfer am oes yn gyfrwng i wella iechyd plant a phobl ifanc nawr ac wrth iddynt dyfu'n hŷn. Mae hyn yn cynnwys teithio llesol i ac o'r ysgol, gweithgarwch corfforol cyson yn y lleoliad addysg, ynghyd â bwyd da a maethlon yn yr ysgol.

Her ychwanegol i lesiant plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yw'r cynnydd mewn costau byw presennol, ac mae costau deunyddiau dyddiol megis gwisg ysgol, bwyd, cludiant a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd ac yn her sylweddol i nifer o deuluoedd.  Yn sicr mae'r cynllun prydau ysgol am ddim i holl ddysgwyr cynradd yn gymorth mawr i deuluoedd, ac mae angen sicrhau fod cynifer o deuluoedd â phosibl yn manteisio ar y cynnig hwn o bryd poeth maethlon i'w plant. Byddwn hefyd yn ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau, tra ar yr un pryd warchod yr addysg a'r profiadau gwerthfawr y mae ein plant a'n pobl ifanc yn eu cael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.

**Ymrwymiadau i weithredu (Cyfleoedd)**

**Byddwn yn:**

Draft

- Parhau i helpu ysgolion, unedau cyfeirio, a lleoliadau addysg i adolygu eu sefyllfa o ran llesiant a thrwy gefnogaeth y Cynllun Ysgolion Iach, ddatblygu cynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw agweddau datblygu ac adeiladu ar eu cryfderau.
- Parhau i gyflwyno gwasanaethau cefnogi lles yn yr ysgolion i sicrhau mynediad cyflym a graddoledig i blant a phobl ifanc Gwynedd er mwyn iddynt oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu llawn potensial.
- Gweithredu'r drefn o un pwynt mynediad at wasanaethau lles emosiynol ac iechyd meddwl sydd yn galluogi plant a phobl ifanc i gyrraedd gwasanaethau cefnogi priodol yn gyflym.
- Ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau, ond gan warchod yr addysg a'r profiadau gwerthfawr y mae ein plant yn eu cael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.
- Parhau i ddarparu ac esblygu ein Gwasanaethau Ieuenctid integredig, sydd wedi'i seilio ar waith ieuenctid o safon uchel, i chwalu rhwystrau i ymgysylltu a chyfranogi, gan sicrhau ei fod ar gael i bawb, yn arbennig ein pobl ifanc mwyaf bregus.
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy ddull gweithredu ysgol gyfan ac amgylchedd iach, gan gynnwys annog plant a phobl ifanc i symud mwy, cadw'n iach a bwyta'n dda.
- Cefnogi ysgolion i lunio Cynllun Cydraddoldeb newydd ar gyfer Ebrill 2023 yn unol â'r ddeddf

**Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor**

- Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol
- Cinio ysgol am ddim

## Amcan 4: Gweithlu addysg rhagorol a gefnogir gan staff rhagorol

**Mae pob plentyn a pherson ifanc yn Ngwynedd yn cael eu haddysgu gan athrawon a thimau cymorth rhagorol.**

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Mae ansawdd yr addysgu yn ffactor allweddol mewn perthynas â gwella safonau a chanlyniadau ar gyfer ein dysgwyr. Mae'n holl bwysig felly ein bod yn sicrhau bod ein hysgolion yn cynnig yr amodau gorau un i'n gweithlu addysg allu addysgu, rheoli ac arwain yn effeithiol, yn ogystal â datblygu gweithlu'r dyfodol.

Mae Estyn wedi nodi fod safonau proffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017a) yn rhoi addysgeg effeithiol wrth wraidd gwella ysgolion. At hyn, mae 'Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019–21' yn cyfeirio at safonau fel elfen allweddol o 'gadw athrawon a chamu ymlaen mewn gyrfa' ochr yn ochr â 'rheoli perfformiad', 'dysgu proffesiynol a’r rhwydweithiau cenedlaethol' ac 'arweinyddiaeth, gan gynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth'.

Trwy ein hymrwymiad i ddatblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel, bydd plant a phobl ifanc Gwynedd yn manteisio ar arweinwyr, athrawon a gweithlu addysg o’r radd flaenaf. Bydd y strategaeth hon felly yn gweithio tuag at greu amodau o fewn ein cyfundrefn ysgolion fydd yn cynnig cyfleoedd, profiadau a llwybr gyrfa clir i’r holl weithlu, gan gynnwys cymorthyddion, athrawon, rheolwyr canol, dirprwyon a phenaethiaid.

Her ychwanegol wrth gwrs yw denu a chadw cymorthyddion sydd yn adnodd cwbl hanfodol i gefnogi dysgwyr ac athrawon yn ein hysgolion. O ganlyniad, byddwn yn ystyried ffyrdd creadigol ac arloesol o geisio gwella amodau a thelerau swyddi cymorthyddion yng Ngwynedd er mwyn annog cynifer â phosibl ohonynt i allu parhau i ddarparu cefnogaeth cwbl allweddol i ddysgwyr ac athrawon yn ein hysgolion.

**Ymrwymiadau i weithredu (Cyfleoedd)**

**Byddwn yn:**

- Datblygu llwybrau gyrfaol a chyfleoedd datblygu proffesiynol clir i holl weithlu addysgu Gwynedd.
- Sicrhau fod ein hysgolion yn cynnig yr amodau gorau i’n gweithlu allu addysgu, rheoli ac arwain yn effeithiol.
- Datblygu a gweithredu cynllun i wella amodau a thelerau gwaith cymorthyddion.

## Amcan 5: Amgylchedd Dysgu Gynaliadwy o Safon Uchel

**Mae ysgolion Gwynedd yn cynnig amgylchedd dysgu diogel, ysbrydoledig a chynaliadwy o’r radd flaenaf i ddysgwyr ac athrawon y sir, ac yn sefydliadau sydd â chysylltiad cryf â’u cymunedau. Mae dysgu y tu hwnt i’r dosbarth yn cael ei ymestyn drwy ddefnydd o dechnolegau digidol o ansawdd gan fanteisio i’r eithaf hefyd ar yr amgylchedd naturiol a’r awyr agored.**

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Dros y 10 mlynedd diwethaf gwelwyd buddsoddi gwerth £73 miliwn i wella cyflwr ac amgylchedd dysgu dros 10 o ysgolion y Sir. Yn ychwanegol, manteisir ar grantiau cyfalaf eraill amrywiol gan Lywodraeth Cymru yn gyson er mwyn buddsoddi ymhellach i wella ystâd ein hysgolion a’r

Draft

amgylchedd dysgu, gyda chyfanswm gwariant y grantiau rheiny dros y blynyddoedd diwethaf dros £10m. Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol dros y degawd diwethaf, fodd bynnag, mae nifer o adeiladau ysgolion y sir yn parhau'n hen ac angen eu moderneiddio.

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru yn raglen buddsoddi cyfalaf strategol ar gyfer creu cymunedau dysgu yng Nghymru sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Caiff y rhaglen ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol a'i nod yw

"trawsnewid profiad dysgu dysgwyr, gan sicrhau eu bod yn cael eu haddysgu mewn ystafelloedd dosbarth sydd a'r technolegau a'r cyfleusterau gofynnol i allu cyflwyno Cwricwlwm i Gymru"

Cyhoeddwyd ton gyntaf y Rhaglen (Band A) yn 2014 a llwyddodd Cyngor Gwynedd i ddenu buddsoddiad sylweddol ar gyfer sawl ysgol ar draws y sir, gan symud 19 o'n hysgolion oedd ag adeiladau a adnabuwyd fel rhai mewn cyflwr derbyniol/gwael/gwael iawn, i 8 adeilad mewn cyflwr da.

Bellach mae'r Cyngor wedi sicrhau buddsoddiad pellach, gwerth £56 miliwn trwy'r Rhaglen (Band B), sydd yn rhedeg rhwng 2019 a 2026, a hyd yma, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn dros 10 o safleoedd ar draws y sir.

Wrth fuddsoddi, bydd rhaid sicrhau fod adeiladau ysgolion newydd yn addas ar gyfer gweithredu gofynion Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, bydd angen i amgylcheddau dysgu fod yn hyblyg – o ran gofod, amser, pobl a thechnoleg – gan ymateb i anghenion heddiw, ond y gellir eu haddasu'n hawdd i gwrdd ag anghenion y dyfodol. Mae dysgu dylanwadol yn digwydd y tu allan i waliau'r ysgol, ac mae Cwricwlwm i Gymru yn annog meithrin dulliau gwahanol o gaffael gwybodaeth a sgiliau. Yn ogystal, drwy ein hysgolion newydd, byddwn yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer chwaraeon ac yn cynnig cymaint o ofod chwarae ac awyr agored â phosib, ble fo hynny'n ymarferol.

I ategu gofynion Cwricwlwm i Gymru a dulliau dysgu hyblyg, ar 9 Tachwedd 2021, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd fabwysiadu Strategaeth Addysg Ddigidol. Bwriad y strategaeth yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, creadigol ac yn feirniadol gyda chysondeb yn y ddarpariaeth ar draws ysgolion y Sir. Mae'r strategaeth yn amlygu ein huchelgais o ddefnyddio technoleg i wella addysg i ddysgwyr yn ysgolion Gwynedd ac yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol gan ddyrchafu ein gallu i gefnogi pob rhan o'r cwricwlwm. Mae'n holl bwysig bod unrhyw gynlluniau moderneiddio i'r dyfodol yn alinio hefo gweledigaeth y Strategaeth Addysg Ddigidol.

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf y mae cenedlaethau'r dyfodol yn eu hwynebu. Wrth ddatblygu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig, mae angen i ni warchod ein hamgylchedd naturiol. Yn nhymor yr Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd angen i bob adeilad ysgol a choleg newydd yn ogystal â phrosiectau addasu ac ymestyn sylweddol gwrdd â thargedau

Drafft

Carbon Sero Net o 1 Ionawr 2022. Wrth gyhoeddi'r gofyniad newydd, dywedodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg:

"Fe ddylen ni i gyd fod yn holi ein hunain pa gamau y gallwn ni eu cymryd i ddadwneud y niwed sy'n deillio o newid hinsawdd...Mae sicrhau bod adeiladau'r dyfodol yn gwneud cyfraniad positif yn gam pwysig y gallwn ni ei gymryd.

Yn greiddiol i'r cwricwlwm newydd mae ein nod i gefnogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd wedi ymrwymo i gynaliadwyedd y blaned. Mae'n hanfodol ein bod yn gosod esiampl i bobl ifanc os ydyn ni i wireddu'r uchelgais hwn."

Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi datgan ei nod i fod yn gyngor Carbon Sero Net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Wrth gynllunio ymlaen felly, bydd rhaid i adeiladau ysgolion newydd fod yn arloesol, yn gyfoes, yn amgylcheddol gyfeillgar, ac yn effeithlon o ran adnoddau, gan ystyried yr effaith ynni a charbon. Rydym hefyd yn ymrwymo i sicrhau bod ethos gwyrdd ac ecogyfeillgar i'n holl ysgolion drwy fonitro a lleihau'r defnydd o ynni, ynghyd ag integreiddio teithio llesol.

Yn 2023, bu Cyngor Gwynedd ynghyd â dau Awdurdod Lleol arall ar draws Cymru yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth Her Ysgolion Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru. Canlyniad hynny yw bod Llywodraeth Cymru yn cyllido ysgol gynaliadwy cwbl newydd ar gyfer pentref Bontnewydd, ger Caernarfon gwerth bron i £12m. Bydd y prosiect yma'n fodd o dreialu dulliau adeiladu 'gwyrdd' allai fod yn lasprint ar gyfer unrhyw brosiect adeiladu fydd yn digwydd ar draws y sir ac yn genedlaethol i'r dyfodol.

Yn 2023 hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd rhaglen fuddsoddi dreigl yn cael ei rhoi ar waith. Gofynnir felly i'r Cyngor gyflwyno rhaglen amlinellol strategol newydd fydd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y naw mlynedd nesaf, a hynny o fewn cyd-destun gweledigaeth ac amcanion Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru.

Wrth i ni barhau i gynllunio a gwella'r ystâd ysgolion, felly, mae angen i ni sicrhau ein bod yn barod i ymateb i newidiadau demograffig a chymdeithasol y Sir. Crëwyd lleoedd ysgol ychwanegol, gan gynnwys cynradd, uwchradd ac arbennig drwy Fand A a Band B a chaiff prosiectau ychwanegol eu datblygu lle bo angen a phan fo cyfleoedd yn codi.

**Ymrwymiadau i weithredu (Cyfleoedd)**

**Byddwn yn:**

- Cyflawni prosiectau Band B, Cymunedau Dysgu Cynaliadwy gan gynnwys addasu neu ailadeiladu ysgolion cynradd ac uwchradd neu greu rhai newydd.
- Cyflawni ysgol gynaliadwy cwbl newydd ar gyfer Bontnewydd, ger Caernarfon.
- Datblygu Cynllun Blaenoriaethu ar gyfer prosiectau Moderneiddio Addysg fel sail ar gyfer y rhaglen amlinellol strategol newydd fydd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y naw mlynedd nesaf, a hynny o fewn cyd-destun gweledigaeth ac amcanion Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru.

- Cyflawni rhaglen buddsoddi Ysgolion sydd â Ffocws ar y Gymuned
- Parhau i sicrhau fod datblygiadau'r dyfodol yn alinio hefo gweledigaeth Strategaeth Addysg Ddigidol Gwynedd.
- Parhau i fuddsoddi i wella'n ystâd bresennol o ysgolion, gan roi sylw penodol i wella cyflwr ac addasrwydd ein hysgolion, a hynny er sicrhau amgylcheddau dysgu addas o fewn cyd-destun Cwricwlwm i Gymru.
- Parhau i fuddsoddi mewn prosiectau arloesol, blaengar, cyfoes ac amgylcheddol gyfeillgar, sy'n dangos ymrwymiad i ethos gwyrdd ac ecogyfeillgar, gan hefyd integreiddio teithio llesol.
- Ymateb i'r her o ran newid demograffig er sicrhau fod darpariaeth addysg ar gael sy'n cwrdd â'r angen – gan gynnwys lleoedd arbenigol, a ffydd.

**Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor**

- Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Draft

## Polisïau Lleol

Mae'r Strategaeth Addysg yn cefnogi blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-28:

- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
- Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant
- Ymestyn cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc
- Cinio ysgol am ddim
- Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol
- Cinio ysgol am ddim
- Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol



**Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28**

**Strategaeth Addysg 2023-28**

- Strategaeth Addysg Ddigidol
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032
- Polisi Iaith Addysg Gwynedd
- Siarter Iaith / Strategaeth Iaith Uwchradd
- Cynllun Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ysgolion
- Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
- Cynllun ysgol gyfan iechyd a Lles emosiynol
- Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau 2009
- Cynllun Busnes Arweinyddiaeth GwE/Awdurdod

Drafft

## Llinyn Arian



| CYNLLUN Y CYNGOR 2023-2028 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR GWYNEDD** | **Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**<br>• Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar.<br>• Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant. | **Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**<br>• Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar.<br>• Ymestyn cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc.<br>• Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant. | **Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**<br>• Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar.<br>• Cinio ysgol am ddim.<br>• Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol. | | **Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**<br>• Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu. |

**STRATEGAETH ADDYSG GWYNEDD 2024-2034**

| | HAWL I ADDYSG A HYFFORDDIANT | ADDYSG GYMRAEG A DWYIEITHRWYDD | IECHYD A LLES DYSGWYR | ARWEINYDDIAETH A RECRIWTIO | AMGYLCHEDD DYSGU GYNALIADWY O SAFON UCHEL |
|---|---|---|---|---|---|
| **LLYWODRAETH CYMRU** | • Cwricwlwm i Gymru.<br>• Deddf Cwricwlwm ac Asesu 2020.<br>• Diwygio Cymwysterau yng Nghymru – Cymwys ar gyfer y Dyfodol.<br>• Fframwaith Gwella Ysgolion.<br>• Ailafael mewn dangosyddion perfformiad interim 2023 a datblygu system ddata a | • Cymraeg 2050.<br>• Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>• Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 – 2032.<br>• Bil Addysg y Gymraeg arfaethedig.<br>• Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg.<br>• Grant datblygu capasiti'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg 2023 i 2024.<br>• Grant y Gymraeg mewn addysg trwy'r rhanbarthau.<br>• Hyrwyddo dysgu proffesiynol trwy https://dysgucymraeg.cymru | • Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.<br>• Canllawiau: Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021.<br>• Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. | • Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.<br>• Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol.<br>• Cynlluniau cymhelliant addysg gychwynnol - e.e. ar gyfer pynciau â blaenoriaeth ac Iaith Athrawon yfory.<br>• Llwybr TAR cyflogedig - Prifysgol Agored.<br>• Adolygiad o'r CPCP yng Nghymru – | • Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gwybodaeth newydd. | • Cynllun cymhelliant addysg gychwynnol – Iaith Athrawon yfory. | • Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc) (Cymru) (Diwygio) 2021.<br>• Y cod addysg cydberthynas a rhywioldeb (Ionawr 2022).<br>• Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol (Mawrth 2021).<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector | Dysgu bod yn Bennaeth i Gymru. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyhoeddus: Canllawiau i Ysgolion yng Nghymru (Camau i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (gov.wales)) (atodiad). | | |
| **ADRAN ADDYSG GWYNEDD** | • Cynllun Busnes GwE/Awdurdod<br>• Strategaeth Addysg Ddigidol.<br>• Model cefnogi Ysgolion Gwynedd – ar y cyd â phartneriaid allweddol. | • Polisi Iaith Addysg Gwynedd<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032.<br>• Siarter Iaith / Strategaeth Iaith Uwchradd.<br>• Cynlluniau Dalgylchol y Gymraeg ym mhob dalgylch. | • Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.<br>• Cynllun Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ysgolion – ysgolion Iach Gwynedd wedi darparu cymorth i ysgolion greu | • Cynllun Busnes Arweinyddiaeth GwE/Awdurdod.<br>• Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth – cydweithio rhwng GwE ac awdurdod i sicrhau rhaglen sy'n rhoi llwybr o ddatblygiad arweinyddiaeth ar bob lefel. | • Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau 2009. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Awdit a chynllunio gweithredu’r cod.<br>Cynllun ysgol gyfan iechyd a Lles emosiynol (ysgolion Iach wedi bod yn cynorthwyo ysgolion i greu Awdit a chynllun gweithredu). | | |

## Deddfwriaeth a Pholisïau Lleol a Chenedlaethol

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28, neu unrhyw gynllun olynol
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Cyngor Gwynedd (2022—2032)
- Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr
- Bil Addysg y Gymraeg (Papur Gwyn) (2023)
- Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler isod)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn
- Cymru’n Un: Cenedl Un Blaned: cynllun datblygu cynaliadwy newydd ar gyfer Cymru, Mai 2009, neu unrhyw strategaeth olynol
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2015), neu unrhyw strategaeth olynol
- Ffydd mewn Addysg (Llywodraeth Cymru)
- Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (neu gynlluniau olynol)
- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy—Rhaglen Fuddsoddi Cyfalaf
- Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014 ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr
- Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru, Cylchlythyr Rhif: 021/2011
- Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.
- Deddf Plant, 2004
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) neu unrhyw God olynol
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021
- Fframwaith Gwella Ysgolion

Draft

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Strategaeth Addysg ddrafft |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Cyhoeddwyd y strategaeth wreiddiol *Rhaglen Strategol "Tuag at 2025": Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd* yn 2010 er mwyn gosod cyfeiriad ar gyfer y maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2025. Mae'r Strategaeth Addysg ddrafft newydd sydd gerbron yn adeiladu ar seiliau'r Rhaglen Strategol yma am y degawd nesaf hyd at 2032. |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Garem Jackson, Pennaeth Addysg |

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Fersiwn 1 – Awst 2023

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Mae'r drafft cychwynnol wedi ei lunio gan swyddogion yr Adran Addysg. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru'n gyson, a rhagwelir y bydd angen gweithio efo'r budd-ddeiliaid/partneriaid megis y cyhoedd (e.e. dysgwyr, rhieni, staff, llywodraethwyr), Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd, Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig, GwE, Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a Chabinet y Cyngor.

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu â phobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ddrafft bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus – bydd cyfle bryd hynny i ymgysylltu â phobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

| Cam | Pwrpas | Amserlen |
|---|---|---|
| GwE | • Ceisio mewnbwn GwE i gynnwys y Strategaeth Addysg ddrafft | 4 Medi 2023 |
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | • Cyflwyno Strategaeth Addysg ddrafft<br>• Cyflwyno amserlen amlinellol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus | 14 Medi 2023 |
| Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd | • Ymgysylltu gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd ar gynnwys y Strategaeth Addysg Ddrafft | Medi/Hydref 2023 |
| Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig | • Ymgysylltu gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd ar gynnwys y Strategaeth Addysg Ddrafft | Medi/Hydref 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Fforwm Ieuenctid | • Ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc | Medi/Hydref 2023 |
| Cabinet | • Ceisio caniatâd i ymgynghori ar y Strategaeth Addysg ddrafft | 7 Tachwedd 2023 |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | • Ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynnwys y strategaeth addysg ddrafft a rhannu gwybodaeth am yr heriau sy'n wynebu'r gyfundrefn bresennol.<br>• Fel rhan o'r ymgynghoriad, bwriedir cynnal sesiwn galw heibio ymhob dalgylch uwchradd. | 20 Tachwedd – 12 Ionawr 2023 |
| Cabinet | • Adrodd yn ôl yn dilyn yr ymgynghoriad.<br>• Yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r Strategaeth Addysg derfynol a Chynllun Blaenoriaethu cysylltiedig. | 20 Chwefror 2024 |
| Llywodraeth Cymru | • Cyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar gynnwys y Cynllun Blaenoriaethu) | 31 Mawrth 2024 |

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Amherthnasol – cynamserol

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae ystyriaethau a gyrwyr lleol sydd yn dylanwadu ar y gyfundrefn addysg, gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth Addysg i'r dyfodol, ac rydym angen sicrhau ein bod yn cynnal a chefnogi yr hyn sydd yn dda ac yn unigryw am y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd ag adnabod cyfleoedd i ymateb i rai heriau sy'n debygol o wynebu'r gyfundrefn nawr ac i'r dyfodol, megis:

- Cynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.
- Cynnal a chryfhau'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd ysgol a'r cymunedau a wasanaethir yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.
- Sicrhau gwasanaethau cefnogi lles rhagorol i blant a phobl ifanc Gwynedd er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu llawn potensial.
- Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ac ymateb i'r her o recriwtio athrawon a chymorthyddion yn ein hysgolion
- Sicrhau hyfywedd a gwytnwch ein hysgolion pan fo gostyngiad yn niferoedd dysgwyr yn sgil cyfraddau geni isel, poblogaeth sy'n heneiddio a di-boblogi gwledig.

| |
|---|
| • Gwella ein stad ysgolion er sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc pan fo gennym gynifer o adeiladau i'w cynnal, a disgwyliad i'r stad ysgolion fod yn ddi-garbon dros y cyfnod nesaf.<br>• Ymateb i'r her o gynnal y gyfundrefn addysg mewn cyfnod digynsail o doriadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Dim ar y pwynt yma, ond efallai y daw bylchau i'r amlwg yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori ar y strategaeth ddrafft. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br><br>Amcan 1 y Strategaeth Addysg Ddrafft yn anelu i wella canlyniadau ar gyfer ein dysgwyr mwyaf bregus, a grwpiau o ddysgwyr sy'n aml yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysg. Mae enghreifftiau o rai o'r grwpiau lleiafrif ethnig hyn yn cynnwys plant/pobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr a phlant/pobl ifanc du gan fod data yn dangos nad ydynt yn tueddu i wneud cynnydd cystal a'u cyfoedion o ran hil. |
| **Anabledd** | Positif | Mae Amcan 1 y Strategaeth Addysg Ddrafft yn anelu i wella canlyniadau ar gyfer ein dysgwyr mwyaf bregus, a grwpiau o |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddysgwyr sy'n aml yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysg. O safbwynt plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol,  byddwn yn parhau â'r gwaith o weithredu gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, yn ogystal â'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (Gwynedd). Nod y Strategaeth ADYaCh yw sicrhau bod plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd a phrofiadau addysg a hyfforddiant sydd wedi eu cynllunio'n briodol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd a chyflawni eu potensial mewn lleoliadau addysg sy'n addas i'w anghenion.<br><br>Rhagwelir y bydd Amcan 3 yn cyfrannu'n bositif at y nodwedd yma hefyd drwy ymgorffori llesiant da yn ysgolion Gwynedd; gan greu awyrgylch gefnogol lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i wireddu eu potensial personol ac academaidd, lle maent yn ffynnu, yn dysgu ac yn datblygu'n emosiynol, gyda chymorth athrawon a staff sy'n gweithredu mewn diwylliant sy'n rhoi gwerth ar eu llesiant hwythau. Bydd sicrhau bod gweithgarwch corfforol rheolaidd yn arfer am oes yn gyfrwng i wella iechyd plant a phobl ifanc nawr ac wrth iddynt dyfu'n hŷn, gan gyfrannu at wella hapusrwydd a gwytnwch cyffredinol.<br><br>Ymhellach, rhagwelir y bydd Amcan 5 yn cyfrannu'n bositif at y nodwedd yma, gan fydd adeiladau ysgolion ac amgylcheddau dysgu newydd yn hyblyg ac yn hygyrch o ran gofod, amser, pobl a thechnoleg – gan ymateb i anghenion heddiw, ond y gellir eu haddasu'n hawdd i gwrdd ag anghenion y dyfodol. |
| **Rhyw** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma |
| **Oedran** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae |

| | | |
|---|---|---|
| | | dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy mewn ysgol amgen.<br><br>Fe nodir yn y Polisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion Gwynedd fod yr ysgolion yn "*...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion y sir, ac mae pob ysgol (namyn 3 ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru.<br><br>Rhagwelir y bydd ail amcan y strategaeth ddrafft (Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog) yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Rhagwelir y bydd ail amcan y strategaeth ddrafft hefyd yn cyfrannu at gefnogi staff i wella eu sgiliau yn y Gymraeg neu i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith ynghyd â hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a dwyieithog ymysg rhieni. Bydd yr ail amcan hefyd yn hyrwyddo cyflogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion Gwynedd ac o fewn yr Adran Addysg. |

| | | |
|---|---|---|
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Rhagwelir y bydd Amcan 1 yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial.<br><br>Bydd ehangu ymhellach ar ardaloedd darpariaeth bresennol Dechrau'n Deg a'r cynnig gofal plant yn sicrhau'r cychwyn gorau i blant o'r blynyddoedd cynnar ymlaen ac yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau mynediad at ofal plant a gwasanaethau blynyddoedd cynnar i deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig o'r sir.<br><br>Mae Amcan 3 hefyd yn cydnabod effaith y cynnydd mewn costau byw presennol, gan gynnwys costau deunyddiau dyddiol megis gwisg ysgol, bwyd, cludiant a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd ac yn effeithio ar lesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd. Bydd y cynllun prydau ysgol am ddim i holl ddysgwyr cynradd yn gymorth mawr i deuluoedd o ran lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae'r ymrwymiad i ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau hefyd yn debygol o leihau anfantais economaidd-gymdeithasol. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |

| | | |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Rhagwelir y bydd yr amcan gyntaf yn effeithio'n bositif ar y dyletswydd yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial.<br><br>Rhagwelir y bydd yr ail amcan yn effeithio'n bositif ar y dyletswydd yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu elwa'n llawn ar y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a geir yn ysgolion Gwynedd. |
| **Meithrin perthnasau da** | Positif | Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau.<br><br>Rhagwelir y bydd trydydd amcan y strategaeth ddrafft yn cyfrannu at feithrin perthnasau da wrth i blant a phobl ifanc Gwynedd fod yn ymwybodol o bwysigrwydd lles, ac yn ymwybodol o broblemau amrywiol y maent yn eu hwynebu yn aml o ran cadw'n ddiogel, cadw'n iach, rheoli perthnasau, a delio efo'r heriau o dyfu'n hŷn mewn cymdeithas sydd mor newidiol. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Rhagwelir y bydd ail amcan y strategaeth ddrafft (Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog) yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad at |

gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Rhagwelir y bydd ail amcan y strategaeth ddrafft (Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog) yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Rhagwelir y bydd ail amcan y strategaeth ddrafft (Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog) yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Byddwn yn ystyried unrhyw newidiadau eraill perthnasol er mwyn lleihau ymhellach unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol pan fyddwn yn ymgysylltu ac ymgynghori.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Er ei bod yn ddyddiau cynnar, ac nad yw'r asesiad effaith yn derfynol, rhagwelir y bydd y polisi yn debygol o gael effaith bositif ar yr uchod.<br>Byddwn yn diweddaru'r asesiad wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Er ei bod yn ddyddiau cynnar, ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd y polisi'n cael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion uchod. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | - |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | - |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | - |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth. | - |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd. |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd wrth i'r maes gwaith ddatblygu.

CYNGOR GWYNEDD

# Adroddiad Asesu Effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol – Strategaeth Addysg ddrafft

- Medi 2023

## CYNNWYS


1. CYFLWYNIAD

2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

5. CASGLIAD

## 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i’r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy’n un o’r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu’r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- **GWYNEDD YFORY** - Rhoi’r cychwyn gorau posib mewn bywyd i’n plant a’n pobl ifanc
- **GWYNEDD LEWYRCHUS** - Cryfhau’r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- **GWYNEDD GLYD** - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- **GWYNEDD OFALGAR** - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- **GWYNEDD GYMRAEG -** Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i’n trigolion ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned
- **GWYNEDD WERDD -** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i’r argyfwng newid hinsawdd
- **GWYNEDD EFFEITHLON** - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio’n effeithiol ac effeithlon

Mae’r tabl isod yn amlinellu’r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a’r nodau llesiant cenedlaethol.

| | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWYNEDD YFORY<br>Rhoi’r cychwyn gorau posib mewn bywyd i’n plant a’n pobl ifanc | ■ | | ■ | ■ | | ■ | |
| GWYNEDD LEWYRCHUS<br>Cryfhau’r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | |
| GWYNEDD GLYD<br>Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau | | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD OFALGAR<br>Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD GYMRAEG<br>Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i’n trigolion ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned. | | | | | ■ | ■ | |
| GWYNEDD WERDD<br>Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i’r argyfwng newid hinsawdd | ■ | ■ | | | ■ | | ■ |
| GWYNEDD EFFEITHLON<br>Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio’n effeithiol ac effeithlon | ■ | | | ■ | | | |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy eu gweithgareddau a’u prosiectau. Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o’r ddyletswydd mae’r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy’n amlinellu sut y bydd yn gwella yn “Cynllun Gwynedd 2023-2028”.

## 1. Cyd-destun

Cyhoeddwyd y strategaeth wreiddiol **Rhaglen Strategol "Tuag at 2025": Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd** yn 2010 er mwyn gosod cyfeiriad ar gyfer y maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2025. Mae'r Strategaeth Addysg ddrafft newydd sydd gerbron yn adeiladu ar seiliau'r Rhaglen Strategol yma am y degawd nesaf hyd at 2032

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

| Amcanion | Manylion: |
|---|---|
| **GWYNEDD YFORY**<br>Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc | Effaith gadarnhaol. Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at yr amcan llesiant yma trwy'r amcan, 'Hawl i Addysg a Hyfforddiant'. Pwrpas yr amcan hwn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial |
| **GWYNEDD LEWYRCHUS**<br>Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng | Dim effaith negyddol |
| **GWYNEDD GLYD**<br>Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau | Dim effaith negyddol |
| **GWYNEDD OFALGAR**<br>Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau | Dim effaith negyddol |
| **GWYNEDD GYMRAEG**<br>Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned | Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at yr amcan llesiant yma trwy'r amcan, 'Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog'. Pwrpas yr amcan hwn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad i gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. |
| **GWYNEDD WERDD**<br>Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd | Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at yr amcan llesiant yma trwy'r amcan 'Amgylchedd Dysgu Cynaliadwy o safon Uchel'. Pwrpas yr amcan hwn yw datblygu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig, gan warchod ein hamgylchedd naturiol ar yr un pryd. Wrth gynllunio ymlaen felly, bydd rhaid i adeiladu ysgolion newydd fod yn arloesol, yn gyfoes, yn amgylcheddol gyfeillgar, ac yn effeithlon o ran adnoddau, gan ystyried yr effaith ynni a charbon. Rydym hefyd yn ymrwymo i sicrhau bod ethos gwyrdd ac ecogyfeillgar i'n holl ysgolion drwy fonitro a lleihau'r defnydd o ynni, ynghyd ag integreiddio teithio llesol. At hyn, yn greiddiol i'n cwricwlwm newydd mae ein nod i gefnogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd wedi ymrwymo i gynaliadwyedd y blaned. |

| | |
|---|---|
| **GWYNEDD EFFEITHLON**<br>Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio’n effeithiol ac effeithlon | Dim effaith negyddol |

## 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Bwriedir i'r Strategaeth ddrafft hon fod o fudd i holl blant a phobl ifanc Gwynedd. Bydd yn ceisio mynd i'r afael â rhai heriau sy'n debygol o wynebu'r gyfundrefn nawr ac i'r dyfodol, megis:<br>• Cynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.<br>• Cynnal a chryfhau'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd ysgol a'r cymunedau a wasanaethir yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.<br>• Sicrhau gwasanaethau cefnogi lles rhagorol i blant a phobl ifanc Gwynedd er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu llawn potensial.<br>• Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ac ymateb i'r her o recriwtio athrawon a chymorthyddion yn ein hysgolion.<br>• Sicrhau hyfywedd a gwytnwch ein hysgolion pan fo gostyngiad yn niferoedd dysgwyr yn sgil cyfraddau geni isel, poblogaeth sy'n heneiddio a di-boblogi gwledig.<br>• Gwella ein stad ysgolion er sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc pan fo gennym gynifer o adeiladau i'w cynnal, a disgwyliad i'r stad ysgolion fod yn ddi-garbon dros y cyfnod nesaf.<br>• Ymateb i'r her o gynnal y gyfundrefn addysg mewn cyfnod digynsail o doriadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol. | Dim effaith negyddol |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at y nod yma trwy'r amcan, 'Amgylchedd Dysgu Gynaliadwy o Safon Uchel'. Pwrpas yr amcan yma yw ceisio sicrhau fod ysgolion Gwynedd yn cynnig amgylchedd dysgu diogel, ysbrydoledig a chynaliadwy o'r radd flaenaf i ddysgwyr ac athrawon y sir, ac yn sefydliadau sydd â chysylltiad cryf â'u cymunedau. | Dim effaith negyddol |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at y nod yma trwy'r amcan, 'Iechyd a Lles Dysgwyr'. Pwrpas yr amcan hwn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn barod i ddysgu gan allu elwa'n llawn ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael, ac yn gallu cael mynediad rhwydd at gefnogaeth i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol. | Dim effaith negyddol |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru sy’n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Mae’r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu’n bositif at y nod yma trwy’r amcan, ‘Hawl i Addysg a Hyfforddiant’. Pwrpas yr amcan hwn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o’r ansawdd uchaf posibl sy’n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial. | Dim effaith negyddol |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Mae’r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu’n bositif at y nod yma trwy’r amcan, ‘Amgylchedd Dysgu Gynaliadwy o Safon Uchel’. Pwrpas yr amcan yma yw ceisio sicrhau fod ysgolion Gwynedd yn cynnig amgylchedd dysgu diogel, ysbrydoledig a chynaliadwy o’r radd flaenaf i ddysgwyr ac athrawon y sir, ac yn sefydliadau sydd â chysylltiad cryf â’u cymunedau. | Dim effaith negyddol |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Mae’r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu’n bositif at y nod yma trwy’r amcan, ‘Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog’. Pwrpas yr amcan hwn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o’r radd flaenaf, ynghyd â mynediad i gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. | Dim effaith negyddol |
| **Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith negyddol |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Tymor Hir**<br>Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol. | Mae'r strategaeth yn gosod gweledigaeth hir dymor a fydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer y maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2032. |
| **Atal**<br>Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb. | Bwriedir i'r Strategaeth ddrafft hon fod o fudd i holl blant a phobl ifanc Gwynedd. Bydd yn ceisio mynd i'r afael â rhai heriau sy'n debygol o wynebu'r gyfundrefn nawr ac i'r dyfodol, megis:<br>• Cynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.<br>• Cynnal a chryfhau'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd ysgol a'r cymunedau a wasanaethir yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.<br>• Sicrhau gwasanaethau cefnogi lles rhagorol i blant a phobl ifanc Gwynedd er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu llawn potensial.<br>• Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ac ymateb i'r her o recriwtio athrawon a chymorthyddion yn ein hysgolion<br>• Sicrhau hyfywedd a gwytnwch ein hysgolion pan fo gostyngiad yn niferoedd dysgwyr yn sgil cyfraddau geni isel, poblogaeth sy'n heneiddio a di-boblogi gwledig.<br>• Gwella ein stad ysgolion er sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc pan fo gennym gynifer o adeiladau i'w cynnal, a disgwyliad i'r stad ysgolion fod yn ddi-garbon dros y cyfnod nesaf.<br>• Ymateb i'r her o gynnal y gyfundrefn addysg mewn cyfnod digynsail o doriadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol. |
| **Integreiddio**<br>Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant. | Bwriedir i'r Strategaeth ddrafft hon fod o fudd i holl blant a phobl ifanc Gwynedd. Bydd yn ceisio mynd i'r afael â rhai heriau sy'n debygol o wynebu'r gyfundrefn nawr ac i'r dyfodol, fel a nodir uchod. |
| **Cydweithredu**<br>Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau. | Yn ystod Tymor yr Haf 2023, bu i'r Adran Addysg gynnal trafodaeth anffurfiol gyda'r aelodau Cabinet ar y weledigaeth a'r amcanion drafft ar gyfer y Strategaeth Addysg. Yn y cyfarfod hwnnw, cytunwyd gyda'r aelodau Cabinet i flaen-graffu'r fersiwn drafft o'r Strategaeth Addysg gan dderbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi er ystyriaeth gan yr Adran a'r Aelod Cabinet dros Addysg cyn gweithredu unrhyw gamau pellach. Mae amlinelliad drafft o'r camau y bwriedir eu cymryd gan yr Adran i sicrhau mewnbwn rhan-ddeiliaid allweddol i weledigaeth ac amcanion y Strategaeth ddrafft wedi ei chynnwys yn y blaen adroddiad. |
| **Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu)**<br>Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal. | Mae amlinelliad drafft o'r camau y bwriedir eu cymryd gan yr Adran i sicrhau mewnbwn rhan-ddeiliaid allweddol i weledigaeth ac amcanion y Strategaeth ddrafft wedi ei chynnwys yn y blaen adroddiad. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad na ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o'r Strategaeth ddrafft. Nod y Strategaeth ddrafft a'i bwriad sylfaenol yw cael cyfundrefn addysg sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth, drwy gynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** |
| **DYDDIAD** | **14 Medi 2023** |
| **TEITL** | **Presenoldeb ac Ymddygiad disgyblion Ysgolion Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Ellen Rowlands ,Rheolwr Cynhwysiad Adran Addysg** |
| **AELOD CABINET** | **Beca Brown** |

**Pam mae angen craffu ?**

Newidiadau sylweddol yn ymddygiad a presenoldeb disgyblion ysgolion Gwynedd yn dilyn y pandemig Covid-19 sydd yn parhau. Angen ystyried y data a darpariaeth Adran Addysg er ymateb i'r galw.

**Crynodeb**

Nod yr adroddiad yw darparu gwybodaeth am lefelau presenoldeb a gwaharddiadau ar draws ysgolion Gwynedd gan gynnwys amlinelliad o'r prif resymau dros absenoldebau a'r gwaharddiadau.

Mae effaith y pandemig yn cael ardrawiad ar ein gallu i gymharu data dros y tair blynedd ddiwethaf yn gywir ac yn ein hatal rhag cymharu data blynyddoedd blaenorol Gwynedd a thueddiadau cenedlaethol yn ystyrlon.

Mae presenoldeb ar draws y sir yn dangos tuedd gyffredinol o ostyngiad gyda salwch yn amlygu ei hun fel y prif reswm tu ôl i hyn a lefelau absenoldebau parhaus yn dal yn gymharol uchel. Yn ogystal, mae lefelau gwaharddiadau parhaol a chyfnodau penodol yn tueddu i gynyddu, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ac yn benodol mewn pum ysgol yn y sir.

Mae rhaglen waith barhaus yn ei lle sydd yn adolygu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth gyda'r nod o gynyddu presenoldeb a lleihau nifer y gwaharddiadau yn y sir.

Bydd sylw penodol yn cael ei roi i:

- Data presenoldeb gwaharddiadau
- Absenoldeb parhaus
- Dadansoddiad o ddata gwaharddiadau
- Cynllun Gweithredu Presenoldeb a hyrwyddo ymddygiad da

**Argymhellion**

Aelodau'r pwyllgor Craffu i ystyried os oes angen craffu unrhyw agwedd arall o bresenoldeb a gwaharddiadau ynghyd ag effaith y ddarpariaeth sydd yn cael ei chynnig i annog gwelliant mewn presenoldeb ac ymddygiad disgyblion Gwynedd.

**Cyflwyniad a chefndir**

Rhaid i ysgolion sicrhau bod ganddyn nhw bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n hyrwyddo presenoldeb ac ymddygiad da ac yn atal ymddygiad gwael. Dylid ystyried polisi ymddygiad a phresenoldeb ysgol fel rhan annatod o'i chwricwlwm gan fod pob ysgol yn addysgu gwerthoedd yn ogystal â sgiliau a gwybodaeth. Rhaid i'r polisïau fod yn seiliedig ar werthoedd clir megis parch, tegwch a chynhwysiant, a fydd hefyd yn adlewyrchu nodau cyffredinol yr ysgol a'i rhaglenni addysg gymdeithasol, moesol a chrefyddol. Y gwerthoedd hyn ddylai fod tu ôl i'r egwyddorion sy'n sail i bolisi ymddygiad a phresenoldeb yr ysgol.

**Presenoldeb**
Canllawiau presenoldeb allweddol yw Fframwaith Presenoldeb Cymru (Tachwedd 2012). Mae'r ddogfen hon yn darparu safonau ac arweiniad er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru ac yn anelu i alluogi ysgolion i ddarparu gwasanaeth sydd yn gyson, hygyrch ac o safon uchel.

**Gwaharddiadau**
Canllawiau 'Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion' (Tachwedd 2019) yw'r ddogfen sydd yn darparu canllawiau ar wahardd a'r gweithdrefnau apêl ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac unedau cyfeirio disgyblion.
Mae ffocws ar wella presenoldeb a gostwng gwaharddiadau yn flaenoriaeth gan yr Adran Addysg a bu ffocws cyson dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ar ddiwedd y pandemig. Mae cysylltiad rhwng presenoldeb ac ymddygiad da a dysgu yn glir. Mae presenoldeb ac ymddygiad da yn arwain ac yn cefnogi disgyblion i gael y cyfle gorau posib mewn bywyd gan wneud y mwyaf o'u potensial ar gyfer cyflawniad academaidd a chyflogadwyedd yn y dyfodol.

Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud ar wella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion Ysgolion Gwynedd ac mae'r strategaeth Codi dyheadau, Codi Safonau yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau ffocws clir ar hyn.

Fodd bynnag, er bod gwelliant dros y flwyddyn ddiwethaf mewn presenoldeb mae llawer o waith i'w wneud i gau'r bwlch ymhellach ac i atgyfnerthu gwelliannau mewn tueddiadau presenoldeb cadarnhaol, gan gynnwys gostyngiad mewn absenoldebau parhaus.

Er gwaethaf y gostyngiad mewn gwaharddiadau yn ystod y pandemig, mae'r ALl yn cydnabod y bu tueddiad pryderus o gynnydd mewn gwaharddiadau parhaol a phenodol dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae'r tîm cynhwysiad yn gweithredu ystod o strategaethau sydd wedi'u cynllunio i feithrin gallu ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion ymddygiad a lles disgyblion fel y gallent ddarparu ymyriadau arbenigol i'r disgyblion hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, gan gynnwys hyrwyddo rhannu arfer da ymhlith ysgolion.

Cyhoeddir data presenoldeb a gwaharddiadau gan Llywodraeth Cymru (LlC) yn ôl-weithredol ac mewn ystod o fformatia'u.

**Y Gefnogaeth**

O fewn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADYaCH), mae yna ystod o dimau i gefnogi ymdrechion ysgolion, gan gynnwys swyddogion lles (sydd â chyfrifoldeb statudol o ran materion presenoldeb ysgolion) ac un i bob dalgylch ysgol uwchradd, swyddog lles cynhwysiad (sydd yn cefnogi mewn achosion gwaharddiadau), tîm cynnal ymddygiad ac ymestyn allan, seicolegwyr addysg, gwasanaeth cwnsela a chefnogaeth Saesneg fel iaith ychwanegol. Yn fwy diweddar, yn dilyn arian grant LlC, sefydlwyd tîm o swyddogion cefnogi teuluoedd a chymuned (mewn rhai ysgolion).
Roedd gan y gwasanaethau hyn rolau sylweddol i'w chwarae yn ystod y cyfnod clo ac maent wedi addasu eu dulliau cefnogaeth mewn ymateb i'r sefyllfa. Mae nifer o'r dulliau yma yn dal yn eu lle ac wedi'u rhannu gyda'n hysgolion er mwyn parhau gyda'r gefnogaeth honno.

Er mwyn cefnogi a darparu ar gyfer y dysgwr mwyaf bregus a heriol, mae yna ddarpariaeth arbenigol gan gynnwys uned cylchdro i ddisgyblion bl 4/5/6/7 ac 8. Mae'r ddarpariaeth hon o dan y Gwasanaeth ADYaCH ac yn darparu lleoliad dros gyfnod penodol o hyd at 12 wythnos gan dîm

arbenigol yn y maes cynnal ymddygiad. Tu hwnt i hyn, mae'r Adran Addysg wedi comisiynu dwy ysgol uwchradd i fod yn darparu hwb Addysg i ddisgyblion bl. 10 ac 11 sydd wedi eu hadnabod fel unigolion sydd angen pecyn addysg amgen am weddill eu llwybr addysgol.

**PRESENOLDEB**

**Lle rydym arni? -**

Ar ôl i ysgolion ail-agor yn llawn ym mis Ebrill '21 yn dilyn y pandemig, roedd canran presenoldeb wedi gostwng yn sylweddol.

Yn sgil y pandemig, nid oedd data cymharol gan Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20, 2020/21 na 2021/22.

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2019/20, (hyd at y cyfnod clo) roedd absenoldebau parhaus yn gwella . Mae cyflyrau COVID wedi effeithio'n sylweddol ar ffigyrau yn ystod ac ar ôl y cyfnod clo. Canran absenoldebau parhaus am 22/23 yn 13.48%

Mae sefyllfa presenoldeb yn parhau i gael ei effeithio'n sylweddol gan y pandemig

| | Medi 20/Medi 21 | Medi 21- Medi 22 | Medi 22-23 |
|---|---|---|---|
| | **77.6% ( Cymru 80.75)** | **82.3% ( Cymru 83.2%)** | **88% ( Cymru 88.5%)** |
| | | | |

Fel sydd eisoes wedi'i nodi, mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar bresenoldeb yn ogystal â'r nifer uchel o absenoldebau sydd yn cael eu hawdurdodi a hefyd y rhaid nad ydynt.

**<u>Absenoldebau Parhaus</u>**
Fel y nodwyd uchod, bu cynnydd yng nghanran absenoldebau parhaus ers dechrau'r pandemig. Gellir perthnasu'r cynnydd hwn i sawl mater gan gynnwys pryder wrth ddychwelyd yn ôl i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo.
Ar draws y sector uwchradd, mae'r lefelau o absenoldebau parhaus yn cael eu hadrodd o achos materion lles emosiynol unigolion. O fewn ADYaCH, mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud mewn pecynnau hyfforddiant er mwyn cefnogi'r unigolion yma drwy raglenni Llythrennedd Emosiynol, grwpiau meithrin o fewn ysgolion, Ysgolion sydd yn wybodus o drawma ac yn ogystal mae'r gwasanaeth seicolegwyr addysg yn ail-gyflwyno rhaglen i gefnogi'r unigolion sydd yn cael eu hadnabod fel EBSA (Unigolion sydd yn osgoi ysgol o achos lles emosiynol)

O ganlyniad i'r cynnydd yma, mae yna gynllun gwella presenoldeb gyda chynlluniau gweithredu pwrpasol wedi'i wneud er mwyn cefnogi ysgolion i roi ffocws ar hyn. Fel rhan o hyn, bydd monitro cyson yn digwydd rhwng staff a swyddog lles yr ysgol, ble bydd yn ddisgwyliedig iddynt fonitro cynnydd y disgyblion yma drwy ddadansoddi data absenoldebau parhaus ac yn erbyn camau gweithredu.

Ailgyflwynwyd Hysbysiadau Cosb Penodedig (FPN) ar gyfer diffyg presenoldeb ysgol yn ystod 22/23 ac nid oes unrhyw newid yn y Cod ymddygiad presenoldeb sydd yn weithredol ers cyn cyfnod y pandemig. Mae'n ofynnol i'r ysgolion atgoffa rhieni/gofalwyr drwy eu polisi presenoldeb ble mae yna fwriad i ddefnyddio (FPN) a hefyd i gyfleu'r neges bwysig o bresenoldeb da ar dechrau pob tymor .

**Grant Presenoldeb**

Mae Grant Presenoldeb Llywodraeth Cymru wedi ein galluogi i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau sydd â'r nod o wella presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys ymestyn ar strwythur staffio gwasanaeth lles drwy gynyddu y nifer o swyddogion, penodi tîm fydd yn canolbwyntio'n benodol ar waith targedu a chreu tîm o swyddogion sydd yn cefnogi disgyblion a theuluoedd bregus er mwyn darparu cefnogaeth ychwanegol.

**Gwaharddiadau**


Mae lefel gwaharddiadau cyfnod penodol a parhaol ar draws y sir wedi bod ar gynnydd a hyn yn fwy sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Y prif resymau a nodwyd am y gwaharddiadau yw ymddygiadau bygythiol a threisgar yn erbyn disgyblion eraill, ymddygiadau bygythiol yn erbyn oedolyn, ymddygiad aflonyddgar parhaus a chynnydd yn y nifer o achos defnyddio cyffuriau yn yr ysgol.

Fel y gefnogaeth sydd ar gael o achos presenoldeb mae yna dîm o fewn ADYaCH yn cefnogi ysgolion mewn perthynas ag ymddygiadau heriol ac i geisio lleihau sefyllfaoedd o waharddiadau. Yn benodol yn yr uwchradd, rydym yn profi cymhlethdod cynyddol a ffactorau allanol ehangach e.e.


Gwrthdaro cymdeithasol, unigolion sydd yn cael eu hecsbloetio, ymddygiadau gôr-rywiol a phryder am ddelio cyffuriau yn eu gwneud yn sefyllfa fwyfwy anodd.

I gydnabod natur gymhleth anawsterau ymddygiad llawer o ddisgyblion a'r cysylltiad rhwng lles disgyblion a chyflwyno ymddygiad heriol, mae yna gynllun gweithredu sydd yn cefnogi gweithredu canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, 'Fframwaith ar ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol ac iechyd meddwl'. Ar hyn o bryd, darperir ystod o gefnogaeth, hyfforddiant ac mae ystod o gefnogaeth, hyfforddiant ac ymyrraeth yn cael ei ddarparu i ysgolion ar hyn o bryd drwy ddull strategol yr ALl o wella lles ac ymddygiad, megis hyfforddiant ar sail trawma, hyfforddiant a chymorth gwell i ELSA a hyfforddiant anogaeth. Er bod adborth cychwynnol yn ei gamau cynnar, dengys fod yr uchod yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion a morâl staff. Rydym wedi datblygu dull diwygiedig o ddadansoddi data gwaharddiadau er mwyn ein galluogi i dargedu yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol.


Er mwyn gwella presenoldeb, mae gweithio at nod o leihau gwaharddiadau wedi'i nodi fel blaenoriaeth ac mae'r Adran Addysg yn comisiynu archwiliad allanol o ddefnydd arian cynhwysiad yn yr ysgolion ynghyd ag effaith yr hybiau (sydd yn ddarpariaeth ychwanegol i unigolion sydd methu ymdopi mewn addysg prif lif) er mwyn gwella cysondeb ac atebolrwydd.





Uwchradd - gwaharddiadau cyfnod penodol yn dangos niferoedd
cyfan, 5 diwrnod neu llai, a dros 5 diwrnod
900
800
700
600
500
400
300
200
100
0
792
760
504
468
410
418
349
282
380
390
310
258
24
39
30
28
36
32
2017/18
2018/19
2019/20
2020/21
2021/22
2022/23
Cyfanswm Penodol
5D neu Llai
Dros 5D





Uwchradd - nifer gwaharddiadau cyfnod parhaol
60
50
40
30
20
10
0
48
30
13
13
4
6
2017/18
2018/19
2019/20
2020/21
2021/22
2022/23


Uwchradd - Nifer holl waharddiadau
yn dangos nodweddion disgybl
900
800
700
600
500
400
300
200
100
0
840
535
451
423
424
362
286
295
212
236
237
170
164
76
94
102
110
126
172
27
55
84
85
105
2017/18
2018/19
2019/20
2020/21
2021/22
2022/23
Nifer Gwaharddiadau
Nifer Disgyblion
Nifer Disgyblion ADY
Nifer Disgyblion PYD


Cynradd - gwaharddiadau cyfnod penodol yn dangos niferoedd
cyfan, 5 diwrnod neu llai, a dros 5 diwrnod
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
85
84
57
55
44
38
42
39
46
44
57
55
1
2
6
3
2
2
2017/18
2018/19
2019/20
2020/21
2021/22
2022/23
Cyfanswm Penodol
5D neu Llai
Dros 5D




| GOBLYGIADAU ADNODDAU |
|---|
| Mae'r lefelau cynyddol o ymddieithrio a gwaharddiadau yn cael effaith ar y gwasanaeth ADYaCH ac ysgolion gan fod yna fwy o ofyn am y gwasanaethau ac am adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi a darparu ar gyfer y rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth, megis capasiti swyddogion a rhaglenni darpariaeth bwrpasol. |

| ASESIAD EFFATH A RHEOLI RISG |
|---|
| Mae nifer o risgiau yn gysylltiedig â lefelau uwch o ymddieithrio a gwaharddiadau gan gynnwys diogelu, lles disgyblion, canlyniadau a gwariant ariannol. Drwy'r cynllun busnes ac adrodd ar |

| |
|---|
| fesuryddion, mae data yn cael ei rannu ac yn sicrhau bod uwch dîm y Cyngor, tîm rheoli Addysg a Bwrdd rheoli ADYaCH â throsolwg o'r sefyllfa a bod y camau gweithredu cyson yn cael eu monitro er mwyn lliniaru'r risgiau.<br><br>Yn ogystal, mae paneli cymedroli yn cael eu cynnal yn fisol ble mae ysgolion yn cyflwyno ceisiadau am adnodd ychwanegol (unai arian, adnodd o dîm penodol neu lleoliad yn y ganolfan gylchdro neu Hwb )<br><br>Mae gwaith ychwanegol i wella dadansoddi data ac i broffilio gwasanaethau statudol hefyd yn parhau. Mae fforymau a strwythur diwygiedig cynhwysiad yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd i geisio mynd i'r afael â'r galw cynyddol am becynnau a chymorth i blant ag iechyd meddwl, pryder, ymddygiad gwael a dad-gofrestru. Mae paneli yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod disgyblion dwys a chymhleth i sicrhau eu bod yn ymgysylltu neu'n cysylltu â nhw. Mae'r gweithgareddau hyn yn sicrhau bod diogelu disgyblion bregus yn hollbwysig. |

**CYNLLUN GWEITHREDU**

**Beth sydd wedi'i gyflawni yn barod?**

- Gwelliant mewn craffu data drwy dderbyn adroddiad wythnosol ar ddata presenoldeb/gwaharddiadau pob ysgol gan y swyddog data
- Cydweithio gwell o fewn adrannau eraill o fewn y Cyngor
- Gwelliant mewn llinellau atebolrwydd gydag ysgolion
- Sefydlogrwydd gan fod pob aelod o'r tîm lles bellach ar gytundeb parhaol
- Dwy ysgol yn prynu amser ychwanegol gan swyddog lles
- Gwell defnydd o amser y swyddog lles cynhwysiad

**I'w wneud**

| **Beth?** | **Sut?** | **Pwy?** | **Erbyn** |
|---|---|---|---|
| Craffu ar bresenoldeb /Gwaharddiadau a chofrestrau pob Ysgol | Sicrhad bod yr ystod o ddata yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol drwy:<br>Gwirio cofrestrau<br>Herio marciau coll<br>Disgyblion sydd yn symud ysgolion<br>Disgyblion sydd yn cael eu gwahardd yn aml ond ddim yn dod i sylw'r Awdurdod<br>Tystiolaeth rhesymau am absenoldebau /Gwaharddiadau<br>Defnydd amser Swyddog Lles/Swyddog Lles cynhwysiad | Swyddogion lles<br>Swyddog lles Cynhwysiad<br>Swyddogion data<br>Rheolwr Cynhwysiad | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adolygu polisi presenoldeb | Adolygu a gwneud unrhyw addasiadau<br>Mabwysiadu'r Polisi diwygiedig | Rheolwr Cynhwysiad<br>Uwch Swyddog lles<br>Swyddog diogelu<br>Swyddogion Addysg | Medi 2023 |
| Hysbysu ysgolion sy'n peri pryder | Blaenoriaethu cefnogaeth | Uwch Swyddog lles<br>Swyddog lles cynhwysiad<br>Swyddogion Addysg<br>Rheolwr Cynhwysiad | Parhaus |
| Herio ysgolion i godi disgwyliadau a sicrhau cywirdeb ar adnabod deilliannau presenoldeb/gwaharddiadau | Pob ysgol yn gyfarwydd ac wedi mabwysiadau polisi presenoldeb<br>Ysgol wedi enwebu llywodraethwyr i fod yn gyfrifol am fonitro presenoldeb | Uwch Swyddog lles<br>Swyddog lles yr ysgol<br>Swyddogion Addysg<br>Ysgolion<br>Corff Llywodraethwyr | Parhaus |
| Safoni presenoldeb/gwaharddiadau grwpiau penodol o ddisgyblion | Penaethiaid, holl staff addysgu a Chyrff Llywodraethu pob ysgol yn derbyn eu cyfrifoldeb i fynnu disgwyliadau uchel mewn cynnal presenoldeb uchel.<br><br>Swyddogion lles yn safoni presenoldeb disgyblion bregus | Pawb | Parhaus |
| Hyfforddiant i benaethiaid newydd a chorff Llywodraethwyr | Holl weithlu addysg yn ymwybodol ac yn hyderus o'u cyfrifoldeb statudol i sicrhau bod polisi presenoldeb a phrosesau cadw cofrestr yn gywir ar waith o fewn eu dosbarth.<br><br>Cynnydd priodol wedi ei wneud i godi presenoldeb holl blant a deilliant rhan fwyaf o'r disgyblion grwpiau targed wedi codi Llywodraethwyr dynodedig gwaharddiadau gydag | Rheolwr Cynhwysiad<br>Uwch Swyddog lles<br>Swyddogion Addysg | Tymor yr Hydref 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | adnabyddiaeth glir o gyfrifoldebau panel disgyblu a'r angen i graffu ar ddata gwaharddiadau ysgolion | | |
| Bwrdd Adrodd Ysgolion | Ysgolion unigol yn dod i sylw'r Grŵp cadw golwg ar gynnydd.<br><br>Adroddiad ar unrhyw bryder sylweddol | Rheolwr Cynhwysiad | Parhaus |
| Dull clwstwr ysgolion | Cysondeb yng nghlwstwr ysgolion er mwyn annog cydweithio ar faterion presenoldeb/Gwaharddiadau | Swyddogion lles | Parhaus |

**Ein Huchelgais**

- Presenoldeb Ysgolion Gwynedd i fod yn unol â chyfartaledd Cymru
- Lefelau gwaharddiadau yn gostwng yn sylweddol
- Perfformiad pob disgybl mewn perthynas â phresenoldeb a gwaharddiadau wedi gwella
- Defnydd cyllid ychwanegol gan LlC yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
- Defnyddio data i gefnogi ymatebion strategol a gweithredol
- Lleihau lefelau absenoldebau parhaus
- Partneriaeth waith aeddfed a phragmatig rhwng yr ysgolion a'r gwasanaeth lles
- Dulliau cyson o ymgysylltiad amserol i leihau nifer y FPN

**Casgliad**

Ar gyfartaledd, mae nifer y gwaharddiadau parhaol ar draws yr ysgolion uwchradd yn rhy uchel ac mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnodau penodol a nifer y dyddiau sydd yn cael eu colli hefyd yn rhy uchel.

Mae nifer y dysgwyr mewn grwpiau bregus sydd yn derbyn gwaharddiadau a sydd â lefel presenoldeb isel yn peri pryder

Bydd swyddogion yr ALl yn parhau i gydweithio gyda Phenaethiaid Uwchradd ar gysoni gwaharddiadau ac i ail-afael yn y drefn o symudiadau drwy drefniant ac i ddatblygu dulliau o fynd i'r afael ag anghenion mewn perthynas ag ymddygiad a lles dysgwyr, gyda'r nod o gael effaith ar gyfraddau gwaharddiadau a gwella presenoldeb.

Bydd yr arolwg allanol ar ddefnydd arian cynhwysiad o fewn ysgolion uwchradd, ynghyd ag effaith yr hybiau addysg ar y dysgwyr mwyaf bregus, yn craffu ymhellach ar y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion ac effaith ar ganlyniadau ymgysylltu ac agweddau at ddysgu

Mae angen gwaith pellach i ddatblygu canolfan asesu i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu nodi'n briodol, a bod yr ymyrraeth ar waith yn mynd i'r afael ag anghenion gweithio mewn partneriaeth ac yn ffocws pwysig wrth symud ymlaen.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 14 Medi 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 2023/24 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mehefin 2023.

2. Ers y cyfarfod yna, derbyniwyd cais gan yr Adran Addysg i'r Pwyllgor ystyried rhaglennu eitem ychwanegol ac ail amserlennu rhai eitemau sydd i'w craffu yn ystod 2023/24.

3. Manylir ar y cais isod:

   **Adroddiad Arolwg Estyn a Chynllun Gweithredu yr Adran Addysg mewn ymateb**

   Yn ystod tymor yr Haf, cynhaliodd Estyn arolwg o Awdurdod Addysg Gwynedd. Mae'n arfer da i Bwyllgorau Craffu roi sylw i adroddiad ac argymhellion Estyn a chynllun gweithredu'r Awdurdod mewn ymateb. Credir y byddai'n amserol i graffu adroddiad Estyn a chynllun gweithredu'r Adran Addysg yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Tachwedd 2023.

   **Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd**

   Symud yr eitem o gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Ionawr 2024 i'r cyfarfod yma. Mae'r elfen yma o'r cais yn gysylltiedig gyda'r eitem ychwanegol uchod. Y bwriad wrth symud yr eitem yma i gyfarfod Medi yw i roi cefndir o ran y maes yma ar gychwyn y flwyddyn academaidd yn sgil sylw i'r maes gan y wasg a phwyslais y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg ar gynyddu lefelau presenoldeb mewn ysgolion a chyhoeddiad canllaw drafft newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y maes ym Mehefin 2023 ynghyd ac ailgyflwyno Hysbysiadau Cosb Penodedig. Gwnaethpwyd y newid yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd.

   **Adroddiad Blynyddol Addysg ac Adroddiad Blynyddol GwE**

   Er mwyn galluogi craffu'r eitem ychwanegol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Tachwedd 2023, awgrymir symud yr adroddiadau blynyddol sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd i 25 Ionawr 2024.

4. Mae blaenraglen y Pwyllgor gyda'r newidiadau posib wedi eu hamlygu yn yr Atodiad. Sylwer yn ogystal bod trefn yr eitemau wedi ei addasu yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol i gael cydbwysedd o ran trefn eitemau Addysg ac Economi ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor.

5. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:**
   **(i) ystyried cais yr Adran Addysg;**
   **(ii) mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.**

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2023/24

| **08/06/2023** |
|---|
| • Cynllunio Argyfwng<br>• Canol Trefi Gwynedd |
| **14/09/2023** |
| • Cynllun Digidol<br>• Adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd<br>• Strategaeth Addysg<br>• Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd |
| **09/11/2023** |
| • ~~Adroddiad Blynyddol Addysg~~<br>• ~~Adroddiad Blynyddol GwE~~<br>• Adroddiad Arolwg Estyn a Chynllun Gweithredu yr Adran Addysg mewn ymateb<br>• Cwmni Byw'n Iach<br>• Rheolaeth Traethau |
| **25/01/2024** |
| • ~~Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd~~<br>• Cynllun Economi Gwynedd<br>• Adroddiad Blynyddol Addysg<br>• Adroddiad Blynyddol GwE<br>• Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon |
| **21/03/2024** |
| • Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar<br>• Cinio ysgol am ddim<br>• Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |

Eitem posib i'w raglennu yn ystod y flwyddyn

Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac ysgolion arbennig

Eitemau i'w rhaglennu yn 2024/25:

Cyfundrefn Addysg Drochi

Gwasanaeth Ieuenctid

Canol Trefi Gwynedd